

Adolygiad o Weithredu Deddfwriaeth
Digartrefedd Gan Awdurdodau Lleol
Llywodraeth Cynulliad Cymru





Ceir copïau pellach o'r ddogen hon oddi wrth:

Sarah Ballard

Y Gyfarwyddiaethol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: (029) 2082 3353
E-bost: sarah.ballard@wales.gsi.gov.uk
Gwefan <http://www.Cymru.gov.uk/>

ISBN 0 7504 2863 5
Dyluniwyd gan CartoGraffeg
G/331/00-01

Ionawr 2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Cysodwyd gan y Gwasanaethau prosesu Testun



Cynnwys

1. Cyflwyniad	1	
2. Cyd-Destun	5	
3. Canfyddiadau	21	
4. Problemau Wrth Weithredu'r Gyfraith a'r Côt Arweiniad	43	
5. Casgliadau ac Argymhellion	51	
Atodiad 1	Llyfryddiaeth	61
Atodiad 2	Adolygiad o holiadur digartrefedd ar gyfer awdurdodau lleol a'r wybodaeth y gofynnwyd amdani	63
Atodiad 3	Cyrff cenedlaethol yr ymgynghorwyd â hwy	69
Atodiad 4	Materion i'w trafod gyda chyrff cenedlaethol	71
Atodiad 5	Cyrff lleol yr ymgynghorwyd â hwy	73
Atodiad 6	Materion i'w trafod gyda chyrff lleol	75
Atodiad 7	Grŵp llywio'r prosiect	77
Atodiad 8	Materion ar gyfer y Côt Cyfarwyddyd yn codi o'r adolygiad	79
Atodiad 9	Materion ar gyfer y Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol yn codi o'r adolygiad	83

Pennod Un Cyflwyniad

1.1.1 Yn Hydref 2002 comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (y Cynulliad) HACAS Chapman Hendy i adolygu'r modd y mae deddfwriaeth digartrefedd yn cael ei gweithredu yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn archwiliad o'r ffordd y mae'r fframwaith deddfwriaethol, y cyfarwyddyd a'r cyfrifoldebau cyfredol tuag at bobl ddigartref yn cael eu gweithredu.

1.1.2 Mae'r bennod ragarweiniol hon yn nodi cefndir yr adolygiad, ei gwmpas a'r ymagwedd a fabwysiadwyd.

1.2 Cefndir yr adolygiad

1.2.1 Gosodir y fframwaith deddfwriaethol cyfredol ar gyfer digartrefedd yn Neddf Tai 1996 sydd wedi ei diwygio gan Ddeddf Digartrefedd 2002. Mae Deddf Tai 1996 yn nodi'r dyletswyddau ar gyfer awdurdodau lleol yng nghyswllt y rhai sy'n eu cyflwyno eu hunain fel rhai digartref neu rai all fod yn ddigartref, gan gynnwys darparu cyngor a gwybodaeth, llety dros dro a pharhaol, a chefnogaeth addas. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r 'profion' y mae'n rhaid i unigolion lwyddo ynddynt i gael eu derbyn fel rhai sy'n statudol ddigartref gan awdurdod lleol ac felly y mae'r dyletswydd ailgartrefu llawn yn ddyledus iddynt:

- a yw'r ymgeisydd yn gymwys i dderbyn cymorth?
- a yw'r ymgeisydd yn ddigartref neu yn cael ei fygwth â digartrefedd?
- a yw'r angen yn un blaenoriaeth?
- a yw'r ymgeisydd yn ddigartref yn anfwriadol?
- a oes gan yr ymgeisydd gysylltiad lleol? Neu, os nad oes cysylltiad lleol, a ddylai'r awdurdod dderbyn yr ymgeisydd oherwydd amgylchiadau fel trais yn y cartref?

1.2.2 Yn Adran 189 o Ddeddf Tai 1996 nodir bod y categorïau canlynol o ymgeiswyr yn cael eu hystyried fel rhai sydd ag angen blaenoriaeth:

- menyw feichiog neu berson y mae'n byw gydag ef/hi neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddi fyw gydag ef/hi;
- person y mae plant dibynnol yn byw gydag ef/hi neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fyw gydag ef/hi;
- person sy'n fregus oherwydd oedran, salwch meddwl neu nam neu anabledd corfforol neu reswm arbennig arall, neu y mae person o'r fath yn byw gydag ef/hi neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fyw gydag ef/hi;
- person sy'n ddigartref, neu a fygythir â digartrefedd, o ganlyniad i argyfwng fel tân, llif neu drychineb arall.

1.2.3 Daeth darpariaethau digartrefedd Deddf Digartrefedd 2002 i rym ym Medi 2002 ac maent yn cynnwys:

- y gofyn i awdurdodau lleol gynnal adolygiad o ddigartrefedd, paratoi strategaethau digartrefedd ar sail adolygiadau, a diwygio'r strategaeth o leiaf unwaith bob pum mlynedd;
- y gofyn i awdurdodau lleol ddarparu lefel uwch o gyngor a chymorth i

ymgeiswyr nad oes dyletswydd i sicrhau tai iddynt;

- diddymu'r dyletswydd dwy flynedd a gosod dyletswydd amhenodol yn ei le i ymgeiswyr y mae'r dyletswydd tai llawn yn ddyledus iddynt;
- grym i sicrhau llety i ymgeiswyr nad ydynt yn cael blaenoriaeth;
- dyletswydd newydd o gydweithio rhwng gwasanaethau tai a chymdeithasol;
- newidiadau ym manylion gweithdrefnau adolygu ac apelio.

1.2.4 Yn ychwanegol, cyflwynwyd deddfwriaeth eilaidd gan y Cynulliad ym Mawrth 2001, cyn Deddf Digartrefedd 2002. Ymestynnodd Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaeth) (Cymru) 2001 (y Gorchymyn), y grwpiau i'w hystyried fel rhai blaenoriaeth i gynnwys:

- rhai sy'n gadael gofal neu bersonau mewn risg benodol o gael rhywun yn manteisio arnynt yn rhywiol neu'n ariannol, 18 neu hŷn ond yn iau na 21 oed;
- rhai 16 neu 17 mlwydd oed;
- personau sy'n ffoi rhag trais domestig neu'n cael eu bygwth â thrais domestig;
- personau sy'n ddigartref wedi gadael y lluoedd arfog, a
- chyn garcharorion sy'n ddigartref wedi cael eu rhyddhau o'r ddalfa (a sydd â chysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod tai lleol).

1.2.5 Yn Ebrill 2001 cyhoeddodd y Cynulliad gyfarwyddyd dros dro ar y Gorchymyn. Ers hynny mae'r awdurdodau lleol a'r asiantaethau sy'n cynrychioli pobl ddigartref wedi cofnodi anawsterau wrth weithredu'r gyfraith. Rhoddodd Shelter Cymru dystiolaeth yn ei ddau gyfarfod

briffio (**Gwadu Hawliau i Bobl Ddigartref a Targedu Digartrefedd**) sy'n dangos pa mor amrywiol yw'r modd y gweithredir y gyfraith ar draws Cymru ac a nododd, mewn rhai achosion, nad oedd awdurdodau lleol yn bodloni eu hymrwymiaidau i bobl ddigartref fel y bwriadodd y gyfraith. Rhoddwyd rhagor o dystiolaeth o anawsterau o'r fath gan y Gwasanaeth Prawf.

1.2.6 Wrth ymateb i'r materion a godwyd, yn arbennig i dystiolaeth Shelter Cymru, mynegodd Aelodau'r Cynulliad eu pryderon yn ystod dadl lawn ar ddigartrefedd a daethant i'r casgliad y dylid cynnal adolygiad o weithredu'r ddeddfwriaeth.

1.3 Cwmpas a phrif nod

1.3.1 Mae'r adolygiad yn ymdrin â phob agwedd ar y dyletswydd statudol a nodwyd yn Neddf Tai 1996, fel y'i diwygiwyd. Nod yr adolygiad yw rhoi gwybodaeth ar gyfer fersiwn derfynol y Côt Cyfarwyddyd ac i wella'r modd y mae deddfwriaeth digartrefedd yn cael ei weithredu yng Nghymru. Mae'n ymdrin â phrif agweddau'r broses ddigartrefedd statudol, hynny yw:

- cyngor/atal;
- cyflwyniadau a chyfeiriadau gan asiantaethau gwirfoddol;
- asesiad, gan gynnwys pennu cymhwyster ar gyfer cymorth ac anghenion o ran cefnogaeth;
- y broses o lunio penderfyniadau o ran cymhwyster i dderbyn cymorth, a'r dyletswyddau sy'n ddyledus gan awdurdodau dan adrannau 190 i 200 o Ddeddf 1996;
- proses hysbysu ac apelio;
- cysylltu gyda landlordiaid eraill i sicrhau llety, a

- dewis a natur y llety a gynigir, gan gynnwys llety dros-dro a chefnogaeth.

1.4 Amcanion penodol

1.4.1 Yn benodol roedd yr adolygiad i:

- sefydlu sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r gyfraith ar hyn o bryd a sut y mae hyn yn cymharu â'u polisiâu a'u gweithdrefnau, a gyda'u hymrwymiaadau statudol;
- dynodi'r prif resymau pam nad yw'r gyfraith yn cael ei gweithredu fel y bwriadwyd;
- dynodi unrhyw grwpiau sy'n profi anhawster penodol wrth gael eu hawliau o ran gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol;
- cyngori sut y dylai'r cyfarwyddyd statudol gael ei ddiwygio i'w symleiddio a chynorthwyo i'r gyfraith gael ei gweithredu'n briodol;
- gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw weithredu arall a fyddai'n gymorth i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gweithredu fel y bwriadwyd;
- dynodi ymarfer da cyfredol gan awdurdodau lleol Cymru, a
- chasglu barn asiantaethau sy'n fudd-ddeiliaid ac adolygu unrhyw dystiolaeth o farn ymgeiswyr am gymorth dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd.

1.5 Dull

1.5.1 Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng Tachwedd 2002 a Mai 2003. Cynhaliwyd y paratodau ar gyfer y trafodaethau gydag asiantaethau yn ystod Tachwedd a Rhagfyr gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith maes yn digwydd yn Ionawr a Chwefror. Casglwyd gwybodaeth a barn gan yr holl bartïon ar y

ddealltwriaeth na fyddai modd adnabod pwy fyddai wedi gwneud unrhyw sylwadau beirniadol. Gwnaed y gwaith dadansoddi dros y cyfnod o Chwefror i Fai. Roedd yr adolygiad yn cynnwys y prif weithgareddau canlynol:

Awdurdodau Lleol

1.5.2 Anfonwyd holiadur i bob awdurdod lleol i'w lenwi a gofynnwyd iddynt ddarparu gwybodaeth i gefnogi gan gynnwys polisiâu a gweithdrefnau ac adroddiadau perthnasol e.e. adolygiadau Gwerth Gorau. Rhoddir yr holiadur yn Atodiad 1.

1.5.3 Yn ychwanegol, gwahoddwyd yr holl awdurdodau lleol i un o'r tri diwrnod ymchwiliad digartrefedd, a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin, Pontypwl a Wrecsam, i drafod gweithredu'r ddeddfwriaeth. Yn y dyddiau ymchwilio buom yn cymryd tystiolaeth gan yr awdurdodau lleol a buont yn rhannu ymarfer, profiadau, anawsterau ac enghreifftiau o ymarfer da. Bu swyddogion polisi a swyddogion digartrefedd sy'n gweithio yn y llinell flaen yn cymryd rhan yn y trafodaethau.

1.5.4 Ymatebodd pob awdurdod lleol i'r holiadur ac anfon staff i'r dyddiau ymchwilio i ddigartrefedd. Mae'r raddfa ymateb o 100% yn golygu bod yr adolygiad yn medru adlewyrchu'r materion sy'n effeithio ar bob rhan o Gymru.

Cyrff cenedlaethol

1.5.5 Gwahoddwyd cyrff cynrychioliadol cenedlaethol i roi sylw ar y materion, gan ymateb trwy gyfarfodydd, cyswllt ysgrifenedig neu deleffon. Rhoddir rhestr o'r cyrff y cysylltwyd â hwy yn Atodiad 2. Mae manylion y materion y gofynnwyd i gyrff cenedlaethol roi sylwadau arnynt yn Atodiad 3.

Cyrff lleol

1.5.6 Cysylltodd tîm o bedwar cyfwelydd ffôn â dros 150 o gyrff gwirfoddol lleol a ddynodwyd gan y Cynulliad. Rhoddir rhestr o'r cyrff y cysylltwyd â hwy yn Atodiad 4. Mae manylion y materion y gofynnwyd i'r cyrff roi sylwadau arnynt yn Atodiad 5.

Tystiolaeth ysgrifenedig

1.5.7 Cynhaliwyd adolygiad o gyhoeddiadau perthnasol (gweler Atodiad 6). Tynnwyd data ystadegol ar ddigartrefedd o Ystadegau Tai Cymru ac o adroddiadau'r awdurdodau lleol.

Grŵp Llywio

1.5.8 1.5.8 Goruchwyliwyd yr adolygiad gan Grŵp Llywio o swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol a chynrychiolwyr cyrff allanol. Rhoddir rhestr o aelodau'r Grŵp Llywio yn Atodiad 7.

Diolchiadau

1.5.9 Dymunwn ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu cyfraniadau, a'u cefnogaeth i'r adolygiad. Mae'r ymateb

100% gan awdurdodau lleol, a'r ymateb cynhwysfawr gan amrywiaeth o gyrff cenedlaethol a gwirfoddol yn dangos y pwysigrwydd mawr a roddir i faterion digartrefedd gan y rhai a ymatebodd. Rhaid diolch hefyd i Sian-Marie James, Anna Davies ac Ann Thomas o Gyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth Cynulliad Cymru am eu cymorth.

Ymchwilyr

1.5.10 Cynhaliwyd yr adolygiad gan Judith Wayne, Tamsin Stirling, Barbara Currie, Laurie Naumann, Sue Piper a Nicholas Willmott o HACAS Chapman Hendy.

1.5.11 Mae pennod nesaf yr adroddiad hwn yn nodi cyd-destun polisi'r adolygiad ac yn ystyried tueddiadau mewn digartrefedd ledled Cymru. Amlinellir canfyddiadau'r adolygiad ym Mhennod 4, tra nodir y casgliadau a'r problemau arwyddocaol o ran gweithredu'r gyfraith a'r Côt Cyfarwyddyd ym Mhennod 5. Ym Mhennod 6 nodir yr argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad hwn.

Pennod Dau Cyd-Destun

2.1 Fframwaith polisi

2.1.1 Ar lefel Cymru gyfan, mae atal ac ymdrin â digartrefedd yn rhan o agenda ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymdrin ag anghyfartaledd ac allgauedd cymdeithasol. Dros y deunaw mis diwethaf, mae'r Cynulliad wedi cynhyrchu amrediad o ddogfennau sy'n nodi cyd-destun polisi cenedlaethol cyfredol digartrefedd. Crynhoir hwy yma.

2.1.2 Cyhoeddwyd adroddiad **Comisiwn Digartrefedd** y Cynulliad yn Awst 2001 gan wneud 91 argymhelliad yn y meysydd canlynol:

- diffiniadau o ddigartrefedd a chysgu allan;
- strategaethau digartrefedd lleol a strategaeth ddigartrefedd genedlaethol;
- monitro a mesur digartrefedd, targedau a chanlyniadau;
- cynlluniau bondiau a budd-daliadau;
- polisiâu allgauedd;
- atal;
- iechyd, camddefnyddio sylweddau a thrais yn y cartref;
- gofalwyr a phlant;
- addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a chefnogaeth i'r digartref;
- gwasanaethau cymdeithasol a digartrefedd;
- digartrefedd gwledig;
- cyllid ac ymchwil.

2.1.3 Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cyfarwyddyd drafft ar strategaethau digartrefedd lleol ac ar ddulliau o gofnodi cysgu allan. Ymatebodd y Cynulliad yn swyddogol i'r adroddiad yn Ebrill 2002.

2.1.4 Mae'r Strategaeth Tai Genedlaethol, **Cartrefi Gwell i Bobl Cymru**, a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2001, yn nodi'r fframwaith ar gyfer polisi tai ar lefel lleol a chenedlaethol. Ar ddigartrefedd, cyngor tai a gosodiadau, mae ei gynigion yn cynnwys:

- monitro datblygiad y defnydd o gynlluniau tai personol (yn cael ei dreialu ar hyn o bryd ym Mhen-y-bont ar Ogwr);
- sicrhau bod lefelau digartrefedd yn cael eu mesur yn ardal pob awdurdod lleol a'u trin trwy strategaethau tai lleol;
- lleihau'n sylweddol y nifer o aelwydydd digartref tymor hir;
- cael gwared o'r angen i gysgu allan erbyn Ebrill 2003 (ystyriai'r Comisiwn Digartrefedd dilynol na ellid cyflawni'r gwaith erbyn y dyddiad hwn);
- ystyried canfyddiadau'r archwiliad cyngor tai a sut y gellir defnyddio ei argymhellion i hyrwyddo ymarfer da a gwella safonau;
- sicrhau fod gan bawb fynediad at gyngor tai o ansawdd a di-dâl a hyrwyddo mynediad at gyngor tai arbenigol pan fydd ei angen;
- ffurfio fframwaith polisi cenedlaethol ar osod tai;

- annog awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) i gydweithio ar sefydlu cofrestrï tai cyffredin.

2.1.5 Cyhoeddwyd adroddiad y Cynulliad, **Adolygiad i Allgauedd o Dai Cymdeithasol**, i ymgynghori arno yn 2001. Darganfu y gall y rhesymau dros gyfyngu mynediad at dai cymdeithasol gael ei rannu yn ddau gategori: y rhai a sylfaenwyd ar ymddygiad blaenorol mewn tenantiaeth, a'r rhai sy'n cyfeirio at aneffeithiolrwydd strwythurol yn y system tai i fodloni anghenion rhai ymgeiswyr. Darganfu'r adolygiad hefyd bod allgauedd o dai cymdeithasol yn cael ei weithredu mewn ffyrdd gwahanol ac i raddau gwahanol gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai mewn dull nad oedd o angenrheidrwydd yn adlewyrchu gwahaniaethau mewn amgylchiadau lleol na chyd-destunau. Gwnaeth yr adolygiad gyfres o argymhellion yn pwysleisio pwysigrwydd bodloni anghenion tai.

2.1.6 Cyhoeddwyd y **Côd Cyfarwyddyd ar Ddigartrefedd a Dyraniadau** i ymgynghori arno gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Hydref 2002 ac fe'i cyhoeddwyd yn ei ffurf derfynol yn Ebrill 2003. Mae'n nodi'r cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol ar ddigartrefedd a dyraniadau, ac yn adlewyrchu'r holl ddatblygiadau deddfwriaethol a pholisi perthnasol.

2.1.7 Fel ymateb i argymhellion y Comisiwn Digartrefedd, ac i gyfrannu tuag at dargedau **Cartrefi Gwell a Cymru Well**, datblygwyd strategaeth ddigartrefedd genedlaethol gan y Cynulliad. Cyhoeddwyd drafft cyntaf y strategaeth yn Ebrill 2002 i ymgynghori arni a chyhoeddwyd fersiwn derfynol yn Ebrill 2003.

2.1.8 Diben y strategaeth yw:

- darparu fframwaith ar gyfer datblygiad parhaus cyfarwyddyd a pholisi cenedlaethol ar ddigartrefedd;
- helpu i ddynodi'r angen am gyllid a sut y dylai'r cyllid gael ei flaenoriaethu;
- gosod cyd-destun cliriach ar gyfer datblygu strategaethau digartrefedd lleol;
- gyrru gwelliannau mewn ymarfer da a safonau gwasanaeth;
- sicrhau bod digartrefedd yn cael ei drin yn addas wrth ddatblygu polisiau a strategaethau eraill y Cynulliad.

2.1.9 Mae egwyddorion y strategaeth yn bellgyrhaeddol ac yn cynnwys:

- gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion perthnasol unigolion;
- gwasanaethau sy'n hygyrch i bobl ddigartref;
- atal digartrefedd pryd bynnag y mae hynny'n bosibl;
- ymatebion i ddigartrefedd sy'n adlewyrchu barn pobl ddigartref;
- ymdrin â digartrefedd gydag atebion tymor hir, strwythurol.

2.1.10 Mae'r strategaeth ddigartrefedd genedlaethol yn cynnwys cynllun gweithredu yn ymdrin ag:

- atal;
- mynediad at dai;
- ailsefydlu, cefnogaeth a mynediad at wasanaethau;
- gwasanaethau hanfodol eraill fel gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a phrawf;

- grwpiau dan anfantais;
- darparu'r strategaeth.

2.2 Cyfarwyddyd ac adroddiadau eraill

2.2.1 Mae digartrefedd yn faes polisi 'byw' ac mae amrywiaeth eang o gyfarwyddyd ac adroddiadau ar ddigartrefedd a materion cysylltiedig wedi eu cyhoeddi dros y flwyddyn ddiwethaf. Cânt eu crynhoi'n fyr yma.

2.2.2 **Homelessness: responding to the new agenda**, a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio yn Ionawr 2003, mae'n tynnu ar arolygiadau Gwerth Gorau, gweithgaredd archwilio ac ymchwil. Mae'n cynnwys amrediad o argymhellion i awdurdodau lleol ar:

- atal digartrefedd trwy wella gwybodaeth am achosion o ddigartrefedd a datblygu mentrau i ymyrryd yn gynnar, datblygu gwasanaethau cynghori effeithiol a holistig, a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion pobl;
- darparu rhwyd ddiogelwch trwy wella asesiad digartrefedd a llunio penderfyniadau, gwella safonau a lleihau costau llety dros dro;
- cadw digartrefedd cyn lleied â phosibl trwy weithio ar gamau tymor hir a gwella gweithio rhyngasiantaethol i ymdrin â digartrefedd.

2.2.3 Cyhoeddodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru hefyd ddau adroddiad cysylltiedig ar ôl-ddyledion rhent yn 2002: canolbwyntiodd **Ôl-ddyledion rhent a Budd-dâl Tai yn y Sector Rhentu Cymdeithasol yng Nghymru** ar y darlun cenedlaethol yng Nghymru, gan ddisgrifio natur a maint y broblem, effaith gweinyddu Budd-dâl Tai a'r hyn y mae landlordiaid cymdeithasol yn ei wneud i leihau ôl-ddyledion. Mae **Cau'r Bwlch –**

Gweithio gyda'n gilydd i leihau ôl-ddyledion rhent, yn arweiniad ymarferol i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sy'n dynodi deg maes allweddol i weithredu arnynt, gan gynnwys mwy o bwyslais ar atal, nodau ac amcanion corfforaethol clir, ac ymagwedd gadarn ond teg at adfer ôl-ddyledion sy'n cynnwys gweithredu'n gynnar.

2.2.4 Mae adroddiad Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cynghori (NACAB), **Possession Action – the last resort?** a gyhoeddwyd yn Chwefror 2003, yn nodi mai "un o'r newidiadau pwysicaf yw'r newid pwyslais a ymgorfforir yn Neddf Digartrefedd 2002, sy'n gosod atal yn ganolog i strategaethau digartrefedd ac felly mae iddo oblygiadau uniongyrchol i'r modd y mae landlordiaid yn adfer ôl-ddyledion." Mae'r adroddiad yn nodi argymhellion sy'n canolbwyntio ar yr angen am newid mewn ymagwedd gan rai landlordiaid cymdeithasol tuag at adfer ôl-ddyledion rhent, gan gynnwys llunio datganiad ymarfer ar y cyd ar lefel genedlaethol ar atal ac adfer ôl-ddyledion rhent y dylai pob landlord cymdeithasol ei arddel.

2.2.5 Mae adroddiad Shelter, **Housekeeping: preventing homelessness through tackling rent arrears in social housing** (2003), yn nodi bod yr ymagweddau cyfredol at reoli ôl-ddyledion rhent mewn tai cymdeithasol yn peri digartrefedd ac yn dadlau dros ffyrdd newydd o ymdrin ag ôl-ddyledion i osgoi defnyddio achosion llys. Daw'r adroddiad i'r casgliad mai strwythur a gweinyddiad y system budd-daliadau tai yw prif achosion yr ôl-ddyledion rhent. Mae'r argymhellion yn cynnwys:

- y dylai'r Llywodraeth ariannu gwasanaethau datrys ôl-ddyledion annibynnol;

- y dylai awdurdodau lleol ddynodi digartrefedd oherwydd ôl-ddyledion rhent a achosir gan eu polisïau nhw eu hunain a rhai cymdeithasau tai, a dynodi ffyrdd o'i leihau;
- y dylai landlordiaid cymdeithasol geisio meddiannu trwy'r llysoedd fel y cam olaf un.

2.2.6 Mae *Tackling Homelessness: A good practice guide for local authorities*, (2003) a gyhoeddwyd gan Fwrdeistref Llundain Harrow, Awdurdod Begwn ar ddigartrefedd, yn disgrifio nifer o fentrau ymarferol a 'all helpu awdurdodau lleol i reoli'r galw cynyddol gan bobl ddigartref'. Mae'r llawlyfr yn canolbwyntio ar bedwar prif faes: asesu a gweinyddu digartrefedd; darparu ystod a atebion i ymgeiswyr sy'n ddigartref neu'n cael eu bygwth â digartrefedd; camau effeithiol i atal digartrefedd; a chynyddu'r cyflenwad o dai parhaol a llety dros dro addas.

2.2.7 Mae'r camau/mentrau penodol a ladmerir yn y llawlyfr yn cynnwys:

- edrych ar ffigyrau gwaelodlin awdurdod a gosod targed ar gyfer derbyniadau i'r digartref y fil o aelwydydd;
- archwilio recriwtio, cadw a hyfforddi staff digartrefedd;
- adolygu'r ymagwedd at asesu'r rhai sy'n cyflwyno eu hunain fel rhai digartref oherwydd allgau gan rieni, perthynas neu ffrind i gynnwys ymweliadau cartref, a chanolbwyntio ar gyfryngu a dewisiadau tai eraill;
- ∑ darparu pecyn dewisiadau tai i bobl sy'n dod at yr awdurdod fel rhai digartref neu rai sy'n cael eu bygwth â digartrefedd. (Nodir Model Dewisiadau Harrow yn fanwl. Mae

hyn yn cynnwys **LAWN** (y cynllun i gynorthwyo pobl sy'n dymuno symud allan o Lundain), cymorth gyda rhentu'n breifat, a dewisiadau rhan berchenogaeth);

- mwy o bwyslais ar atal digartrefedd i gynnwys:
 - o cyfryngu teuluol;
 - o gwaith allestyn pendant i atal taflu allan o denantiaethau sector preifat a chyhoeddus;
 - o sefydlu protocol rhybudd cynnar i gyfeirio ymgeiswyr at waith ataliol ar gam y cytunwyd arno yn y broses o adfer ôl-ddyledion;
 - o gwell camau diogelwch ar gyfer achosion sy'n ymwneud â thrais yn y cartref;
 - o ymdrin â phroblemau budd-daliadau tai.

2.2.8 Mae *Homelessness Strategies and Good Practice*, a gynhyrchwyd gan Uned Tai Llundain yn 2003, yn tanlinellu peth o'r ymarfer da a ddatblygwyd gan fwrdeistrefi Llundain i ddiwallu anghenion aelwydydd digartref. Mae'r ddogfen yn ystyried y themâu canlynol:

- atal digartrefedd;
- mynediad at ddewisiadau tai eraill;
- cynyddu'r cyflenwad o lety fforddiadwy/gwneud y defnydd gorau o'r stoc sy'n bodoli;
- cynyddu'r ddarpariaeth o lety dros-dro;
- cefnogi pobl mewn llety dros-dro;
- cefnogi pobl hawdd eu niweidio;

- cydweithredu, cysylltu ac ymgynghori ar draws bwrdeistrefi;
- mentrau newydd.

2.2.9 Yn 2003, cyhoeddodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog gyfarwyddyd i awdurdodau Lloegr yn gosod targedau y mae disgwyl iddynt eu cyrraedd yng nghyswllt digartrefedd. Mae'r rhain yn pwysleisio'r angen i leihau digartrefedd a chysgu allan, a defnydd anaddas o lety dros dro, gan gynnwys gwestai gwely a brecwast. Yn yr Alban datblygodd Tasglu Digartrefedd gynllun deng mlynedd ar gyfer atal digartrefedd ac ymdrin ag o sy'n cynnwys camau cyfreithiol a chymau eraill. Yn haeddu sylw arbennig y mae'r bwriad, dros y cyfnod o ddeng mlynedd, i dynnu'r diffiniadau o angen blaenoriaeth, natur fwriadol y digartrefedd a chyswllt lleol yn gynyddraddol, fel y bydd pob person digartref, erbyn diwedd y cyfnod, yn gymwys i gael cymorth gan awdurdodau lleol yr Alban.

2.3 Graddfa'r digartrefedd a gofnodwyd yng Nghymru

2.3.1 Mae Ystadegau Tai Cymru yn dynodi, yn ystod 2000, bod 12,804 o

aelwydydd wedi adrodd eu bod yn ddigartref wrth awdurdodau lleol Cymru. Gwelwyd y nifer uchaf yn Abertawe (yn cyfateb i 18.2% o'r cyfanswm), Rhondda Cynon Taf (yn cyfateb i 9.2% o'r cyfanswm), Caerdydd (yn cyfateb i 8.5% o'r cyfanswm), a Phen-y-bont ar Ogwr (yn cyfateb i 8.2% o'r cyfanswm). Cododd y cyfanswm i 13,675 yn ystod 2001. Eto, yr un pedwar awdurdod a dderbyniodd y nifer uchaf o gyflwyniadau.

2.3.2 Ond, wrth ystyried graddfa'r digartrefedd mewn gwahanol awdurdodau ledled Cymru, mae efallai'n fwy ystyrion ystyried y nifer o gyflwyniadau y mil o aelwydydd. Gwelir hyn yn Nhabl 1 ar gyfer 2001 gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad fel y ffigwr poblogaeth. Mae hyn yn rhoi darlun ychydig yn wahanol, gydag Abertawe (22.1) a Phen-y-bont ar Ogwr (21.2) â nifer gymharol uchel o gyflwyniadau y fil o aelwydydd, ond lefelau Caerdydd (10.3) a Rhondda Cynon Taf (13.3) yn sylweddol is. Yr awdurdod gyda'r lefel uchaf o gyflwyniadau y 1,000 o aelwydydd yn 2001 (23.5) oedd Torfaen.

Tabl 1: Cyflwyniadau digartref 2001, y 1,000 o aelwydydd, yn ôl awdurdod

Awdurdod	Cyflwyniadau 2001	Aelwydydd 2001	Cyflwyniadau y 1,000 o aelwydydd
Ynys Môn	191	28,356	6.7
Gwynedd	279	49,237	5.7
Conwy	304	48,062	6.3
Dinbych	367	39,891	9.2
Sir y Fflint	595	60,539	9.8
Wrecsam	613	53,226	11.5
Powys	484	53,865	9.0
Ceredigion	260	30,972	8.4
Sir Benfro	610	48,176	12.7
Sir Gaerfyrddin	859	73,112	11.8
Abertawe	2,089	94,400	22.1
Castell-nedd Port Talbot	450	57,609	7.8
Pen-y-bont ar Ogwr	1,132	53,342	21.2
Bro Morgannwg	184	48,753	3.7
Caerdydd	1,275	123,580	10.3
Rhondda Cynon Taf	1,259	94,553	13.3
Merthyr Tudfil	114	23,145	4.9
Caerffili	626	69,341	9.0
Blaenau Gwent	183	29,585	6.2
Torfaen	884	37,576	23.5
Mynwy	207	35,193	5.9
Casnewydd	710	56,535	12.6
Cymru	13,675	1,209,048	11.3

(Ffynhonnell: Ystadegau Tai Cymru 2002 a Chyfrifiad 2001)

2.3.3 Mae Tabl 2 yn edrych ar y prif resymau am golli'r cartref sefydlog diwethaf oedd gan aelwydydd cyn iddynt gofnodi eu bod yn ddigartref i'r aelwydydd hynny a dderbyniwyd fel rhai digartref ac angen blaenoriaeth gan awdurdodau yn

ystod 2001. Yn gyffredinol, mae hyn yn dangos mai tor-perthynas, a theulu neu ffrindiau yn methu cynnig lle iddynt yw'r categorïau mwyaf. Mae rhesymau eraill dros golli llety ar rent neu glwm hefyd yn ffactorau sylweddol.

Tabl 2: Y rhai dderbyniwyd fel digartref 2001, prif resymau dros gollir cartref sefydlog diwethaf, yn ôl awdurdod

Awdurdod	Rhieni ddim yn fodlon i roi llefy mwyach		Perthnasau eraill/ffrindiau ddim yn fodlon rhoi llefy mwyach		Tor-perthynas gyda phartner		Ô-ddyledion Morgais		Ô-ddyledion rhent		Rhesymau eraill dros gollir llefy ar rent glwm		Mewn sefydliad/gofal		Arall		Cyfanswm
	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	
Ynys Môn	12	11	9	8	20	18	6	6	-	-	54	49	3	3	6	6	110
Gwynedd	13	11	6	5	40	33	2	2	2	2	57	46	1	1	2	2	123
Conwy	17	11	6	4	34	22	4	3	-	-	75	49	10	7	7	5	153
Dinbych	15	21	9	13	19	26	1	1	-	-	13	18	9	13	6	8	72
Sir y Fflint	31	13	23	10	51	22	13	6	-	-	76	33	21	9	18	8	233
Wrecsam	8	8	12	13	22	23	12	13	1	1	17	18	15	16	8	8	95
Powys	35	18	10	5	727	38	4	2	3	2	45	23	17	9	6	3	192
Ceredigion	26	21	10	8	38	31	2	2	7	6	17	14	12	10	12	10	124
Sir Benfro	36	19	18	9	55	29	5	3	5	3	50	26	6	26	20	10	195
Sir Gaerfyrddin	61	18	11	3	93	28	23	7	6	2	107	32	11	3	20	6	332
Abertawe	132	19	32	5	242	34	16	2	22	3	147	21	54	8	58	8	703
Neath Port Talbot	9	15	5	8	25	42	-	-	-	-	4	7	15	25	2	3	60

Tabl 2: Y rhai dderbyniwyd fel digartref 2001, prif resymau dros gollir cartref sefydlog diwethaf, yn ôl awdurdod

Awdurdod	Rhieni ddim yn fodlon i roi llety mwyach		Perthnasau eraill/ffrindiau ddim yn fodlon rhoi llety mwyach		Tor-perthynas gyda phartner		Ô-ddyledion Morgais		Ô-ddyledion rhent		Rhesymau eraill dros gollir llety ar rent glwm		Mewn sefydliad/gofal		Arall		Cyfanswm
	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	Nifer	Y cant	
Pen-y-bont ar Ogwr	154	26	37	6	162	28	48	8	26	4	107	18	44	8	8	1	586
Bro Morgannwg	28	22	16	12	31	24	2	2	-	-	33	25	18	14	2	2	130
Caerdydd	157	23	65	10	95	14	24	4	15	2	190	28	37	5	96	14	679
Rhondda Cynon Taf	121	26	74	16	94	20	8	2	10	2	105	22	35	8	20	4	467
Merthyr Tudfil	9	9	3	3	19	19	11	11	3	3	24	24	27	27	6	6	101
Caerffili	56	18	46	15	70	23	16	5	3	1	67	22	24	6	21	7	303
Blaenau Gwent	12	17	9	13	18	25	3	4	2	3	10	14	12	17	6	8	72
Torfaen	70	20	41	12	113	33	11	3	4	1	86	25	14	4	5	1	344
Sir Fynwy	21	33	4	6	21	33	-	-	4	6	7	11	2	3	4	6	63
Casnewydd	4	9	9	20	9	20	3	7	1	2	8	18	3	7	7	16	44
Cymru	1026	20	455	9	1343	26	214	4	114	2	1299	25	390	8	340	7	5181

(Ffynhonnell: Ystadegau Tai Cymru 2002)

2.4 Tueddiadau: gwirioneddol a thybiedig

2.4.1 Mae Tabl 3 yn dangos y nifer o gyflwyniadau digartref a derbyniadau ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yn ystod 2000 a 2001. Dengys:

- bod 14 awdurdod wedi gweld cynnydd mewn cyflwyniadau rhwng 2000 a 2001, yn amrywio rhwng 4% (Ceredigion a Sir Fynwy) a 207% (Sir Gaerfyrddin)
- 16 awdurdod wedi gweld cynnydd mewn derbyniadau, yn amrywio rhwng 5% (Ceredigion) a 113% (Sir Gaerfyrddin)
- derbyniadau yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau yn 2000 a 2001, o 4% o'r cyflwyniadau yng Nghasnewydd i 86% ym Merthyr Tudful yn ystod 2000, ac o 6% yng Nghasnewydd i 89% yn Merthyr Tudful yn ystod 2001

2.4.2 Dengys Tablau 1, 2 a 3 wahaniaethau sylweddol rhwng awdurdodau. Gellir esbonio'r rhain trwy nifer o ffactorau:

- yn gyntaf, gall y gwahaniaethau yn syml adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y ffordd y mae awdurdodau yn asesu ymgeiswyr digartref, gyda rhai awdurdodau yn cymryd agwedd fwy llym nag eraill. Roedd y rhesymau am wahanol arferion a ddynodwyd yn ystod yr adolygiad yn cynnwys y llety sydd ar gael, y flaenoriaeth wleidyddol a roddir i ddigartrefedd, ac a yw staff digartrefedd yn eu gweld eu hunain fel "porthorion" yn rheoli'r mynediad at y stoc tai.
- yn ail, gall awdurdodau fod yn dehongli gofynion y Cynulliad parthed adroddiadau ystadegol yn wahanol, h.y. yn defnyddio

diffiniadau gwahanol. Daeth yr adolygiad o hyd i beth tystiolaeth o hyn yn ystod trafodaethau rhwng staff awdurdodau yn ystod dyddiau'r ymchwiliad a gan Shelter Cymru. Mater penodol a godwyd yw'r un sy'n gysylltiedig â'r diffiniad o beth yw ymholiad digartref;

- yn drydydd, gall y systemau cofnodi fod yn wahanol. Er enghraifft, os gall awdurdod lleol gartrefu ymgeisydd yn uniongyrchol i lety parhaol ar yr ymholiad cyntaf, gall hyn cael ei gofnodi fel cyflwyniad digartref (neu ymholiad), ond nid fel derbyniad digartref.

2.4.3 Mae i'r ystadegau swyddogol a ddarperir gan awdurdodau lleol ac a grynhoir gan y Cynulliad rai cyfyngiadau; dim ond gwybodaeth am ddigartrefedd statudol y maent yn ei roi. Nid ydynt, er enghraifft, yn edrych ar lwyddiant neu aflwyddiant camau a gymerwyd i atal digartrefedd, nac yn gwneud unrhyw ymdrech i fesur digartrefedd cudd. Yn ychwanegol, mae'r ymchwil a wnaed gan Shelter Cymru i gynhyrchu eu cyhoeddiad, **Cyswllt Cyntaf**, yn awgrymu y gall y cyfuniad o wasanaethau derbyn gwael a safon isel y cyngor a roddir gan rai awdurdodau arwain at bobl yn peidio cael cyfle i ddefnyddio'r cymorth y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Os na all pobl, ar y cyswllt cyntaf gyda chorff, gael mynediad at y gwasanaeth digartrefedd, am ba bynnag reswm, ni fyddant yn cael eu cofnodi fel rhai digartref ac ni fyddant yn derbyn y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Yn y rhan fwyaf o achosion, pan alwodd Shelter Cymru'r awdurdodau'n ddirgel, fe wrthodwyd y dyletswydd cyfreithiol sy'n ddyledus iddynt i'r rhai oedd yn galw a/neu fe gynigiwyd dewisiadau cyfyng parthed y cymorth oedd ar gael.

Tabl 3: Cyflwyniadau digartref a derbyniadau yn ôl awdurdod lleol, 2000 a 2001

Awdurdod	Cyflwyniadau 2000	Derbyniadau 2000	Derbyniadau fel canran o'r cyflwyniadau 2000	Cyflwyniadau 2001	Derbyniadau 2001	Derbyniadau fel canran o'r cyflwyniadau 2001
Ynys Môn	181	96	53%	191	110	58%
Gwynedd	280	124	44%	279	123	44%
Conwy	365	177	49%	304	153	50%
Dinbych	336	109	32%	367	72	20%
Sir y Fflint	536	242	45%	595	233	39%
Wrecsam	649	58	9%	613	95	16%
Powys	372	128	34%	484	192	40%
Ceredigion	249	118	47%	260	124	48%
Sir Benfro	579	152	26%	610	195	32%
Sir Gaerfyrddin	281	156	56%	859	332	39%
Abertawe	2,337	619	26%	2,089	703	34%
Castell-nedd Port Talbot	490	29	6%	450	60	13%
Pen-y-bont ar Ogwr	1,045	468	45%	1,132	586	52%
Bro Morgannwg	177	116	66%	184	130	71%
Caerdydd	1,090	356	33%	1,275	679	53%
Rhondda Cynon Taf	1,180	369	31%	1,259	467	37%
Merthyr Tudfil	101	87	86%	114	101	89%
Caerffili	683	249	37%	626	303	48%
Blaenau Gwent	235	37	16%	183	72	39%
Torfaen	719	368	51%	884	344	39%
Sir Fynwy	199	68	34%	207	63	30%
Casnewydd	720	30	4%	710	44	6%
Cymru	12,804	4,156	33%	13,675	5,181	38%

(Ffynhonnell Ystadegau Tai Cymru 2001 a 2002. Nodyn: canrannau wedi eu talgrynnu i'r ffigur cyfan agosaf)

2.4.4 Mae Tabl 4 yn dangos y nifer o gyflwyniadau digartref a'r derbyniadau ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yn ystod chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2002/03 fel y'u rhoddwyd gan yr awdurdodau yn eu hymateb i'r arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad hwn. Os dyblir y ffigyrau hanner blwyddyn hyn i ddynodi gweithgaredd deuddeg mis llawn, byddai hyn y cyfateb i 17,366 o gyflwyniadau a 8,124 o dderbyniadau ledled Cymru. Byddai hyn yn gynydd o

27% oddi ar 2001 ar gyfer cyflwyniadau a 39% o ran derbyniadau. Roedd y cynnydd rhwng 2000 a 2001 yn 7% ar gyfer cyflwyniadau a 25% ar gyfer derbyniadau. Mae'r derbyniadau digartref felly yn cynyddu'n gyflymach na'r cyflwyniadau. Un rheswm am hyn yw cyflwyniad y Gorchymyn Angen Blaenoriaeth ym Mawrth 2001. Gall y rhesymau eraill gynnwys gweithdrefnau a hyfforddiant newydd yn dilyn gweithredu'r gorchymyn Angen Blaenoriaeth..

Tabl 4: Cyflwyniadau digartref a derbyniadau: Mawrth i Fedi 2002 (ffigyrau'r awdurdodau eu hunain a ddarparwyd ar gyfer holiadur yr arolwg)

Awdurdod	Cyflwyniadau Mawrth i Fedi 2002	Derbyniadau Mawrth i Fedi 2002	Derbyniadau fel canran o'r cyflwyniadau
Ynys Môn	112	70	63%
Gwynedd*	292	220	75%
Conwy	295	164	56%
Sir Ddinbych	190	49	26%
Sir y Fflint	300	117	39%
Wrecsam	433	74	17%
Powys	244	129	53%
Ceredigion	136	80	59%
Sir Benfro	313	147	47%
Sir Gaerfyrddin	595	302	51%
Abertawe	1095	652	56%
Castell-nedd Port Talbot	323	233	72%
Pen-y-bont ar Ogwr	579	485	84%
Bro Morgannwg	284	123	43%
Caerdydd	932	409	44%
Rhondda Cynon Taf	628	250	40%
Merthyr Tudfil	Heb eu darparu	Heb eu darparu	N/A
Caerffili	410	219	53%
Blaenau Gwent	Heb eu darparu	Heb eu darparu	N/A
Torfaen	614	227	37%
Sir Fynwy	119	45	38%
Casnewydd	789	67	9%
Cyfanswm	8683	4062	47%

(Ffynhonnell ymateb i holiadur yr awdurdodau lleol)

* Nododd Gwynedd bod y ffigwr yn dibynnu ar ddiffiniadau

2.4.5 Gellir cymharu'r ffigyrau hyn â'r rhai yn Nhabl 5 sy'n dangos data darpariaethol o adroddiadau a wnaed gan awdurdodau lleol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y chwarteri yn gorffen Mehefin 2002 a Medi 2002. Er bod y data yn Nhabl 5 yn ddarpariaethol, mae'n

amlyg bod gwahaniaethau sylweddol rhwng y data a roddodd yr awdurdodau lleol i'r tîm adolygu a'r hyn a roddwyd i'r Cynulliad. Un o'r meysydd lle mae'r problemau parthed diffiniadau yn ymddangos ar eu gwaethaf yw beth sy'n cyfateb i ymholiad am ddigartrefedd.

Tabl 5: Ymholiadau digartrefedd a derbyniadau: Mawrth i Fedi 2002 (adroddiadau dros-dro i Lywodraeth Cynulliad Cymru)

Awdurdod	Ymholiadau Mawrth i Fedi 2002	Derbyniadau Mawrth i Fedi 2002
Ynys Môn	112	70
Gwynedd	857	130
Conwy	274	117
Sir Ddinbych*	98	29
Sir y Fflint	302	117
Wrecsam	419	99
Powys	216	118
Ceredigion	136	80
Sir Benfro	353	147
Sir Gaerfyrddin*	284	86
Abertawe	1098	381
Castell-nedd Port Talbot	323	71
Pen-y-bont ar Ogwr	-	-
Bro Morgannwg	490	107
Caerdydd	1739	462
Rhondda Cynon Taf	630	252
Merthyr Tudfil	70	50
Caerffili	410	229
Blaenau Gwent	99	38
Torfaen	614	231
Sir Fynwy	119	45
Casnewydd	576	55
Cyfanswm	9219	3153

(Ffynhonnell: adroddiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru – data darpariaethol/heb ei gyhoeddi)

* Data Ebrill-Mehefin yn unig ar gyfer Sir Ddinbych a Sir Gaerfyrddin

2.4.6 Roedd arolwg yr awdurdod lleol yn gofyn cwestiwn am dueddiadau yn y math o aelwydydd oedd yn cyflwyno eu hunain fel rhai digartref/yn cael eu cyfeirio at yr awdurdod fel rhai digartref dros y ddwy

flynedd diwethaf. Crynhoir ymateb yr awdurdodau isod. Cyflwyniadau gan bobl ifanc a chyn-droseddwyr yw'r ddau brif faes lle gwelwyd cynnydd.

Tabl 6: Tueddiadau yn y math o gyflwyniadau

Cynnydd yn y cyflwyniadau yn ôl categori	Nifer o awdurdodau'n nodi'r ymateb hwn
Pobl ifanc, dan 18 yn arbennig	16
Cyn-droseddwyr	13
Pobl sengl	9
Grwpiau blaenoriaeth newydd yn gyffredinol	5
Problemau iechyd meddwl	3
Trais domestig	3
Pobl gydag anghenion gofal	3
Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol	2
Rhai'n gadael gofal	2
Cyn geiswyr lloches	2
Colli tenantiaeth fyrlys	1
Allgau o denantiaeth tai cymdeithasol	1
Cysgu allan neu lety hawdd ei golli	1
Tor-perthynas	1
Troseddwyr Atodlen Un	1

(Ffynhonnell: ymateb i holiadur awdurdod lleol)

2.4.7 Nododd cyrff cenedlaethol a lleol bod ymestyn y grwpiau angen blaenoriaeth wedi rhoi gofynion ychwanegol ar y gwasanaethau i'r digartref a roddir gan awdurdodau lleol. Mae'r tueddiadau a nodwyd gan gyrrff lleol a chenedlaethol yn cynnwys cynnydd cyffredinol yn y nifer o ymholiadau a dderbynnir gan y digartref, a dadogir i'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth am y Ddeddf Digartrefedd newydd. Yn fwy penodol nodwyd cynnydd yn y nifer o bobl ifanc, camddefnyddwyr sylweddau, ffoaduriaid a chyn-garcharorion sy'n cyflwyno eu hunain fel rhai digartref.

2.4.8 Rhaid i'r cynnydd hwn yn y nifer o ymholiadau digartref a dderbyniwyd gan awdurdodau lleol gael ei gymharu â'r lleihad yn y stoc tai cymdeithasol. Dengys Ystadegau Tai Cymru bod nifer yr eiddo awdurdod lleol wedi gostwng o 21,000 (dros 10%) rhwng 1997 a 2002, o 204,000 i 183,000. Dros yr un cyfnod, cynyddodd nifer yr eiddo sydd ym meddiant LCC o ddim ond 9,000, o 48,000 i 57,000. Rhwng 2001 a 2002, collwyd 3,000 eiddo yn fwy trwy'r Hawl i Brynu na'r cynnydd yn y niferoedd o eiddo oedd ym meddiant LCC.

2.4.9 Nododd nifer fechan o awdurdodau unigol duedd lle'r oedd nifer gynyddol o gyflwyniadau yn cael eu gwneud gan bobl mewn argyfwng. Mae'n bosibl bod cyswllt rhwng y datblygiad hwn ag unigolion ac asiantaethau yn dod yn fwy ymwybodol o'r mynediad ehangach i wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau.

2.4.10 Dengys Tabl 7 yr amser a gymerwyd i wneud penderfyniadau ar ddigartrefedd gan awdurdodau lleol yn 2000/01 a 2001/02. Mewn 14 awdurdod, gwelwyd lleihad yn y gyfran o geisiadau digartrefedd y gwnaeth yr awdurdod benderfyniad arnynt a hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o fewn 33 diwrnod gwaith, yn sylweddol mewn rhai achosion, e.e. o 14% yng Nghonwy a Sir Benfro.

Tabl 7: Amser gymerwyd i wneud penderfyniadau digartrefedd

Cyfran o geisiadau digartrefedd y gwnaeth yr awdurdod benderfyniad arnynt a rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r ymgeisydd o fewn 33 o ddyddiau gwaith		
Awdurdod	2000-01	2001-02
Ynys Môn	N/A	100
Gwynedd	99	94
Conwy	82	76
Dinbych	91	87
Sir y Fflint	100	89
Wrecsam	98	100
Powys	92	89
Ceredigion	100	98
Sir Benfro	91	85
Sir Gaerfyrddin	100	91
Abertawe	93	84
Castell-nedd Port Talbot	99	98
Pen-y-bont ar Ogwr	99	100
Bro Morgannwg	94	91
Caerdydd	46	59
Rhondda Cynon Taf	97	98
Merthyr Tudfil	100	100
Caerffili	91	87
Blaenau Gwent	100	96
Torfaen	99	94
Sir Fynwy	100	100
Casnewydd	72	90

(Ffynhonnell: Dangosyddion perfformiad y Comisiwn Archwilio)

2.5 Crynodeb o'r bennod

2.5.1 Mae'r bennod hon yn adolygu'r cyd-destun polisi y mae gwasanaethau digartrefedd yn gweithredu o'i fewn ac yn amlinellu tueddiadau mewn digartrefedd. Mae'r adolygiad polisi hwn yn eistedd yng nghyd-destun nifer o adroddiadau gan y Cynulliad a dogfennau cyfarwyddyd. Yn ychwanegol, mae nifer o adroddiadau yn cynnig ymarfer da a chyfarwyddyd i ddarparwyr gwasanaeth. Mae'r rhain yn dangos bod y pwyslais ar ddatblygu strategaethau a gwasanaethau sy'n atal digartrefedd, yn ymdrin â'i achosion strwythurol, ac yn cynnig ymateb sy'n adlewyrchu barn pobl ddigartref.

2.5.2 Mae'r dadansoddiad ystadegol yn dangos lefelau cynyddol o ddigartrefedd, yn arbennig yn y categorïau angen sy'n cael blaenoriaeth newydd, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol. Mae'r dadansoddiad ystadegol yn codi cwestiynau am y peirianwaith cofnodi a'r diffiniadau, o ystyried graddfa'r gwahaniaeth yn y nifer o achosion rhwng awdurdodau.

2.5.3 Yn y bennod nesaf rydym yn gosod casgliadau'r adolygiad yng nghyswllt elfennau amrywiol gwasanaethau digartrefedd.

Pennod Tri

Canfyddiadau

3.1 Canfyddiadau cyffredinol

3.1.1 Mae'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd wedi cael eu croesawu gan yr holl gyrff. Mae'r adolygiad hwn yn dynodi bod meysydd sylweddol o ymarfer da a bod prosiectau blaengar ac effeithiol yn eu lle i atal digartrefedd ac ymdrin ag ef, ond nad ydynt ar gael yn unffurf i bobl ddigartref ledled Cymru.

3.1.2 Mae hefyd yn amlygu cymhlethdod dod o hyd i atebion i ddigartrefedd a'r angen am ymagweddau rhesymegol sy'n gosod polisiau digartrefedd mewn cyd-destun strategol ehangach. Mae'n amlwg bod digartrefedd yn broblem sy'n galw am ymateb aml-asiantaethol, ar lefel genedlaethol a lleol.

3.1.3 Yn y crynodeb cychwynnol hwn o'r canfyddiadau, ac ym mhob un o'r adrannau sy'n dilyn, rydym yn cynnwys sylwadau awdurdodau lleol a chyrff eraill. Tynnwyd safbwynt yr awdurdodau lleol o'r ymateb i'r arolwg a'r dyddiau ymholi. Mae'n adlewyrchu barn swyddogion digartrefedd yn y maes a staff polisi.

Awdurdodau lleol

3.1.4 Mae staff digartrefedd dan bwysau, gyda'r achosion yn cynyddu o ran nifer a chymhlethdod, ac amser cynyddol yn cael ei dreulio ar gael llety dros-dro a pharhaol. Mae hyn, i raddau, oherwydd y nifer gynyddol o bobl sy'n cyflwyno fel rhai digartref, ond mae hefyd oherwydd anghenion penodol a hanes nifer o ymgeiswyr digartref sy'n golygu bod dod o

hyd i atebion addas ac effeithiol parhaol i broblemau tai yn cymryd llawer o amser.

3.1.5 Roedd staff awdurdodau lleol yn ystyried bod diffyg llety addas dros-dro a pharhaol i ddiwallu anghenion aelwydydd digartref, yn eu stoc eu hunain ac mewn sectorau eraill. Pwnc llosg i rai awdurdodau yw bod yr Hawl i Brynu yn parhau i dynnu'r stoc awdurdod lleol gorau allan o'r sector ar rent cymdeithasol. Yn ychwanegol, roedd nifer o awdurdodau lleol yn nodi anawsterau wrth geisio cael cydweithrediad gan y sector preifat a LCC wrth ailgartrefu pobl oedd wedi cael eu derbyn fel rhai digartref.

3.1.6 Mynegodd staff awdurdodau lleol bryder am y ffordd y cyflwynwyd y ddeddfwriaeth yn ymestyn y grwpiau anghenion sy'n cael blaenoriaeth, yn arbennig y diffyg amser i baratoi'n ddigonol ar gyfer y cynnydd disgwylidig yn y nifer o bobl a dderbynnir fel rhai digartref. Gwelwyd y diffyg cyllideb benodol i gyd-fynd â'r fenter polisi bwysig hon hefyd, problem oedd yn lleihau effaith bositif bosibl y ddeddfwriaeth.

3.1.7 Nododd nifer o staff digartrefedd ddiffyg perchenogaeth gorfforaethol ar ddigartrefedd fel rhwystr oedd yn atal gweithredu a gweithio effeithiol. Eu hamgyffrediad hwy oedd bod digartrefedd yn cael ei weld fel problem tai y dylai tai felly ei hateb, a bod ymestyn y grwpiau sy'n cael blaenoriaeth wedi cynnig, nid yn unig rwyd-ddiogelwch i unigolion, ond hefyd rwyd-ddiogelwch i gyrff sy'n disgwyl i dimau digartrefedd gymryd yr achosion o'u dwylo.

3.1.8 Pwysleisiwyd natur wleidyddol iawn digartrefedd gan swyddogion awdurdodau lleol. Tra bod rhai cynghorwyr yn rhagweithiol yn eu cefnogaeth i'r rhai sy'n cael eu hallgau waethaf, mae enghreifftiau lle nad yw pobl ddigartref yn boblogaidd gan gymunedau, y cyfryngau neu aelodau etholedig. Nododd swyddogion y gall lefel a natur yr ymyrraeth gan aelodau etholedig fod yn anaddas ar adegau. Yr enghreifftiau penodol a roddwyd oedd anawsterau i gael caniatâd cynllunio ar gyfer prosiectau arbenigol i bobl gydag anghenion gofal pan oedd cyfleusterau o'r fath wedi cael cytundeb arnynt fel blaenoriaeth strategol, ac ymwneud aelodau â'r broses osod.

3.1.9 Hefyd mae'r potensial i gael gwrthdaro rhwng agendâu cenedlaethol ar ddigartrefedd â'r rhai ar faterion ehangach fel diogelwch cymunedol ac adfywio cymunedol. Heb syniad clir o bwysigrwydd cymharol agendâu cenedlaethol a dulliau mesur perfformiad addas, roedd swyddogion yr awdurdod yn ystyried y gall fod yn anorfod nad yw digartrefedd yn cael y flaenoriaeth a fwriadwyd.

3.1.10 Ond, fel y nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLG), bydd y Dadansoddiad Awdurdod Cyfan sy'n cael ei gwblhau gan awdurdodau lleol dan y Rhaglen er Gwella Cymru yn edrych ar feysydd gwan o ran perfformiad a materion rheoli corfforaethol o fewn awdurdodau ac yn dynodi meysydd y dylid dangos gwelliant ynddynt.

3.1.11 Gall yr argymhellion ar gyfer fframwaith cynllunio strategol a phartneriaeth ddiwygiedig ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, sy'n codi o drafodaethau'r Cyngor Partneriaeth, os cânt eu sefydlu, weld digartrefedd yn cael ei osod yn fwy cadarn yn yr agenda iechyd a lles cymdeithasol. Gall hyn gael yr effaith

o roi 'lle' corfforaethol cliriach i dai a digartrefedd (tu hwnt i swyddogaeth landlord) a sicrhau bod yr uwch lunwyr polisïau yn deall yr oblygiadau a'r cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi.

3.1.12 Mae sefydlu portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol o fewn y Cabinet yn y Cynulliad yn rhoi cyfle i'r Cynulliad bwysleisio ymhellach wrth lywodraeth leol natur gorfforaethol yr agenda digartrefedd ac i wella tensiynau posibl a chanfyddedig rhwng gwahanol feysydd polisi trwy gyfarwyddyd yn ôl y gofyn, e.e. rhwng cynhwysedd a diogelwch cymunedol. Mae datblygu a mireinio pellach ar Gytundebau Polisi rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol hefyd yn cynnig cyfle i adeiladu digartrefedd i mewn i agenda gorfforaethol llywodraeth leol

Cyrff eraill

3.1.13 Yn gyffredinol mae'r cyrff yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r adolygiad yn gweld y ddeddfwriaeth newydd fel cam ymlaen a fydd yn berthnasol iawn i grwpiau penodol, fel cyn-garcharorion. Maent yn croesawu'r cynnydd mewn cyngor a chymorth y mae pawb sy'n ddigartref yn gymwys i'w dderbyn. Ond, yn hanesyddol, roedd pryderon bod y ffordd yr oedd y ddeddfwriaeth wedi ei chyflwyno yn golygu nad oedd awdurdodau lleol yn barod i'w gweithredu. Y pryder yn awr yw bod awdurdodau yn dehongli'r ddeddfwriaeth yn wahanol iawn. Mae hyn yn codi mater yr angen am gefnogaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas.

3.1.14 Mae angen cyfarwyddyd clir, cadarn; pwynt a godwyd gan gyrff cenedlaethol yn eu hymateb i'r drafft ymgynghorol ar y Côt Cyfarwyddyd.

3.1.15 Mae'n amlwg oddi wrth yr ymatebion bod cyrff lleol yn profi gwahaniaethau mawr mewn elfennau gwahanol o'r gwasanaeth digartrefedd, nid yn unig rhwng awdurdodau lleol, ond hefyd rhwng swyddfeydd ardal o fewn yr un awdurdod lleol pan fydd y gwasanaeth wedi ei ddatganoli, neu rhwng swyddogion unigol. Yn gyffredinol, darlun tameidiog ddaeth i'r golwg trwy'r arolwg, gyda pheth ymarfer da iawn yn cael ei nodi. Mae hyn yn cyferbynnu ag adroddiadau o beth ymarfer gwael ac anawsterau i gleientiaid unigol neu grwpiau o bobl ddigartref/all fod yn ddigartref. Ni nodwyd bod unrhyw awdurdod unigol yn 'cael pob elfen yn iawn' nac yn 'methu ar bob elfen'.

3.1.16 Yn gyffredinol roedd staff digartrefedd yn cael eu gweld fel pobl barod i helpu a chydymdeimlo a llawer ohonynt yn arbennig o sensitif i amgylchiadau unigolion. Yn aml nodid bod y berthynas rhwng y cyrff sector gwirfoddol ag aelodau unigol o dimau digartrefedd yn rhai cynhyrchiol a phositif.

3.1.17 Mae'r cyfathrebu rhwng awdurdodau a chyrff y sector statudol a gwirfoddol yn amrywiol. Mae rhai cyrff yn ymwybodol o'r newidiadau deddfwriaethol a'r newidiadau mewn gweithdrefnau a wnaed gan awdurdodau unigol, a rhai eraill heb fod felly.

3.1.18 Nododd nifer o gyrff bod gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol yn gwella, gyda nifer o ysgogwyr posibl i hyn, gan gynnwys datblygiadau Cefnogi Pobl, datblygu strategaethau digartrefedd lleol, a mwy o gydweithio i ddiwallu anghenion pobl sy'n disgyn o fewn y grwpiau angen sy'n cael blaenoriaeth ychwanegol a gyflwynwyd ym Mawrth 2001.

3.1.19 Ystyrid bod lefel ymroddiad awdurdodau yn elfen sy'n gwneud

gwahaniaeth allweddol i'r hyn y mae awdurdod unigol yn ei wneud mewn gwirionedd i frwydro yn erbyn digartrefedd ac i bwy y mae'n barod i roi llety dros-dro a pharhaol.

3.1.20 Codwyd y cwestiwn o sut i annog awdurdodau i gadw at y gyfraith yn gyson, a dilyn cyfarwyddyd y Cynulliad, a thrwy hynny wella eu gwasanaethau, fel mater allweddol ar gyfer y dyfodol.

3.1.21 Yn yr adrannau nesaf, rydym yn archwilio gweithrediad y ddeddfwriaeth digartrefedd, gan edrych ar y camau amrywiol mewn digartrefedd.

3.2 Gwybodaeth, cyngor ac atal

3.2.1 Mae ar y cyhoedd angen derbyn gwybodaeth o ansawdd a bod yn ymwybodol o'u hawl i dderbyn gwasanaethau digartrefedd. Yn ôl tystiolaeth yr adolygiad mae'r ddarpariaeth yn dameidiog gyda dim ond rhai awdurdodau yn cynnig gwybodaeth o ansawdd uchel. Mae nifer o awdurdodau yn y broses o adolygu natur ac ansawdd y deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gydnabod nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol.

3.2.2 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yn awr ddarparu lefel uwch o gyngor a chymorth i bersonau nad oes dyletswydd i sicrhau tai iddynt (Adran 190 a 192 o Ddeddf Tai 1996 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Digartrefedd 2002). Felly dylai awdurdodau lleol fod yn datblygu gwell gwasanaethau ataliol ac yn cynnig cyngor tai cynhwysfawr wedi ei deilwrio, naill ai'n uniongyrchol neu trwy asiantaethau cynghori.

3.2.3 Mae atal colli llety a/neu roi cefnogaeth a fydd yn galluogi person i gadw'r llety yn rhan ganolog o'r gwasanaethau ataliol. Mae'r adolygiad

hwn yn tanlinellu problemau penodol parthed colli llety oherwydd ôl-ddyledion rhent. Mae adroddiadau'r NACAB a'r Comisiwn Archwilio, a grybwyllwyd uchod, yn rhoi nifer o enghreifftiau o ymarfer da y dylai awdurdodau a LCC eu dilyn.

Awdurdodau lleol

3.2.4 Gofynnwyd i awdurdodau lleol sut yr oeddynt yn gadael i'r cyhoedd wybod am eu hawl i gael gwasanaethau digartref a natur yr wybodaeth a roddid. Darperir yr wybodaeth a'r cyngor trwy gymysgedd o gyswllt wyneb yn wyneb e.e. gyda swyddogion awdurdod lleol a thimau allestyn, taflenni gwybodaeth ysgrifenedig, dros y rhyngwyd, trwy fforymau ac asiantaethau cynghori eraill. Mae'r lleoliadau lle mae'r wybodaeth ar gael yn cynnwys canolfannau cymunedol fel llyfrgelloedd, meddygfeydd ac ysbytai. Mae rhai awdurdodau'n darparu canllawiau penodol i wasanaethau digartrefedd sydd ar gael i'r cyhoedd ac asiantaethau, tra bod eraill yn cydnabod nad oedd y rhain ar gael, neu eu bod yn y broses o gael eu rhoi gyda'i gilydd fel rhan o ddatblygiadau strategaeth digartrefedd.

3.2.5 Mae Shelter Cymru yn gweithredu gwasanaethau cynghori mewn 21 allan o'r 22 awdurdod. Tra bod cyllid gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn cael ei ddarparu i 19 o'r rhain a bod y Cynulliad yn ariannu 14, un yn gyflawn, mae naw awdurdod yn rhoi cyfraniad ariannol tuag at gost darparu'r gwasanaethau hyn.

3.2.6 Un modd o fesur ansawdd gwasanaethau cynghori awdurdodau yw a

fyddant wedi cyrraedd Nod Ansawdd y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS). Ymatebodd 20 o'r 22 awdurdod i'r cwestiwn hwn. Mae tri (Powys, Abertawe ac Ynys Môn) wedi cyrraedd y lefel ragarweiniol neu help cyffredinol. Dim ond gwasanaethau cyrff gwirfoddol gyda nod ansawdd y CLS wnaiff y Cynulliad eu hariannu.

3.2.7 Nododd rhai awdurdodau bod pob tenant sy'n cael ei daflu allan yn cael gwybodaeth ble i chwilio am gyngor.

Cyrff eraill

3.2.8 Adroddodd cyrff lleol bod darpariaeth amrywiol iawn o wybodaeth ysgrifenedig ar yr hyn y dylai rhywun digartref ei wneud. Mewn rhai ardaloedd, nid yw'r cyrff lleol yn ymwybodol o unrhyw ddeunydd ysgrifenedig ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth o gwbl.

3.2.9 Disgrifiwyd ansawdd y cyngor tai a ddarperir gan awdurdodau lleol gan gorff sy'n gweithredu dros fwy nag un ardal fel 'rhyfeddol o amrywiol'. Roedd cytundeb eang bod ar awdurdodau angen cyfarwyddyd mwy manwl ar ddarparu a chyflwyno cyngor fel dull o ymyrryd yn gynnar i atal digartrefedd. Er bod agweddau wedi gwella, gall y staff fod yn fwy cynhwysol tuag at ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig, gellir ymdrin â hyn trwy hyfforddiant.

3.2.10 Nodwyd bod cyfyngiadau ar gymhwyster i gael budd-dâl tai yn agwedd oedd yn creu problemau mawr i bobl oedd yn cael eu dedfrydu i'r ddalfa, gyda cholli budd-dâl tai yn arwain at golli cartref.

Enghreifftiau o ymarfer da

Cyngor i bobl ifanc

Cyfeiriodd nifer o awdurdodau lleol a'u partneriaid at ddefnyddio deunyddiau addysg Shelter Cymru mewn ysgolion – 'Housemate' a 'The Key to the Door'.

Mae gan **Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont Ar Ogwr** raglen cyngori ysgolion sy'n cynnwys fideos, dramâu a gweithdai ar drais yn y cartref ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Mae deunyddiau cyhoeddusurwydd Pen-y-bont ar gyfer y gwasanaeth digartrefedd hefyd yn cynnwys fideos.

Mae **Cyngor Conwy**, gan weithio mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Tai Clwyd a Sylfaen, yn cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion fel rhan o'r cwricwlwm cymdeithasol.

Yng **Nghaerdydd**, mae'r Prosiect Dewisiadau Tai, mewn partneriaeth gyda Llamau Ltd, yn cynnig man cyswllt i rai 16-21 oed y mae arnynt angen tai yn y ddinas. Mae'r cyngor yn cynnwys tai, digartrefedd, budd-daliadau, gyrfaoedd a gwasanaeth cyfryngu.

Mae gan **Abertawe** siop un stop. Mae'r gwasanaeth Dewisiadau Tai yno wedi ei achredu gan y CLS yn ddiweddar. Mae gan Dewisiadau Tai dîm cyngori ariannol arbenigol hefyd sy'n rhoi cyngor i gleientiaid sydd mewn perygl o fod yn ddigartref oherwydd anhawster ariannol. Cyfeirir pobl ifanc at brosiect BAYS lle byddant yn cael eu hasesu gan weithiwr cymdeithasol a swyddog tai.

Cyngor i gyn-droseddwr

Ym **Mhen-y-bont ar Ogwr**, mae'r gwasanaeth prawf yn cyllido corff gwirfoddol, Caer Las, i roi gwasanaeth cyngori yn benodol i gyn-droseddwr.

Cyngor yn gyffredinol

Soniai cyrff lleol yn bositif am daflenni a chanllawiau Cyngor Sir Fynwy i gleientiaid, sydd wedi eu hysgrifennu'n dda, a chyfeiriadur adnoddau effeithiol i staff awdurdod lleol a staff arall. Yn yr un modd nodwyd gwasanaeth cyngori o ansawdd gydag adnoddau da wedi ei gefnogi trwy fuddsoddiad penodol yn Rhondda Cynon Taf.

(Ffynhonnell: holiadur awdurdodau lleol ac ymateb cyrff lleol)

3.3 Cyflwyniad

Awdurdodau lleol

3.3.1 3.3.1 Mae gan y mwyafrif o awdurdodau lleol Cymru dîm asesu digartrefedd ar wahân. Y dewis arall yw

cynnwys digartrefedd fel rhan o swyddogaeth swyddog tai generig. Gall y dewis hwn greu anawsterau, fel cael gafael mewn swyddogion mewn sefyllfaoedd o argyfwng pan fydd ganddynt 'libart' i'w reoli.

Cyrff eraill

3.3.2 Teimlai nifer o gyrff lleol bod angen mynd gyda phobl, i'r cyfweiliad cyntaf gyda'r swyddog personau digartref o leiaf, fel eu bod yn medru cynnig adfocatiaeth.

3.3.3 Cyfeiriwyd at rai problemau wrth gael gafael mewn gwasanaethau digartref tu allan i oriau swyddfa gan gyrff yn gweithio mewn ardaloedd gwledig, fel y dangosir isod.

Enghraifft o'r anawsterau a brofwyd: astudiaeth achos

Person ifanc

Cyflwynodd person 17 oed ei hun fel rhywun digartref. Rhoddwyd ffurflen gais i'r digartref iddo ei llenwi gan dderbynnwyd a dywedwyd wrtho am ei dychwelyd wedi gwneud hynny. Mae gan y person dan sylw broblemau llythrennedd. Cysylltodd y person â chorff gwirfoddol yn lleol a hysbyswyd gan y swyddfa ardal na fyddai Swyddog Tai ar gael am ddau ddiwrnod i gynnal cyfweiliad. Ni chynigiwyd cludiant i swyddfa arall lle byddai Swyddog Tai ar gael.

(Ffynhonnell: cyfweiliad teleffon cyrff lleol)

3.4 Cyfeirio

Awdurdodau lleol

3.4.1 Cyfeiriodd awdurdodau lleol at broblemau arbennig gyda chyfeirio amhriodol a diffyg gwybodaeth gan Dimau Troseddwyr Ifanc (YOT) a Thimau Prawf, gwasanaethau cymdeithasol a, yng nghyswllt rhyddhau o'r ysbyty, y gwasanaeth iechyd.

'Nid oes gan y gwasanaethau Prawf a Charchar syniad am y ddeddfwriaeth digartrefedd' (LCC)

3.4.2 Mater penodol yng nghyswllt troseddwyr ifanc yw ble mae'r ffiniau rhwng gwaith y timau YOT a'r gwasanaethau cymdeithasol a pha gorff fydd yn talu am beth. Gwelir diffyg dealltwriaeth am rôl a chyfrifoldebau perthnasol, o leiaf yn rhannol, fel problem hyfforddiant a rhannu gwybodaeth, ond roedd cydnabyddiaeth hefyd bod darparu hyfforddiant ar y cyd yn medru bod yn anodd pan fydd pawb yn brin iawn o amser.

Cyrff eraill

3.4.3 Mae'n amlwg o'r ymateb gan gyrff eraill bod cyswllt da yn nodwedd hanfodol wrth ddarparu gwasanaeth digartref effeithiol. Mae nifer o wahanol drefniadau cyswllt/cyfeirio yn eu lle gan awdurdodau lleol, yn ddibynnol i raddau helaeth ar y math o gorff dan sylw. Mae timau gwasanaeth cymdeithasol awdurdodau lleol yn dibynnu ar brotocolau mewnol. Mae nifer o asiantaethau gwirfoddol yn cynnal cyfarfodydd ffurfiol cyson gydag awdurdodau lleol, neu yn eu cyfarfod fel rhan o fforwm digartrefedd lleol, tra bod eraill yn dibynnu ar drefniadau anffurfiol.

3.4.4 Yr elfen hanfodol mewn cyswllt yw ansawdd y berthynas waith gyda swyddogion unigol a lefel y ddealltwriaeth sy'n bodoli rhwng awdurdodau ac asiantaethau.

Enghreifftiau o ymarfer da

Yng **Nghaerffili**, mae swyddog llety'r Tîm Troseddwy'r Ifanc yn mynychu'r fforwm digartref ac mae, yn y gorffennol, wedi rhoi cyflwyniad ar dagio electronig troseddwy'r a'i oblygiadau.

Mae gan **Rhondda Cynon Taf** brotocol gydag Adref ar gyfer cyfeirio rhai sy'n gadael y carchar at y gwasanaeth; mae swyddogion digartrefedd yn ymweld â charcharorion cyn eu rhyddhau mewn ymdrech i ddod o hyd i lety addas.

(Ffynhonnell: ymateb i holiadur awdurdod lleol)

3.5 Asesiad cychwynnol

3.5.1 Yn yr asesiad cychwynnol, rhaid i awdurdod benderfynu a yw ymgeisydd yn ddigartref, neu fod bygythiad o ddigartrefedd ac yn gymwys i gael

cymorth. Os yw hyn yn wir, mae gan yr awdurdod ddyletswyddau dan Ran 7 Deddf 1996. Mae'r dyletswydd yn amrywio gan ddibynnu ar y categori y mae'r ymgeisydd yn disgyn iddo, fel y nodir yn Nhabl 8.

Tabl 8: Dyletswyddau digartrefedd awdurdodau lleol

Adran o Ddeddf 1996	Categori	Gofyn
a.193	Digartref anfwriadol ac angen blaenoriaeth	Dyletswydd i sicrhau llety
a.192	Digartref anfwriadol heb angen blaenoriaeth	Dyletswydd i asesu angen a darparu cyngor a chymorth
a.195(2)	Bygythiad o ddigartrefedd anfwriadol gydag angen blaenoriaeth	Dyletswydd i gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw'r llety'n peidio bod ar gael
a.195(2)	Bygythiad o ddigartrefedd anfwriadol heb angen blaenoriaeth	Dyletswydd i asesu anghenion a darparu cyngor a chymorth
a.190(2)	Digartref yn fwriadol gydag angen sy'n cael blaenoriaeth	Dyletswydd i sicrhau llety am gyfnod i alluogi'r ymgeisydd i sicrhau llety ei hunan a darparu cyngor a chymorth i gael llety
a.190(3)	Bwriadol ddigartref heb angen blaenoriaeth	Dyletswydd i asesu anghenion a darparu cyngor a chymorth
a.195(5)	Bygythiad o ddigartrefedd bwriadol gydag angen blaenoriaeth	Dyletswydd i asesu anghenion a darparu cyngor a chymorth
a.195(5)	Bygythiad o ddigartrefedd bwriadol heb angen blaenoriaeth	Dyletswydd i asesu anghenion a darparu cyngor a chymorth
a.179	Ddim yn gymwys am gymorth, ddim yn ddigartref a dim bygythiad o ddigartrefedd	Dim dyletswydd, ond rhaid i gyngor tai fod ar gael

(Ffynhonnell: Côd Cyfarwyddyd)

Awdurdodau lleol

3.5.2 Mae'n ymddangos mai'r arfer cyffredin yng nghyswllt asesu yw bod awdurdodau lleol yn gwneud asesiad sylfaenol ar anghenion tai a chefnogi tymor hir pan gyflwynir person digartref gyntaf. Os na wneir asesiad llawn ar yr adeg hon, mae asesiad manylach yn dilyn unwaith y bydd yr holl wybodaeth a thystiolaeth gefnogol wedi cael eu casglu.

Crybwyllwyd gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau a gwasanaethau eraill gan nifer o awdurdodau (ynghyd â defnyddio arian Cefnogi Pobl ar gyfer cynlluniau cefnogi tenantiaeth).

3.5.3 Gofynnwyd i awdurdodau lleol pa dystiolaeth y mae arnynt ei hangen gan ymgeiswyr i brofi nad ydynt yn medru byw mewn llety mwyach. Mae'r holl awdurdodau lleol yn gofyn am dystiolaeth ddogfennol o rybuddion cyfreithiol, e.e. Gorchymyn Meddiannu neu Rybudd i Adael, Prawf o Werthiant, Gwŷs Llys, ac ati.

3.5.4 Pan na fydd rhybudd cyfreithiol ar gael, e.e. ffrindiau neu deulu yn methu cynnig llety mwyach, gadael y carchar neu'r lluoedd arfog, gwneir ymholiadau i gadarnhau a phrofi'r wybodaeth a roddwyd a disgwylir cadarnhad ysgrifenedig fel arfer. Nododd un awdurdod y bydd cyswllt gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei greu, os bydd hynny'n addas, a gyda chydysniad yr ymgeisydd. Nododd un awdurdod fod ganddynt Swyddog Cyfryngu i gynorthwyo gyda rhai 16-21 oed, ac y bydd gweithwyr achos digartrefedd yn ymweld â chartrefi mewn ymgais i atal digartrefedd a thrafod y dewisiadau eraill. Tra bod gwahaniaethau rhwng ymagweddau awdurdodau lleol, yn arbennig o ran ymweliadau cartref, roedd yr ymateb yn dangos bod ymchwiliadau yn cael eu cynnal i asesu amgylchiadau unigol.

3.5.5 Gofynnwyd i awdurdodau lleol hefyd pa dystiolaeth y mae arnynt ei hangen i gadarnhau pa mor hawdd eu niweidio yw pobl oherwydd henaint, afiechyd/cyflwr meddyliol ac anabledd corfforol. Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn defnyddio rhyw ffurf ar dystiolaeth ddogfennol, fel tystysgrif geni neu lyfr pensiwn, ynghyd â dogfennau cefnogol neu dystiolaeth gan ymarferwyr meddygol a/neu weithwyr cymdeithasol a/neu dîm iechyd meddwl cymunedol. Crybwyllwyd cydweithio a chyd-asesu gyda gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac asiantaethau eraill gan nifer o awdurdodau. Nododd swyddogion digartrefedd y trefniadau buddiol sy'n bodoli pan fydd adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol wedi eu cyfuno.

3.5.6 Mae Adran 189(1)c o Ddeddf 1996 yn nodi bod gan berson angen blaenoriaeth am lety os yn hawdd ei niweidio am 'reswm arall arbennig'. Gall y rhesymau hynny gynnwys cyfuniad o amgylchiadau sy'n gwneud y person yn llai abl i ofalu amdano ei hun neu ei deulu. Ymatebodd nifer o awdurdodau lleol bod y grwpiau blaenoriaeth newydd yn ymdrin â'r holl amgylchiadau tebygol. Nododd eraill eu bod yn dilyn cyfarwyddyd y Cynulliad a nododd nifer o awdurdodau eu bod yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod. Nodwyd enghreifftiau penodol o ymgeiswyr gyda rhesymau arall am fod yn hawdd eu niweidio gan nifer fechan o awdurdodau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ymgais ar hunan laddiad;
- hunan niweidio;
- bod ar raglen adfer;
- person gyda gallu cyfyngedig, ond heb ddiagnosis ffurfiol nac ymwneud ag asiantaethau eraill;
- ffoaduriaid gydag anghenion cefnogi niferus;

- cysgwyr allan os gellir sefydlu bod eu sefyllfa yn gwaethygu problemau iechyd sy'n bodoli'n barod;
- wrth eu rhyddhau o glinigau detox/adsefydlu;
- aflonyddu oherwydd cefndir ethnig neu rywioldeb;
- anawsterau dysgu.

3.5.7 Gofynnwyd cwestiwn penodol i awdurdodau lleol parthed y dystiolaeth sy'n ofynnol ganddynt i asesu person fel un hawdd ei niweidio oherwydd perygl o drais yn y cartref. Dan ddarpariaethau Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaeth) Cymru 2001, mae person sy'n ffoi rhag, neu sy'n cael ei fygwth â thrais domestig yn awr yn cael ei gynnwys yn y categorïau o bersonau sydd ag angen sy'n cael blaenoriaeth a nodir y canllawiau yn y Côt Cyfarwyddyd. Nododd pymtheg awdurdod nad ydynt yn gofyn am unrhyw dystiolaeth ddogfennol a bod datganiad yr ymgeisydd yn ddigon i ddod i benderfyniad. Mewn rhai achosion, rhoddir anogaeth i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth i gefnogi. Nododd y saith awdurdod arall y byddent yn gwneud ymholiadau i gadarnhau ymwneud â'r Heddlu, Cymorth i Fenywod, gwasanaethau cymdeithasol, cyfreithwyr ac ati.

3.5.8 Estynnodd Gorchymyn Angen Blaenoriaeth (Digartrefedd) (Cymru) 2001 y categorïau anghenion sy'n cael blaenoriaeth blaenorol i gynnwys rhai sy'n gadael gofal neu rai 18-20 oed sydd mewn perygl oddi wrth bobl yn manteisio yn rhywiol neu'n ariannol arnynt. Dim ond pum awdurdod wnaeth ymateb eu bod wedi derbyn person ifanc 18-20 oed fel un oedd yn hawdd ei niweidio oherwydd manteisio rhywiol neu ariannol, er bod un awdurdod wedi nodi, os bydd ymgeisydd yn gadael gofal y gellir ei gofnodi dan y

categori hwnnw hyd yn oed pan fyddant yn agored i niwed oherwydd manteisio ariannol neu rywiol arnynt. Nododd wyth awdurdod yn benodol eu bod wedi gofyn am gyngor, neu wedi cael y gwasanaethau cymdeithasol a/neu asiantaethau eraill gyda hyfforddiant a sgiliau arbenigol i gymryd rhan. Roedd y math o amgylchiadau y byddid yn gwneud asesiad o'u herwydd yn cynnwys cysgu allan, gadael gofal, camddefnyddio sylweddau, diffyg cefnogaeth rhieni neu rwydwaith gefnogi arall, incwm isel neu gymryd rhan mewn puteindra.

3.5.9 Nododd awdurdodau lleol bod ganddynt berthynas waith glos a/neu brotocolau llwybrau cyswllt gyda thimau Gadael Gofal gwasanaethau cymdeithasol. Roedd trefniadau gweithio clos yn nodwedd benodol a grybwyllwyd gan awdurdodau pan fydd gwasanaethau cymdeithasol a thai yn yr un gyfarwyddiaeth. Nododd un awdurdod yn benodol bod gwasanaethau tai yn rhan ganolog o'r strategaeth gadael gofal, ynghyd â iechyd, addysg, hyfforddiant a'r Asiantaeth Budd-daliadau. Nododd un arall bod gweithdrefn gadael gofal yn ei lle, ond nid oes unrhyw achosion yn dod yn ddiwiniad trwy'r system gofal i mewn i dai cymdeithasol.

3.5.10 Dim ond un o'r 22 awdurdod lleol a nododd nad ydynt yn ystyried ceisiadau ar gyfer pobl sy'n cael eu bygwth â digartrefedd cyn eu dyddiad rhyddhau o'r carchar neu'r rhai sy'n gadael y lluoedd arfog. Nododd un awdurdod bod nifer y ceisiadau o'r carchar yn rhy fawr i ystyried rhai sy'n gadael y carchar cyn eu dyddiad rhyddhau oni bai eu bod yn ddarostyngedig i Drefniadau Gwarchod Cyhoeddus Aml-asiantaethol. Ni fyddai rhai awdurdodau'n ystyried ceisiadau oni bai fod y dyddiad rhyddhau o fewn y 28 diwrnod nesaf. Yr awgrym gan lawer o

awdurdodau oedd bod dynodi dyddiad rhyddhau'n gynnar yn galluogi awdurdod i osgoi rheoli argyfwng.

3.5.11 Tra nad yw'r Côt Cyfarwyddyd yn gosod unrhyw gyfyngiadau amser ar gyfer ystyried cais gan berson a ryddheir o'r carchar neu aelodau o'r lluoedd arfog sy'n gadael, mae nifer o awdurdodau'n gosod cyfyngiad mympwyol. Mae ymarfer yn amrywio'n sylweddol o awdurdod i awdurdod. Mae dau awdurdod yn disgwyl i ymgeiswyr ymgeisio o fewn pythefnos o gael eu rhyddhau ac mae eraill yn nodi o fewn mis, dau fis a thri mis o ryddhau. Mae awdurdodau eraill yn crybwyll eu bod yn ystyried yr hyn sy'n rhesymol ac yn asesu hanes ymgeisydd o ran llety ers gadael y carchar neu beidio bod yn aelod o'r lluoedd arfog.

3.5.12 Nododd awdurdodau'r gwahaniaethau yn y ddeddfwriaeth rhwng Cymru a Lloegr, yn arbennig o ran y rhai sy'n gadael y carchar. Mynegodd nifer o swyddogion awdurdod lleol farn y dylai'r ddeddfwriaeth parthed troseddwy'r rhai sy'n gadael y lluoedd arfog adlewyrchu'r sefyllfa yn Lloegr, yn y ffaith y dylid cael cymal yn cyfyngu ailgartrefu i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu niweidio oherwydd sefydliadu. Mynegwyd pryderon am lefel y digartrefedd dro ar ôl tro ymhlith y grŵp hwn, gydag achosion yn cael eu dyfynnu o gyn-garcharorion yn ail-droseddu o lety dros-dro neu barhaol lle'r oeddynt wedi cael eu rhoi yn dilyn cais fel person digartref.

3.5.13 Holwyd yr awdurdodau am eu hymagwedd at bobl sy'n cael eu bygwth â

digartrefedd yn fwriadol ac mewn angen sy'n cael blaenoriaeth, a phobl sy'n ddigartref yn anfwriadol a heb fod ag angen blaenoriaeth. Nododd y mwyafrif o awdurdodau eu bod yn darparu 28 diwrnod o lety. Ar gyfer pobl sy'n ddigartref yn anfwriadol a heb angen sy'n cael blaenoriaeth, nododd yr awdurdodau eu bod yn rhoi cyngor ar ddewisiadau tai, gan gynnwys cymorth i gofrestru pobl ar y gofrestr tai, neu'n darparu llety os oes eiddo ar gael ar unwaith.

3.5.14 Nododd yr awdurdodau eu bod yn dilyn y ddeddfwriaeth a'r Côt Cyfarwyddyd wrth asesu a oes gan ymgeisydd gysylltiad lleol.

Cyrff eraill

3.5.15 Soniodd nifer o ymatebwyr, cyrff Cymorth i Fenywod yn arbennig, am holi gor fanwl ac eithafol ar gleientiaid yn ystod cyfweiliadau asesu. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn arbennig o annifyr i gleientiaid oedd eisoes yn dioddef trawma oherwydd eu problemau. Mynegwyd pryder yn un ardal ar lefel uchel y cyfiawnhad oedd yn ofynnol cyn y byddai'r awdurdod yn derbyn cleientiaid fel rhai digartref ar sail iechyd meddwl. Nodir rhai o'r anawsterau a brofwyd gan gyrff lleol yn y blwch isod.

3.5.16 Mae cyrff gwirfoddol yn arbennig o werthfawrogol o'r staff hynny sy'n sensitif i amgylchiadau eu cleientiaid. Roedd y cyrff yn gweld rhai staff llinell flaen yn fwy sensitif nag eraill i amgylchiadau yr ymgeiswyr unigol, yn arbennig y rhai oedd yn cyflwyno eu hunain oherwydd trais yn y cartref.

Enghreifftiau o anawsterau a brofwyd yng nghyswllt grwpiau penodol

Diffyg preifatrwydd digonol i **fenywod** wrth iddynt gael eu cyfweld yn yr Uned Personau Digartref/adran tai. Mae cael gwasanaeth llawn i fenywod a bennwyd fel rhai sy'n fwriadol ddigartref wedi bod yn broblem. Weithiau roedd y posibilrwydd y byddai addysg plant yn dioddef, oherwydd nad oedd addewid o barhad mewn addysg, yn atal menywod sy'n cael eu cam-drin rhag chwilio am gymorth addas ar yr adeg allweddol gan yr awdurdod lleol.

Gall y gwaith llenwi ffurflenni a'r cwestiynau fod yn rhy feichus ar **bobl ifanc ddigartref**. Rhoddwyd enghreifftiau o staff pobl ddigartref yn ffonio rhieni pobl ifanc i wirio eu storïau (unwaith ym mhresenoldeb gweithiwr ieuenctid).

O ran **ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig**, nid yw'r staff 'yn gynhwysol bob amser yn eu hagweddau', ond mae pethau wedi gwella. Nodwyd problem arbennig yng nghyswllt menywod, a fu'n briod gyda dinasyddion y DG, nad oeddynt yn awr yn medru hawlio unrhyw arian cyhoeddus.

Ystyrid bod troseddwr yn hawdd eu niweidio ac yn aml rhaid i rywun fynd gyda nhw neu bydd arnynt angen cymorth gyda'u ceisiadau. Y broblem benodol yw tuedd i fod yn or-frwdfrydig am gysylltiad lleol, yn arbennig pan fyddant wedi eu dosbarthu fel rhai Atodlen 1.

Sylwodd y gwasanaeth iechyd hefyd ar yr angen i bobl gyda **phroblemau iechyd meddwl** i gael cynorthwy-ydd gofal iechyd yn ystod y cyfweiliad cyntaf.

Adroddodd **y gwasanaeth prawf** bod oedi diangen wrth i awdurdodau lleol ymdrin ag achosion eu **cleientiaid**. Roedd awgrym hefyd gan y gwasanaeth prawf bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu hymrwymadau statudol i denantiaid a all fod yn anneniadol trwy gynnig eiddo is eu safon iddynt.

(Ffynhonnell: cyfweiliadau teleffon cyrff cenedlaethol a lleol)

Enghreifftiau o anawsterau: penderfyniadau ar ddigartrefedd bwriadol

Aeth person ifanc 16 oedd yn ddigartref wedi i'w mam symud i'r Alban ac fe'i cafwyd yn fwriadol ddigartref am iddi beidio mynd gyda hi.

Gadawodd menyw 17 oed ei chartref ar ôl anawsterau gyda'i rhieni. Cafwyd fod ganddi angen sy'n cael blaenoriaeth, ond yn fwriadol ddigartref, gan ei bod wedi gwrthod mynd i gael cyngor am broblem diod.

Rhyddhawyd dyn 21 oed o'r Fyddin ac aeth yn ddigartref. Cafwyd ei fod yn fwriadol ddigartref oherwydd ei fod wedi ei ryddhau am fethu prawf cyffuriau.

(Ffynhonnell: Gwaith achos Shelter Cymru)

Enghreifftiau o ymarfer da

Yn **Rhondda Cynon Taf**, mae gweithiwr cymdeithasol yn gweithio o'r ganolfan cynghori tai. Rhan o waith y person hwn yw cynnal asesiadau o rai 16 ac 17 oed a chynorthwyo'r gweithwyr achos i ganfod y llety mwyaf addas i'r cleientiaid.

Mae gan **Gaerdydd** Swyddog Cyfryngu ar gyfer rhai 16-21 oed wedi ei leoli yn y Prosiect Dewisiadau Tai. Mae gweithwyr achos digartrefedd yn cynnal ymweliadau cartref i geisio atal digartrefedd ac i drafod dewisiadau eraill.

Derbyniodd gweithdrefnau ffeilio a rheoli achos **Ynys Môn** ar gyfer y gwasanaeth Nod Ansawdd y Bartneriaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol. Cynhelir arolwg o 10 y cant o'r ffeiliau achos bob mis ac fe'u hasesir o'u cymharu â rhestr wirio 22 pwynt.

(Ffynhonnell: ymateb holiadur awdurdodau lleol ac adroddiad arolwg y Comisiwn Archwilio)

3.6 Y broses o lunio penderfyniadau

Awdurdodau lleol

3.6.1 Nododd yr holl awdurdodau lleol eu bod yn cydymffurfio â'r gofyn i ddarparu llythyr Adran 184 yn hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad yr asesiad. Barn Shelter Cymru yw bod llythyrau Adran 184 yn aml yn cael eu safoni ac nad ydynt bob tro yn rhoi rhesymau llawn a chlr am y penderfyniad, yn ôl y gofyn yng nghyfarwyddyd y Cynulliad.

3.6.2 Nododd 14 o awdurdodau lleol nad oeddynt yn cael dim neu ychydig iawn o broblemau wrth gyrraedd yr amserlen darged ar gyfer cwblhau ymholiadau o fewn 33 diwrnod. O'r awdurdodau hyn a nododd eu bod yn cael problem gyda'r amserlen, y prif reswm a nodwyd oedd aros am wybodaeth gan drydydd parti, e.e. awdurdodau lleol eraill, gwasanaethau cymdeithasol, meddygon teulu (y codir tâl am y gwasanaeth), landlordiaid, cyfreithwyr, banciau/cymdeithasau adeiladu ac ati. Soniodd dau awdurdod yn benodol am y galw cynyddol am y gwasanaeth ers y newidiadau i grwpiau angen sy'n cael blaenoriaeth, nad oes adnoddau ychwanegol i gyd-fynd ag o i ymdrin â'r

pwysau cynyddol ar y gwasanaeth. Nodwyd bod anhawster i gydbwyso'r broses ymholi gychwynnol â'r gofynion asesu hefyd yn broblem, ynghyd â chynnydd mewn achosion mwy cymhleth.

Cyrff eraill

3.6.3 Cadarnhawyd yr anawsterau a brofwyd gan rai awdurdodau lleol gan yr ymateb gan gyrff eraill. Nodwyd bod hyd yr amser a gymerir gan rai awdurdodau lleol i ddod i benderfyniad ar ddigartrefedd yn peri pryder. Nododd sawl corff amseroedd aros eithriadol o hir o 6-12 mis yn aros am benderfyniadau parthed eu cleientiaid. Mewn cyferbyniad mae Shelter Cymru wedi dynodi enghreifftiau lle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn rhy gyflym ac na wneir ymchwil llawn i amgylchiadau unigolyn.

3.7 Gweithdrefn hysbysu ac apelio

Awdurdodau lleol

3.7.1 Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol bod y llythyr hysbysu Adran 184 yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am eu hawl i adolygiad a'r broses apelio i'w dilyn. Mae rhai awdurdodau lleol yn

dwyn hyn i sylw'r ymgeiswyr yn gynt yn ystod y broses.

3.7.2 Yn ystod 2001/02, gwnaed 128 o geisiadau am apêl i 14 o wahanol awdurdodau lleol. Nid oedd gan wyth awdurdod unrhyw geisiadau. Roedd 36 o'r ceisiadau hyn at un awdurdod. Gwrthdrowyd 28 o benderfyniadau, 12 ohonynt gydag un awdurdod. Nid oedd yr wybodaeth am apelïadau a chanlyniadau yn gyflawn gan dri awdurdod.

3.7.3 Ymatebodd 21 o'r 22 awdurdod i'r cwestiwn a oedd apelïadau wedi eu gwneud i'r Llys Sirol. Yn ystod 2001/02, roedd dwy apêl i'r Llys Sirol; yn y ddau achos cadarnhaodd y Llys benderfyniad gwreiddiol y Cyngor. Yn ychwanegol, mae rhai achosion yn cael eu hildio gan yr awdurdodau cyn iddynt gyrraedd y llys.

Cyrff eraill

3.7.4 Mae gan gyrff gwirfoddol, cyrff cenedlaethol fel Shelter Cymru yn arbennig, rôl wrth herio a phrofi penderfyniadau awdurdodau lleol. Mewn nifer o achosion, mae'r sialensiau hyn yn codi cyn y bydd proses apelio ffurfiol wedi cael ei gweithredu ac maent yn arwain at adolygiad o'r penderfyniad gwreiddiol.

3.8 Cyswllt gyda landlordiaid eraill i sicrhau llety

Awdurdodau lleol

3.8.1 Mae rhai awdurdodau yn ystyried mai hwy yw'r unig gorff sy'n darparu llety dros-dro a pharhaol i bobl ddigartref. Mae'r rhwystrau penodol yn cynnwys enwebiadau i gymdeithasau tai sy'n ddethol wrth dderbyn aelwydydd digartref. Dyfynnwyd un enghraifft o 22 o enwebiadau a wnaed i gymdeithas dai dros gyfnod penodol yn arwain at ddim ond dau ymgeisydd yn cael cartref gan y gymdeithas. Mae tryloywder ar osodiadau

rhwng awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn hanfodol. Mae lle i ddangos gwelliant sylweddol yn y lefelau cyfredol o gyfathrebu ar y mater hwn.

3.8.2 Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddynodi'r cyfyngiadau y maent yn dod ar eu traws wrth geisio cyflawni eu dyletswyddau digartrefedd trwy gydweithrediad gyda LCC a'r sector preifat. Tra bod nifer o awdurdodau'n nodi'r berthynas dda oedd ganddynt gyda LCC, nododd dros eu hanner bod polisiau allgau LCC yn gyfyngiad, yn arbennig yng nghyswllt unigolion digartref neu aelwydydd gyda hanes o ôl-ddyledion rhent, ymddygiad anghymdeithasol a/neu droseddu.

'Rydym wedi darganfod na fydd LCC yn derbyn rhai enwebiadau ymgeiswyr digartref sydd, er gwaethaf y ffaith eu bod yn ddigartref yn anfwriadol, â record o ôl-ddyledion neu niwsans mewn tenantiaethau blaenorol'
(Ffynhonnell: ymateb i holiadur awdurdod lleol)

3.8.3 Dynododd yr holl awdurdodau lleol gyfyngiadau wrth weithio yn y sector preifat. Mae'r problemau a ddynodwyd yn cynnwys: diffyg sicrwydd, fforddioldeb, (yn arbennig i rai dan 25 oed oherwydd rheoliadau budd-daliadau rhent tai ystafell sengl), amharodrwydd landlordiaid i dderbyn pobl ar fudd-daliadau a/neu grwpiau penodol o gleientiaid, blaendâl uchel tu hwnt i gyrraedd, diffyg cyflenwad, a diffyg staff i weithio gyda'r sector preifat.

Cyrff eraill

3.8.4 Roedd cyrff lleol o'r farn bod hyd yr amser a gymerir i ddatrys hawliadau Budd-dâl Tai mewn rhai ardaloedd yn golygu, yn yr ardaloedd hynny, bod y sector preifat ar rent, yn ymarferol, wedi peidio bod yn ddewis posibl.

Enghreifftiau o ymarfer da

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi gwneud penderfyniad yn ddiweddar i roi pob enwebiad LCC trwy ei Adran Ddigartrefedd. Mae'r mater o bolisiau eithrio LCC yn cael ei drin trwy'r Cytundeb Tai Cymunedol a chyfarfodydd gyda'r LCC.

(Ffynhonnell: ymateb i holiadur awdurdod lleol)

3.9 Y dewis a natur y llety a gynigir, gan gynnwys llety dros-dro

Awdurdodau lleol

3.9.1 Cyfeiriwyd at gefnogaeth a chydweithrediad annigonol o fewn awdurdodau (a hyd yn oed o fewn adrannau o ran sicrhau llety awdurdod lleol parhaol), a rhwng awdurdodau ac asiantaethau allanol. Yn benodol, roedd nifer o enghreifftiau o awdurdodau lle mae newid yn strwythur darparu gwasanaeth wedi arwain at wahanu rheoli digartrefedd a rheoli tai/gosodiadau. Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn wedi arwain at fwy o anawsterau i'r tîm digartrefedd wrth asesu llety awdurdod lleol digonol/addas.

3.9.2 Mae'r anhawster i gael mynediad at lety addas yn dwysáu oherwydd bod stoc tai awdurdod lleol yn cael eu colli trwy'r Hawl i Brynu sydd wedi tynnu cyfran sylweddol o'r tai o'r safon uchaf yn yr ardaloedd mwyaf poblogaidd o berchenogaeth awdurdod lleol. Mae stoc

gwag yn gynyddol ar stadau ar y cyrion neu mewn cymunedau sy'n dirywio, ac yn aml nid yw'n addas i fodloni gofynion y digartref.

3.9.3 Nododd rhai awdurdodau bod amgylchiadau lle nad oeddynt wedi medru cyflawni eu dyletswyddau statudol gan nad oedd llety gwely a brecwast neu lety dros dro ar gael pan fyddai ar ymgeiswyr ei angen.

3.9.4 Cyfeiriodd un awdurdod at deimlad bod ei dîm digartrefedd yn gorfod 'gwerthu' ei gleientiaid i bwy bynnag fedrai gynnig llety iddynt a bod goresgyn yr agweddau negyddol tuag at aelwydydd digartref yn cymryd llawer o amser.

3.9.5 Gofynnwyd i awdurdodau lleol a oedd y math o lety dros-dro a ddefnyddir i aelwydydd digartref wedi newid yn y ddwy flynedd diwethaf. Dywedodd wyth awdurdod nad oedd unrhyw newid. Crynhoir ymatebion yr 14 awdurdod arall yn nhabl naw.

Tabl 9: Newidiadau yn y defnydd o lety dros-dro

Newid yn y defnydd o lety dros-dro	Nifer o awdurdodau
Defnydd newydd o Wely a Brecwast/cynnydd yn y defnydd o Wely a Brecwast	6
Rhagor o ddefnydd o lety'r cyngor	5
Datblygiadau/mwy o ddefnydd o ddewisiadau ar wahân i Wely a Brecwast e.e. prydlesu, gwestai – lleihad yn y defnydd o Wely a brecwast	4
Defnydd/cynnydd yn y defnydd o lety tu allan i'r ardal	4
Datblygu hosteli newydd	3

3.9.6 Nododd saith awdurdod eu bod yn amrywio'r math o lety a gynigir i ymgeiswyr dan y dyletswydd interim a188 a'r prif ddyletswydd dan a193. Y mathau o lety a ddefnyddir ar gyfer llety interim yw Gwely a Brecwast, hostel, lloches menywod neu stoc y Cyngor. Y llety parhaol yw llety Cyngor neu enwebu i LCC.

3.9.7 Wrth benderfynu ar addasrwydd llety dros-dro, mae awdurdodau'n cymryd ystod o ffactorau i ystyriaeth. Gyda'i gilydd nododd yr awdurdodau eu bod yn rhoi sylw i:

- leoliad;
- addasrwydd;
- cyfleusterau anabl;
- agosrwydd at ysgolion lleol a rhwydweithiau cefnogi;
- cysylltiadau cludiant;
- cyflogaeth;
- argaeledd;

- natur y preswylwyr eraill;
- cost;
- iechyd a diogelwch, gan gynnwys gorlenwi a deddfwriaeth HMO;
- cyfansoddiad y teulu
- rheswm am y digartrefedd (h.y. ni fyddent yn cartrefu mewn ardal pan fydd person yn ffoi rhag trais);
- rhesymau meddygol, cymdeithasol neu iechyd;
- canlyniadau unrhyw asesiad risg.

3.9.8 Nododd nifer o awdurdodau bod y gallu i gynnig y llety mwyaf addas yn dibynnu ar argaeledd llety ar yr amser y gofynnir amdano.

3.9.9 Pan fydd hynny'n ddichonadwy, mae awdurdodau lleol yn amrywio'r math o lety a gynigir i wahanol grwpiau o gleientiaid. Nodir enghreifftiau yn Nhabl 10 isod.

Tabl 10: Math o lety dros-dro yn ôl grŵp client

Grŵp client	Math o lety a gynigir
Young people	Llety hostel gyda chefnogaeth Llety symud ymlaen a rennir Landlord preifat gyda gwasanaethau cefnogi Tai â gofal gyda chefnogaeth a chymedroli Hostel YMCA
Cyn-garcharorion	Mynediad uniongyrchol Gwely a Brecwast Eiddo cyngor Enwebiadau Lloches nos
Trais yn y cartref	Llochesau Hosteli Gwely a Brecwast
Problemau Iechyd Meddwl	Gwely a Brecwast Amrywio, yn dilyn trafodaeth gyda gwasanaethau iechyd Mynediad uniongyrchol Ysbyty

(Ffynhonnell: ymatebion i holiadur awdurdodau lleol)

3.9.10 Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau y gall pobl o'r gwahanol grwpiau cleientiaid gan gynnwys y rhai gydag anghenion cefnogaeth uchel, orfod rhannu llety dros-dro oherwydd diffyg prosiectau a ddynodwyd ar gyfer grwpiau penodol.

3.9.11 Mae gosod pobl tu allan i'r ardal yn broblem gynyddol. Yn 2001/02, lleolodd chwe awdurdod un ar ddeg neu fwy o bobl tu allan i'r ardal gyda'r ystod yn amrywio o 11 i 74. Tra bod un o'r awdurdodau hyn wedi lleihau'r gosodiadau yn 2002/03 i ffigyrau sengl, mae awdurdod arall wedi dechrau defnyddio'r arfer. Mae'r cymorth a roddir i gleientiaid yn amrywio o ddim, i dalu costau teithio a/neu ddarparu tacsî.

3.9.12 Mae mwyafrif yr awdurdodau yn darparu gwybodaeth i ymgeiswyr mewn llety dros-dro ar ei addasrwydd. Nododd wyth awdurdod nad yw'r wybodaeth yn ddigonol neu nad yw ar gael.

3.9.13 Nodwyd mai diffyg argaeledd llety a phroblemau lleoliad yw'r prif ffactorau wrth fethu rhoi ystyriaeth i ddewisiadau ymgeiswyr am lety dros-dro a pharhaol. Ond rhoddir ystyriaeth i anabledd a rhai nodweddion sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Cyfyngir ar y dewis hefyd oherwydd yr amser sydd ar gael i ail-gartrefu a chostau llety dros-dro mewn rhai ardaloedd.

Cyrff eraill

3.9.14 Ystyriai corff o'r sector gwirfoddol sy'n gweithredu yn ardal sawl awdurdod

lleol mai'r ffactor hanfodol sy'n rheoli'r ymateb amrywiol gan awdurdodau lleol i bobl ddigartref yw'r cyflenwad o lety, gyda phrinder llety yn debygol o greu dehongliad llymach ar y gyfraith.

3.9.15 Ystyriai cyrff lleol bod cyflwr llety dros-dro a gynigir yn aml yn ddiffygiol. Nid oedd cymdeithasau tai prif-ffrwd yn cael eu hystyried fel darparwyr llety dros-dro arwyddocaol.

3.9.16 Mynegwyd pryder am addasrwydd llety dros-dro a gynigir i bobl gydag anghenion penodol fel y rhai â phroblemau iechyd meddwl neu i bobl ddigartref ifanc iawn.

3.9.17 Nodwyd bod hyd yr amser y mae'n rhaid aros i gael cynnig llety parhaol yn broblem, yn arbennig i aelwydydd mawr, (ac felly'n cael effaith anghymesur ar aelwydydd BME).

3.9.18 Roedd nifer o gyrff yn cwestiynu addasrwydd llety parhaol a gynigir, yn arbennig i'r rhai gydag anghenion cefnogaeth eto. Credid bod y rhai gyda phroblemau iechyd meddwl/anawsterau dysgu, rhai sy'n camddefnyddio sylweddau/ pobl ifanc sengl/troseddwyr rhyw dan anfantais yn arbennig. Nodwyd y perygl o greu ghettos o bobl ifanc sengl ddigartref. O ystyried lefel isel eu hincwm, ystyrid pobl ifanc 16 ac 17 oed fel rhai

oedd yn arbennig o anaddas i'w rhoi mewn llety heb ei ddodrefnu sy'n cael ei gynnig iddynt yn aml.

3.9.19 Gall yr ardaloedd dosrannu daearyddol a ddiffinnir gan awdurdodau lleol fod yn fawr. Gall pobl gael cynnig llety o fewn yr ardal ddyrannu, ond eto gryn bellter oddi wrth y rhwydweithiau cefnogi.

3.9.20 Nid yw dwyster y gefnogaeth sydd ar gael bob amser yn ddigonol i helpu pobl i gynnal tenantiaeth naill ai mewn llety dros-dro neu barhaol. Os bydd pobl yn colli tenantiaeth dros-dro ran o'r ffordd trwy'r broses asesu digartrefedd, gallant gael eu hystyried yn fwriadol ddigartref.

3.9.21 Gall cyswllt lleol a dyfarniadau ar ôl-ddyledion yng nghyswllt y gofrestr tai wrth-droi derbyniadau digartref, e.e. nid yw menywod sydd wedi dioddef trais yn y cartref ac nad oes ganddynt gysylltiad lleol yn cael eu hystyried i gael eu hailgartrefu gan un awdurdod nes bydd deuddeng mis wedi mynd ers iddynt gael eu derbyn fel rhai digartref. (DS Ar adeg yr arolwg, nid oedd darpariaethau gosod y Ddeddf Digartrefedd mewn grym).

3.9.22 Anawsterau i gael llety i rai grwpiau, e.e. cyfeiriwyd at droseddwyr risg uchel ar draws nifer o ardaloedd awdurdod lleol.

Enghreifftiau o'r anawsterau a brofwyd: astudiaethau achos

Troseddwyr

Cyflwynodd person ifanc a ddsbarthwyd fel troseddwr Atodlen 1 ei hun fel person digartref mewn prosiect cyngori corff sector gwirfoddol. Ni wnâi'r awdurdod lleol ei gartrefu oherwydd ei statws Atodlen 1. Trefnwyd gwely argyfwng mewn llety dros-dro sector gwirfoddol/prosiect cefnogi tra gwnaed cais am asesiad plentyn mewn angen. Ni wnâi'r Gwasanaethau Cymdeithasol ymwneud â'r achos gan fod gan y person ifanc weithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc. Yn y diwedd caniatodd nain y person ifanc iddo aros gyda hi dros-dro nes y byddai lle mwy parhaol ar gael yn y llety dros-dro/prosiect cefnogi (tua phum wythnos). Oherwydd ei anhawster dysgu, yn y diwedd symudodd y person ifanc ymlaen i dŷ a rennir trwy Wasanaethau Oedolion yn fuan wedi ei ben-blwydd yn ddeunaw oed. Treuliodd tua deg mis yn y llety dros-dro/prosiect cefnogi.

Ymgeisiodd dyn 17 oed fel person digartref ond gwrthodwyd llety dros-dro iddo nag unrhyw gymorth oherwydd ei fod wedi ei gyhuddo o ddifrod troseddol cyn hynny.

Ni chynigiwyd cymorth i gyn-garcharor sengl digartref gyda phroblemau cyffuriau oherwydd ei fod yn cael ei ystyried fel person oedd yn cael ei eithrio gan y cyngor.

Unigolyn gyda phroblemau iechyd meddwl

Cynigiwyd llety parhaol i berson digartref gydag angen blaenoriaeth ag yntau â phroblemau iechyd meddwl a ddynodwyd ond fe'i hysbyswyd, dan y trefniant digartref, mai cynnig 'un yn unig' oedd hwn. Derbyniwyd yr eiddo a chychwynnodd y denantiaeth o fewn wythnos. Ni adawyd i weithiwr cymdeithasol y person nag unrhyw asiantaeth gefnogi arall wybod am y symud – o ganlyniad nid oedd y rhwydwaith gefnogi a sefydlwyd o gwmpas y person hwn yn medru gweithredu gan nad oeddynt yn medru cysylltu ag ef.

Rhai sy'n cysgu allan

Ymgeisiodd cwpl oedd yn cysgu allan fel cwpl digartref ond dywedwyd wrthynt nad oedd ganddynt gysylltiad lleol ac felly na fedrent gael llety dros-dro. Bu'n rhaid iddynt ddychwelyd i'r strydoedd. Yn dilyn cyfweiliad gydag asiantaeth wirfoddol, daeth yn amlwg eu bod yn ffoi rhag trais domestig. Cyflenwyd yr wybodaeth yma i'r awdurdod lleol ac yna rhoddwyd llety dros-dro iddynt ac yn ddiweddarach fe'u haseswyd fel rhai ag angen blaenoriaeth.

(Ffynhonnell: cyfweiliadau teleffon cyrff lleol a gwaith achos Shelter Cymru)

3.9.23 Nodwyd prinder cyffredinol o lety dros-dro a pharhaol fel y rheswm pam bod awdurdodau weithiau'n methu cyflawni eu dyletswyddau statudol, e.e. i gynnig llety

dros-dro i aros penderfyniad ar ddigartrefedd, neu fethu dilyn darpariaethau'r Côt Cyfarwyddyd ar addasrwydd llety.

Enghreifftiau o ymarfer da

Mae strategaeth adsefydlu **Caerdydd** yn rhoi blaenoriaeth i breswylwyr hosteli prosiectau llety â chefnogaeth a dderbynnir i'r cynllun ar y rhestr aros a chefnogaeth iddynt i gadw eu tenantiaeth. Mae tîm cefnogi'r digartref yn y Ddinas yn rhoi cefnogaeth i ymgeiswyr digartref mewn llety dros-dro. Mae Panel Mynediad y Ddinas yn ceisio helpu pobl sy'n cael eu hallgau neu yn eu hallgau eu hunain o wasanaethau statudol a/neu wirfoddol. Mae panel o gynrychiolwyr o'r gwahanol asiantaethau, gan gynnwys yr Awdurdod Iechyd, Tîm Alcohol Cymunedol a Phrawf yn cyfarfod yn gyson i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer yr unigolion hyn.

Mae gan Dewisiadau Tai **Abertawe** lety dros-dro ei hun a reolir gan swyddog o'r awdurdod lleol. Mae hwn ar gyfer teuluoedd yn unig ac mae'n cynnig llety diogel, sicr nes gall yr awdurdod gyflawni ei ddyletswydd. Mae strategaeth pobl sengl ddigartref yr awdurdod wedi arwain at ddatblygu tŷ gwlyb ar gyfer rhai sy'n yfed ar y strydoedd.

(Ffynhonnell: ymateb i holiadur awdurdod lleol)

3.10 Cyllid/adnoddau

3.10.1 Roedd awdurdodau lleol a chyrrff eraill yn gweld gweinyddu gwael ar fudd-dâl tai fel problem allweddol, o ran cyfrannu at ddigartrefedd ac o ran atal y defnydd o rai dewisiadau llety, e.e. yn y sector preifat, oherwydd profiad y landlord o'r system budd-dâl tai yn y gorffennol.

3.10.2 Nododd pob math o gyrff yr angen am adnoddau ychwanegol, yn arbennig i ddarparu llety dros-dro a pharhaol addas, gyda llety symud ymlaen yn flaenoriaeth arbennig. Dynodwyd defnydd effeithiol o'r adnoddau sy'n bodoli, staff wedi eu hyfforddi'n dda, a gwell cefnogaeth hefyd fel elfennau hanfodol.

Enghreifftiau o ymarfer da

Bu Fforwm Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol **Pen-y-bont ar Ogwr** yn allweddol wrth wneud cais llwyddiannus am £1.7 miliwn o gyllid ar gyfer amrywiaeth o brosiectau digartrefedd gan gynnwys Bond Board, Breakfast Run, ymchwil a thai arbenigol.

Ym **Merthyr Tudful**, sefydlwyd cynllun wedi ei ariannu gan Grant Rheoli Tai Cymdeithasol i sgrinio iechyd pobl ddigartref trwy gyflogi ymwelydd iechyd rhan-amser.

(Ffynhonnell: ymateb i holiadur awdurdod lleol)

3.11 Targedau/ystadegau a monitro

Awdurdodau lleol

3.11.1 Roedd y mwyafrif o'r awdurdodau'n ystyried nad oedd yr ystadegau a anfonwyd at Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dangos y darlun cywir, yn ogystal â chymryd llawer o amser i'w cynhyrchu. Pryder cyffredinol, a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn oedd bod diffiniadau gwahanol yn cael eu defnyddio. Roedd y pryderon penodol yn cynnwys:

- eithrio achosion yr ymdriniwyd â hwy dros y ffôn;
- y ffaith nad yw'r ystadegau'n dilyn yr holl achosion trwodd o gyflwyno i'r

canlyniad terfynol ac felly nad ydynt yn cynnwys cyngor tai a gwaith ataliol;

- y ffaith nad ydynt yn rhoi unrhyw bwysau i gymhlethdod achosion unigol.

3.11.2 Heblaw am gyhoeddi ffurfiol rhywbryd wedi i'r ystadegau gael eu cyflwyno, nid oes ymateb i'r awdurdodau gan y Cynulliad a dim cyswllt gyda chyllid na dosbarthu adnoddau. Mae'r newidiadau i'r diffiniadau a'r gofynion o ran data yn cynyddu'r gwaith sydd ei angen i lenwi'r adroddiadau ac yn lleihau defnyddioldeb yr ystadegau, e.e. yng nghyswllt olrhain tueddiadau o flwyddyn i flwyddyn.

Enghraifft o anawsterau: adroddiadau ystadegol

Mae'r dryswch mewn terminoleg yn cael ei ddangos gan awdurdod a nododd gynydd o bron i wyth gwaith yn lefel y derbyniadau fel canran o'r cyflwyniadau dros gyfnod o dair blynedd. Ni ellid cyfrif am y rhain oherwydd newidiadau yn y gyfraith neu ymarfer o fewn yr awdurdod. Roedd yn amlwg nad oedd yr adroddiad yn cael ei lenwi'n gywir gan yr awdurdod. Rhoddwyd cyfarwyddyd cliriach i'r awdurdod pan anfonwyd ymholiad at y Cynulliad, ond mae'r awdurdod yn cydnabod bod dryswch yn parhau am rai o'r diffiniadau a ddefnyddir.

(Ffynhonnell: Shelter Cymru)

3.11.3 Un mater y cyfeiriwyd ato'n benodol yn ystod yr astudiaeth oedd y ffaith bod achosion sy'n cael eu trin dros y teleffon yn cael eu cau allan. Dywedodd un awdurdod y byddai'n medru gwneud asesiad digartrefedd llawn dros y ffôn i bobl mewn ardaloedd gwledig ond nad yw'r achosion hyn yn cael eu cynnwys yn yr ystadegau swyddogol.

3.11.4 Yn ychwanegol, nid yw pob achos digartrefedd yn cael ei ddilyn yn yr ystadegau o'r cyflwyno i'r canlyniad terfynol. Mae hyn yn golygu nad yw'r lefel o atal sy'n cael ei gyflawni trwy roi cyngor yn cael ei fesur fel rhan o'r ystadegau swyddogol er gwaethaf y ffaith

bod atal yn nod hanfodol yn y fframwaith polisi cenedlaethol. Byddai ymholiadau, cyflwyniadau a derbyniadau y 1000 o boblogaeth yn cynnig data mwy defnyddiol na niferoedd absoliwt.

3.11.5 Teimlai'r awdurdodau bod targed y Cynulliad yn **Cartrefi Gwell** ar gyfer y nifer o aelwydydd mewn llety dros-dro yn un na ellir ei gyflawni. Ar hyn o bryd mae gan un awdurdod yn unig fwy o aelwydydd mewn llety dros-dro na'r targed ar gyfer Cymru gyfan. Dylid nodi, er bod ymrwymiad y Cynulliad i leihau'r nifer o bobl sy'n aros mewn llety dros-dro am fwy na chwe mis a chael gwared o'r defnydd o wely a brecwast i deuluoedd digartref yn parhau,

mae'r union dargedau sydd i gael eu gosod yn cael eu hailystyried yn ystod 2003/04.¹

3.11.6 Roedd awdurdodau lleol yn ystyried bod posibilrwydd o greu gwrthdaro rhwng atal digartrefedd a'r dangosyddion perfformiad ar gyfer meysydd eraill fel ôl-ddyledion a foidau.

Gwaethygir y sefyllfa hon gan y ffaith nad oes dangosydd perfformiad atal digartrefedd ar gael ar hyn o bryd. Gallai dangosydd ar gyfer atal digartrefedd, er enghraifft, wahaniaethu rhwng ymholiadau gan bobl all fod yn ddigartref, cyflwyniadau ffurfiol a derbyniadau.

Enghreifftiau o ymarfer da

Mae strategaeth ddigartref sengl **Abertawe** wedi arwain at ddatblygu ffurflen fonitro gyffredin ar gyfer pobl sengl ddigartref.

Datblygodd **Caerdydd** brotocolau asesu a chasglu data cyffredin gyda nifer o asiantaethau sy'n bartneriaid ar draws y ddinas.

Mae **Rhondda Cynon Taf** yn defnyddio cronfa ddata Access i gofnodi digartrefedd. Mae hyn yn hwyluso'r gwaith o gynhyrchu adroddiadau ac ystadegau sy'n ofynnol gan y Cynulliad.

(Ffynhonnell: ymateb i holiadur awdurdod lleol)

1 Mae "Gwell Cymru" (betterwales.com) yn gosod amcanion i leihau'r "nifer o aelwydydd digartref yn byw mewn llety dros-dro i...lai na 500" ac i'r "angen i gysgu allan gael ei ddileu". Yn yr un modd mae "Cynllun Cymru 2001" yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau digartrefedd gan osod targed i gyflawni lleihad mesuradwy yn hyd yr amser y mae teuluoedd yn ei dreulio mewn llety dros-dro.

Bydd yr ystadegau ar y nifer o aelwydydd mewn llety dros-dro am fwy na chwe mis, fydd ar gael yn ystod 2003, yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad osod targed ac amserlen ar gyfer lleihau'r nifer o deuluoedd digartref mewn llety dros-dro, gan gyfeirio at y ffigwr gwaelodlin.

Ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad wybodaeth ddigonol ar lefelau cysgu allan na maint y ddarpariaeth argyfwng. Ni fydd yr wybodaeth hon ar gael nes bydd y Strategaethau Digartrefedd Lleol yn eu lle (Haf 2003 ar y cynharaf), a bydd yn cymryd peth amser cyn i'r buddsoddiad arfaethedig fwydo trwodd i'r ddarpariaeth sydd ar gael.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymroddedig i ddiddymu'r angen i gysgu allan ar y cyfle cyntaf, ond mae'n cynnig bod y dyddiad targed ar gyfer cyflawni'r nod hwn yn cael ei bennu erbyn Ebrill 2004 ar sail tystiolaeth briodol.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio tuag at:

- ddiddymu'r angen i gysgu allan;
- leihau'r nifer o bobl sy'n aros mewn llety dros-dro am fwy na chwe mis;
- leihau'r nifer o rai sy'n ddigartref "eilwaith";
- diddymu'r defnydd o lety gwely a brecwast i deuluoedd digartref a'i leihau i eraill;
- sicrhau bod gan bod awdurdod lleol strategaeth ddigartrefedd yn ei lle;
- lleihau'r amser y mae awdurdodau lleol yn ei gymryd i asesu pobl sy'n cyflwyno eu hunain fel rhai digartref.

(Datganiad Safbwynt a ddarparwyd gan Lywodraeth y Cynulliad Mawrth 2003)

Cyrff eraill

3.11.7 Nododd cyrff eraill bod gwell monitro a gwerthuso ar wasanaethau i weld gwelliant ac i wneud yn siŵr bod y gwariant yn cael ei wario'n dda yn faes lle gallai'r holl bartneriaid gyfrannu.

Crynodeb o'r bennod

3.11.8 Mae'r bennod hon yn trafod canfyddiadau'r adolygiad, gan roi ystyriaeth i farn awdurdodau lleol, cyrff lleol a chenedlaethol. Mae'n cynnwys astudiaethau achos gan roi enghreifftiau penodol o weithredu'r ddeddfwriaeth, ac enghreifftiau o ymarfer da. Y pwyntiau penodol yw:

- Mae'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd wedi cael croeso gan yr holl gyrrff;
- Mae ansawdd y cyngor a'r wybodaeth ar dai ledled Cymru yn amrywio;
- Mae nifer o raglenni cynghori ar gyfer ysgolion a fwriadwyd at atal digartrefedd, a chyngor wedi ei deilwrio ar gyfer pobl ifanc;
- Mae gan y mwyafrif o awdurdodau lleol dimau asesu penodol;
- Mae problemau arbennig gyda chyfeirio anaddas, e.e. troseddwy'r ifanc, a chyfyngiadau amser mympwyol a osodir ar dderbyn rhai sy'n gadael y carchar;

- Mae enghreifftiau o ymarfer da a chysylltu da, e.e. protocolau ar gyfer cyfeirio rhai sy'n gadael y carchar, ymweld cyn-rhyddhau, a chyfyngu ar gyfer rhai 16-21 oed;
- Yn gyffredinol mae'r staff asesu yn sensitif yn eu hymagwedd ac mae gan awdurdodau weithdrefnau sydd wedi sefydlu'n dda;
- Mae pryderon am natur a'r defnydd o lety dros-dro; ei leoliad, cyfleusterau, a defnydd cymysg anaddas gan gleientiaid gydag anghenion gwahanol o ran cefnogaeth;
- Mae'r defnydd o leoliadau dros-dro allan o'r ardal yn cynyddu;
- Mae polisïau allgau LCC ac ymarfer enwebu yn arwain at ddefnydd cyfyngedig ar y sector hwn i bobl ddigartref;
- Un enghraifft o ymarfer da a ddyfynnir yw pan fydd yr holl enwebiadau i LCC yn cael eu rhoi trwy adran ddigartrefedd yr awdurdod lleol;
- Nododd pob math o gorff yr angen am fwy o adnoddau, yn arbennig ar gyfer llety dros-dro a pharhaol;
- Rhaid i awdurdodau lleol ddeall yn well sut y mae'r Cynulliad yn defnyddio'r adroddiadau ystadegol ar ddigartrefedd.

3.11.9 Yn y bennod nesaf rydym yn edrych ar broblemau penodol wrth weithredu'r gyfraith a'r Côt Cyfarwyddyd, a'r ffyrdd y gellir goresgyn y problemau.

Pennod Pedwar

Problemau Wrth Weithredu'r Gyfraith a'r Côt Ymarfer

4.1 Fel rhan o'r astudiaeth, gofynnwyd i awdurdodau lleol ddynodi pa problemau y maent yn eu profi wrth weithredu'r gyfraith ddigartrefedd a'r Côt Cyfarwyddyd a dynodi beth fyddai'n eu cynorthwyo i oresgyn y problemau hyn. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi'r materion a godwyd gan awdurdodau lleol yn eu hymateb.

4.2 Y problemau a nodwyd amlaf oedd:

- diffyg adnoddau staff i ymateb yn effeithiol i anghenion pobl ddigartref a rhai all fynd yn ddigartref;

'Nifer y cyflwyniadau a'r cynnydd yn y rhai y mae gennym ddyletswydd i ddarparu llety dros-dro a pharhaol iddynt sydd wedi rhoi pwysau ar adnoddau oedd yn gyfyngedig eisoes.'

'Mae'r problemau a brofwyd yn nhermau maint y gwaith a chymhlethdod pellach llunio penderfyniadau.'

- anawsterau gyda chyfnewid gwybodaeth rhwng cyrff yn gysylltiedig â deddfwriaeth gwarchod gwybodaeth a/neu ddiffyg protocolau effeithiol;

'Rydym yn cael anhawster i gael gwybodaeth i gefnogi ymholiadau yng nghyswllt gwarchod gwybodaeth.'

- anawsterau i gael llety i grwpiau penodol fel rhai 16 ac 17 oed, pobl gyda phroblemau iechyd meddwl,

pobl sy'n gaeth i sylweddau a chyn-droseddwyd;

'Rydym yn cael anhawster wrth ganfod llety parhaol i sawl grŵp o bobl ddigartref; maent yn cael eu paratoi at fethiant.'

- diffyg ystod addas o lety dros-dro sy'n arwain at grwpiau hawdd eu niweidio yn cael eu gosod gyda'i gilydd yn yr un llety dros-dro, gan gynyddu'r perygl y byddant yn cael eu niweidio;

'Mae'r awdurdod yn bryderus bod rhai grwpiau hawdd eu niweidio yn cael llety dros-dro yn yr un llety gwely a brecwast.'

'Mae lleoliadau llety dros-dro yn llawn i'r eithaf yn gyson, rydym yn rhagweld yr angen am leoliadau tu allan i'r ardal.'

- Diffyg llety parhaol, naill ai'n gyffredinol, neu ar gyfer grwpiau penodol fel teuluoedd mawr neu bobl sengl;

'Mae'r diffyg llety i bersonau sengl yn golygu na ellir cadw pobl sengl o fewn eu cymunedau.'

'Mae'r rhaglen grant tai cymdeithasol fechan a'r pryniant parhaus ar eiddo dan yr Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael yn erydu'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Byddwn yn cyrraedd y sefyllfa'n fuan lle na fydd yn medru diwallu'r galw gan bobl ddigartref.'

- diffyg cydweithio effeithiol;

‘Rydym yn cael peth anhawster, fel gyda chyn garcharorion, wrth ddarparu llety oherwydd problemau gydag ymwneud ag asiantaethau eraill o fewn amserlen resymol.’

‘Gall rhai sy’n cael eu cyfeirio greu problemau pan nad oes gan yr asiantaeth gyfeirio ddealltwriaeth glir o’r ddeddfwriaeth gyfredol a disgwyliadau uwch o’r gwasanaeth na’r hyn y gellir ei gynnig.’

- anawsterau wrth gael cymdeithasau tai i gydweithredu wrth ailgartrefu cyfran addas o aelwydydd digartref;

‘Gall y broses gyfeirio i gymdeithasau tai gymryd hyd at bythefnos. Gall cymdeithasau fod yn gyndyn o dderbyn ymgeiswyr digartref, yn arbennig os byddant yn dangos anghenion uchel o ran cefnogaeth.’

- ar gyfer awdurdodau gwledig, anhawster wrth ddarparu gwasanaeth digartrefedd effeithiol mewn cymunedau gwasgaredig, gan gynnwys darparu lleoliadau i gyflwyno ac asesu, yn ogystal ag

atebion dros-dro a pharhaol i broblemau llety.

‘Mae dosbarthiad staff digartrefedd ar draws y Sir gyfan yn creu problemau, yn arbennig os oes nifer o achosion anodd.’

4.3 Mynegwyd pryderon am ddatblygiadau polisi yn y dyfodol hefyd gan rai awdurdodau, er enghraifft, yng nghyswllt cyflwyno gosodiadau ar sail dewis:

‘Mae’n ofynnol rhoi sylw arbennig i sicrhau bod grwpiau dan anfantais fel pobl ddigartref a’r rhai gyda phroblemau iechyd meddwl yn cael cymorth i lenwi ffurflenni cofrestru a’u bod yn cael yr un dewis, o fewn rheswm, ag ymgeiswyr eraill.’

4.4 Yng nghyswllt yr hyn y gall yr awdurdodau eu hunain ei wneud i oresgyn y problemau a ddynodwyd, mae’r tabl yn dangos yr ymateb a nodwyd gan fwy nag un awdurdod. Yr ymateb a nodwyd yn fwyaf cyffredin oedd cynyddu’r ddarpariaeth o lety dros-dro, gwella trefniadau gweithio ar y cyd, a chynyddu argaeledd cefnogaeth i aelwydydd digartref.

Tabl 11: Rôl awdurdodau wrth oresgyn problemau

Yr hyn y gallai awdurdodau ei wneud eu hunain i oresgyn problemau gyda gweithredu'r gyfraith a'r Côt Ymarfer	Nifer o awdurdodau sy'n nodi'r ymateb hwn
Cynyddu'r ddarpariaeth o lety dros-dro, gan gynnwys ar gyfer grwpiau penodol	6
Datblygu a mireinio protocolau a threfniadau cydweithio gydag adrannau/asiantaethau eraill	4
Cynyddu argaeledd cefnogaeth i aelwydydd digartref	4
Cynyddu'r mynediad i lety parhaol sy'n bodoli i ymgeiswyr digartref trwy adolygu polisiau ac arferion gosod	3
Cynyddu cydnabyddiaeth gorfforaethol i ddigartrefedd	3
Cynyddu'r ffocws ar atal	3
Cynyddu'r adnoddau o fewn yr adran ddigartref	2
Cynyddu'r ddarpariaeth o lety parhaol	2
Datblygu rôl ganolog i strategaethau digartrefedd i ymdrin â'r pryderon perthnasol	2

(Ffynhonnell: ymateb i holiadur awdurdod lleol)

4.5 Mae'r tabl isod yn dangos yr ymateb a nodwyd gan fwy nag un awdurdod o ran beth y gallai partneriaid ei wneud i oresgyn y problemau a nodwyd. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd i

gymdeithasau tai dderbyn mwy o aelwydydd digartref ar gyfer ailgartrefu parhaol, i'r holl gyrrff oedd yn bartneriaid gynorthwyo i ddarparu llety dros dro, ac i gymdeithasau adolygu eu polisiau allgau.

Tabl 12: Rôl partneriaid i oresgyn problemau

Yr hyn y gallai partneriaid ei wneud i oresgyn problemau gyda gweithredu'r gyfraith a'r Côt Cyfarwyddyd	Nifer o awdurdodau yn nodi'r ymateb hwn
Derbyn mwy o aelwydydd digartref i'w hailgartrefu'n barhaol	8
Cynorthwyo i ddarparu llety dros-dro	5
Diwygio'r polisiau allgau	4
Darparu llety ychwanegol ar gynlluniau fydd yn cefnogi strategaeth ddigartrefedd	3
Deall dyletswyddau a chyfyngiadau awdurdod lleol yn well	3
Cyfeirio achosion yn gynnar cyn i argyfwng ddigwydd	2
Rhoi cyngor realistig i gleientiaid am ddewisiadau tai	2
Rhannu gwybodaeth	2

(Ffynhonnell: ymatebion i holiadur awdurdodau lleol)

4.6 Mae'r tabl isod yn dangos yr ymatebion a roddwyd gan fwy nag un awdurdod o ran yr hyn y gall y Cynulliad ei wneud i oresgyn y problemau a nodwyd. Nid yw'n annisgwyl mae'r ymateb mwyaf cyffredin oedd darparu mwy o adnoddau,

gan gynnwys y rhai ar gyfer llety parhaol, dros-dro a gyda chefnogaeth. Arweiniad cliriach, adolygu'r grwpiau angen blaenoriaeth a mwy o bwyslais ar atal digartrefedd oedd yr ymatebion eraill a nodwyd amlaf.

Tabl 13: Rôl y Cynulliad wrth oresgyn problemau

Yr hyn y gallai'r Cynulliad ei wneud oresgyn problemau gyda gweithredu'r gyfraith a'r Côt Cyfarwyddyd	Nifer o awdurdodau a nododd yr ymateb hwn
Cynyddu adnoddau (gan gynnwys llety parhaol, dros-dro a gyda chefnogaeth)	
Darparu cyfarwyddyd cliriach	6
Adolygu grwpiau angen sy'n cael blaenoriaeth	5
Darparu mwy o bwyslais ar atal e.e. ariannu gwasanaethau cyfryngu	
Cynyddu ymwybyddiaeth o ddigartrefedd fel mater canolog	3
Sicrhau bod yr holl asiantaethau yn cyflawni eu hymrwymadau	3
Cynyddu'r rheoleiddio ar y sector preifat ar rent	2

(Ffynhonnell: Ymateb i Holiadur Awdurdodau Lleol)

4.7 Mae'r Cynulliad yn bwriadu gwario £4.7 miliwn ar ddigartrefedd a chysgu allan yn ystod 2003/4. O fewn y gwariant hwn

a fwriedir mae'r Cynulliad yn darparu cyllid ar gyfer y prosiectau canlynol i atal ac ymdrin â digartrefedd o 2003/4 ymlaen.

Tabl 14: Crynodeb o brosiectau digartrefedd a ariennir gan y Cynulliad o 2003/4 ymlaen

Prosiectau ar sail awdurdod					
Math o brosiect	Ardal Awdurdod	Corff gwirfoddol	Cyllid 2003/04	Cyllid 2004/05	Cyllid 2005/06
Gwasanaethau Cynghori Tai	Caerdydd	Somali Progressive Association	£25,050	£25,626	£27,508
	Conwy	Shelter Cymru	£43,109	£48,842	£53,544
	Gwynedd	Shelter Cymru	£43,109	£48,842	£53,544
Gwasanaethau Cynghori Arian	Torfaen	CAB Torfaen	£31,400	£30,676	£31,596
Gweithwyr Cynghori Arbenigol	Caerffili Caerdydd	Gofal	£36,439	£35,359	£36,571
		Big Issue Cymru	£20,902	£31,276	£32,165
Cyngor a Chefnogaeth	Castell-nedd Port Talbot Rhondda Cynon Taf	Gofal	£68,763	£69,763	£79,722
		Shelter Cymru	£24,761	£48,842	£53,543
Gwasanaethau Allestyn	Ynys Môn Pen-y-bont ar Ogwr Ceredigion Abertawe	The Lighthouse	£45,393	£47,351	£45,787
		Wallich Clifford	£31,622	£31,463	£33,036
		Wallich Clifford	£31,622	£31,463	£33,036
		Caer Las Cymru	£76,055	£119,208	£122,978
Adsefydlu/ Cefnogaeth	Gwynedd Casnewydd Abertawe	CT Gogledd Cymru	£44,000	£60,000	£60,000
		Big Issue Cymru	£23,544	£28,808	£29,614
		Big Issue Cymru	£22,821	£28,631	£29,433
Llochesi Argyfwng/ Mynediad Uniongyrchol	Sir Ddinbych Gwynedd	Nacro Cymru	-	£4,990	£5,345
		CT Gogledd Cymru	£87,500	£87,500	£87,500
Cynlluniau Dodrefn	Wrecsam	WATCH	£10,600	£2,100	£2,100
Cynlluniau Bond	Caerffili Conwy Sir Ddinbych Sir y Fflint Sir Fynwy Casnewydd Sir Benfro	Tai Trothwy	£41,175	£69,875	£71,805
		Nacro Cymru	£30,012	£48,419	£50,312
		YMCA's	£45,185	£42,148	£43,100
		NASH	£31,519	£36,338	£38,374
		NASH	£35,225	£56,137	£59,598
		Pembs Care Society	£109,503	-	-
Rhaglen Aeaf	Caerdydd	CASH/Byddin yr Iachawdwriaeth	£97,143	£100,767	£104,533
	Wrecsam	WATCH	£4,400	£4,565	£4,750

Prosiectau Cymru Gyfan					
	Corff	Crynodeb o'r prosiect	Cyllid 2003/04	Cyllid 2004/05	Cyllid 2005/06
Prosiectau Cymru gyfan	Triongl Cymru	Ymchwil i anghenion pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol digartref ledled Cymru	£36,940	-	-
	Tai Dysgu a Gwaith Cymru	Cefnogi cyfnod cychwynnol cymdeithas genedlaethol newydd yng Nghymru ar gyfer prosiectau sy'n cynnig gwasanaeth integredig o dai â gofal a hyfforddiant i bobl ddigartref	£36,000	£27,040	-
	Homeless Link	I alluogi Homeless Link i gefnogi a chynrychioli ei haelodau yng Nghymru	£77,301	£81,525	£84,060
Cyfanswm			£1,211,093	£1,247,554	£1,273,554

(Yr holl ffigyrau wedi eu talgrynnu i'r £ agosaf)

Crynodeb o'r bennod

4.8 Yn y bennod hon rydym yn crynhoi'r prif broblemau a ddynodwyd gan gyrff, sef diffyg:

- Adnoddau staff;
- Protocolau rhwng gyrff i gyfnewid gwybodaeth;
- Ystod addas o lety dros-dro ar gyfer grwpiau penodol;
- Llety parhaol;
- Cydweithio.

4.9 Mae'r problemau eraill yn ymwneud â'r anhawster i gael LCC i gydweithio i gartrefu pobl ddigartref, ac i awdurdodau gwledig, materion ymarferol wrth gynnig gwasanaeth i gymunedau gwasgaredig.

4.10 Mae'r bennod yn cynnwys yr atebion a awgrymir i'r problemau hyn ac yn dynodi'r camau ar gyfer awdurdodau lleol, partneriaid a'r Cynulliad i oresgyn y problemau.

4.11 Trafodir cyllid y Cynulliad ar gyfer prosiectau penodol hefyd.

4.12 Mae'r bennod nesaf yn nodi ein casgliadau a'n hargymhellion.

Pennod Pimp

Casgliadau ac Argymhellion

5.1 Golwg gyffredinol ar y casgliadau

5.1.1 Yn yr adran hon rydym yn nodi casgliadau'r adolygiad. Tynnir casgliadau ar gyfer pob un o brif agweddau'r broses ddigartrefedd statudol ac ar gyfer grwpiau cleientiaid penodol.

5.1.2 Mae'r adolygiad wedi archwilio'r ffordd y mae awdurdodau lleol trwy Gymru wedi gweithredu'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd, fel y tystia canlyniadau'r arolwg, trafodaethau'r dyddiau ymchwilio a'r adroddiadau, polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig. Yn gyffredinol fe ddaethom o hyd i enghreifftiau o ymarfer da, a phrosiectau blaengar ac effeithiol. Fe wnaethom ddarganfod enghreifftiau hefyd lle nad oedd cydymffurfio llwyr gyda'r ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddyd. Nid yw natur yr ymchwil a wnaed ar gyfer yr adolygiad yn caniatáu i ni dynnu casgliadau penodol am y graddau y mae awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r polisiâu a'u gweithdrefnau eu hunain. Byddai hyn yn gofyn am dechnegau nad oedd yn rhan o'n dull gweithredu, fel arsylwi ar gyfweiliadau digartrefedd ac olrhain achosion unigol.

Cyngor ac atal

5.1.3 Ar adeg yr adolygiad roedd nifer o awdurdodau lleol yn cydnabod nad oedd ansawdd ac argaeledd y cyngor yr oeddynt yn ei gynnig yn ddigonol i roi gwybod i'r ymholwyr am yr holl ddewisiadau tai posibl ac nad oeddynt yn bodloni holl ofynion Deddf Digartrefedd 2002 i gynnig mwy o gyngor a chymorth i bobl nad oes dyletswydd i sicrhau tai iddynt. Mae rhai

ar ganol diweddarau llenyddiaeth ac adolygu'r ffyrdd y gall y cyhoedd gael gwybod am wasanaethau cynghori ac ataliol. Rhaid i gyrff gwirfoddol hefyd gael mwy o wybodaeth a chael copïau o lenyddiaeth berthnasol. Dim ond 3 allan o 22 o wasanaethau cynghori awdurdodau lleol sydd wedi cael Nod Ansawdd y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, mesur ansawdd a ddilyswyd. Mae'r enghreifftiau o waith ataliol yn cynnwys defnyddio deunyddiau addysg Shelter Cymru mewn ysgolion a gwasanaethau cynghori o ansawdd uchel, gan gynnwys y rhai a gyfeiriwyd yn arbennig ar gyfer anghenion pobl ifanc a chyn droseddwyr.

Cyflwyniad, cyfeirio ac asesiad cyntaf

5.1.4 Mae'r dadansoddiad ar y broses asesu gyntaf yn amlygu'r ymagweddau amrywiol sy'n bodoli. Mae'r rhain yn amrywio rhwng awdurdodau lleol ac yn ôl grŵp client.

5.1.5 Mae'r ymchwil a wnaed gan Shelter Cymru i gynhyrchu eu cyhoeddiad, **Cyswllt Cyntaf**, yn dynodi y gall cyfuniad o wasanaethau derbyn gwael a safon isel y cyngor a roddir gan rai awdurdodau arwain at sefyllfa lle na fydd pobl yn cael y gwasanaeth y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Gall cysylltu â'r gwasanaethau tu allan i oriau swyddfa mewn ardaloedd gwledig hefyd fod yn broblem. Ond mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau dimau asesu digartrefedd penodol i ymdrin ag ymgeiswyr pan fyddant yn cyflwyno fel rhai digartref neu rai all fod yn ddigartref.

5.1.6 Mae nifer fawr o wahanol drefniadau cysylltu yn eu lle rhwng awdurdodau a chyrff eraill. Mae ansawdd y berthynas waith, lefel y ddealltwriaeth rhwng awdurdodau ac asiantaethau, a'r protocolau y cytunwyd arnynt yn elfennau hanfodol o drefniadau cyfeirio da. Mae enghreifftiau o drefniadau effeithiol gyda Thimau Troseddwr Ifanc ac asiantaethau yn cynorthwyo'r rhai sy'n gadael y carchar, er bod cyfeirio anaddas yng nghyswllt troseddwr yn ardal nifer o awdurdodau lleol yn awgrymu'r angen i wella'r trefniadau rhyngasiantaethol.

5.1.7 Mae canfyddiadau'r adolygiad yn dangos bod gan bobl ddigartref brofiadau gwahanol o'r broses cyflwyno ac asesu digartrefedd. Mae hyn yn amrywio yn ôl lleoliad, natur y grŵp cleient y maent yn rhan ohono, a'r penderfyniad terfynol. Mae'r anawsterau penodol y soniwyd amdanynt yn cynnwys diffyg sensitifrwydd i anghenion yr unigolyn am breifatrwydd neu gefnogaeth wrth ddeall ffurflenni cymhleth, ceisiadau am wybodaeth gefnogol lle nad yw hynny'n ofynnol dan y ddeddf, oedi wrth ymdrin ag achosion o "denantiaid all fod yn aneniadol", a'r angen am gefnogaeth i herio casgliadau ar fod yn fwriadol ddigartref.

Y broses lunio penderfyniadau, hysbysiadau ac apeliadau

5.1.8 Mewn rhai enghreifftiau nid yw awdurdodau lleol yn medru cyflawni'r gofyn i gwblhau ymholiadau o fewn 33 diwrnod. Mae hyn yn bennaf mewn achosion pan fyddant yn aros am wybodaeth gan drydydd parti. Mae'r holl awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r gofyn i ddarparu llythyr hysbysu Adran 184, er bod lle i gynnwys esboniad llawnach ar y rhesymau mewn rhai enghreifftiau.

5.1.9 Nid oedd wyth awdurdod wedi cynnal prosesau apêl ffurfiol ar adeg yr

adolygiad, er eu bod efallai wedi adolygu penderfyniadau yn dilyn her cyn apêl ffurfiol. Nid oedd gan rai awdurdodau yr wybodaeth angenrheidiol i ymateb i'r cwestiwn yn yr arolwg ar apeliadau. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwella'r gweithdrefnau casglu data.

Darparu llety addas

5.1.10 Mae darparu llety dros-dro a pharhaol yn peri problemau i nifer o awdurdodau. Weithiau mae rhai awdurdodau yn methu cyflawni eu dyletswydd at unigolion neu aelwydydd gan nad oes llety addas ar gael. Mae llety dros-dro yn brin mewn rhai ardaloedd ac ar gyfer grwpiau cleientiaid penodol, e.e. cyn-droseddwr, neu bobl sy'n gaeth i gamddefnyddio sylweddau neu alcohol. Cyfyngedig yw llwyddiant awdurdodau lleol wrth weithio gyda landlordiaid sector preifat i sicrhau a chadw llety, yn arbennig ar gyfer cleientiaid y mae arnynt angen cefnogaeth.

5.1.11 Mae awdurdodau lleol yn defnyddio gwely a brecwast a llety tu allan i'r ardal i fodloni'r galw am lety dros-dro, er gwaethaf y ffaith bod natur llety gwely a brecwast yn ei wneud yn anaddas i grwpiau digartref hawdd eu niweidio, yn arbennig pobl ifanc hawdd eu niweidio. Mae'r defnydd o leoliadau tu allan i'r ardal yn tyfu mewn nifer o ardaloedd, gyda'r problemau dilynol o bobl yn colli cysylltiad gyda rhwydweithiau cefnogi lleol a gwasanaethau cefnogi. Mae'r defnydd o lety gwely a brecwast tu allan i'r ardal yn gwaethygu'r prinder o ddewisiadau llety dros-dro lleol.

5.1.12 Mae angen gwell cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol a LCC i ymdrin â phryderon yr awdurdodau bod LCC yn defnyddio polisiau allgau i gyfyngu'r nifer o bobl ddigartref a gartrefir yn barhaol.

5.1.13 Achos pryder arall yw'r defnydd gan awdurdodau lleol o'u polisiâu allgau i atal aelwydydd digartref rhag cael eu cartrefu'n barhaol o fewn eu stoc eu hunain. Tra gall awdurdodau ddefnyddio polisiâu allgau (cyfyng) ar gyfer ymgeiswyr sy'n ymgeisio trwy'r gofrestr tai, ni allant yn gyfreithlon gyfyngu eu dyletswydd tuag at y digartref.

Grwpiau penodol

5.1.14 Isod rydym yn asesu'r prif gasgliadau ar gyfer grwpiau penodol o ymgeiswyr digartref

Personau sy'n gymwys i dderbyn cyngor a chymorth: Mewn rhai ardaloedd mae angen gwella ansawdd ac argaeledd y cyngor a roddir gan awdurdodau lleol a thrwy asiantaethau eraill. Mae cyswllt tu allan i oriau swyddfa yn broblem arbennig mewn ardaloedd gwledig. Mae angen i staff fod yn fwy cynhwysol yn eu hagwedd at ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig.

Aelwydydd lle mae aelod yn feichiog neu â phlant dibynnol: Ychydig o dystiolaeth sydd o broblemau mewn asesiadau parthed y grŵp hwn. Mae pryderon parthed natur ac addasrwydd llety dros-dro, yn arbennig pan fydd gwahanol grwpiau cleientiaid yn gorfod rhannu llety, e.e. materion amddiffyn plant.

Ymgeiswyr 16-17 oed: Tra bod rhai awdurdodau wedi datblygu gwasanaethau cefnogi a chynghori penodol ar gyfer y grŵp hwn, a bod llawer yn gweithio gydag asiantaethau gwirfoddol neu wasanaethau cymdeithasol i ddiwallu eu hanghenion, rhaid i eraill gydnabod bod pobl ifanc hawdd eu niweidio angen cymorth i gwblhau ochr ffurfiol y broses ddigartref. Mae awdurdodau'n cael problemau sylweddol wrth drefnu llety dros-dro addas a darganfod llety parhaol addas a chefnogaeth i'r grŵp hwn.

Rhai sy'n gadael gofal: Adroddodd awdurdodau lleol ar ystod o brotocolau gyda gwasanaethau cymdeithasol, asiantaethau gwirfoddol a LCC i gefnogi rhai sy'n gadael gofal gyda'u anghenion tai a chefnogaeth. Er nad ydynt yn ddiwriad bob amser, yn y rhan fwyaf o ardaloedd mae bwriad cyffredin y dylai'r rhai sy'n gadael gofal gael eu cartrefu mewn dull ar wahân i'r broses ddigartrefedd prif-ffrwd.

Personau hawdd eu niweidio oherwydd eu hoedran, anabledd corfforol, iechyd meddwl/anabledd dysgu: Mae peth tystiolaeth o angen i ddatblygu gwell protocolau gydag awdurdodau iechyd fel nad yw rhyddhau o'r ysbyty yn arwain at ddigartrefedd, ac fel bod cefnogaeth i bobl unwaith y maent yn cael eu cartrefu. Mae sôn hefyd am angen i ymgeiswyr gael cwmni staff gofal iechyd fel cam cefnogi yn ystod cyfweiliadau, a phryder ar y lefel uchel o gyfiawnhad sy'n angenrheidiol i dderbyn pobl fel rhai sy'n hawdd eu niweidio ar sail iechyd meddwl.

Personau sy'n hawdd eu niweidio oherwydd trais yn y cartref: Mae'r awdurdodau'n gyffredinol yn ymwybodol o'r angen holl bwysig i sicrhau diogelwch yr ymgeisydd. Tra bod y mwyafrif o awdurdodau'n dibynnu ar ddatganiad yr ymgeisydd, mae nifer o awdurdodau'n ceisio gwybodaeth gefnogol gan asiantaethau eraill. Nid yw hyn yn cyd-fynd â gofynion y ddeddfwriaeth na'r Côt Cyfarwyddyd. Rhoddir cydnabyddiaeth i rôl bositif Cymorth i Fenywod trwy Gymru.

Cyn-droseddwyr: Mae tystiolaeth glir bod nifer o awdurdodau'n gosod cyfyngiadau amser mympwyol wrth asesu ceisiadau gan gyn-droseddwyr. Nid yw'r Côt Cyfarwyddyd yn gosod unrhyw gyfyngiadau amser. Mae problemau hefyd gyda diffyg cyfeiriadau wedi eu cynllunio gan garchardai cyn i'r troseddwyr gael eu

rhyddhau, cyfeiriadau wedi eu hamseru'n wael gan Dimau Prawf a Throseddwy Ifanc, ac wrth ddod o hyd i lety dros-dro a pharhaol addas.

Cyn aelodau o'r lluoedd arfog: Mae cyfyngiadau mympwyol tebyg ar geisiadau'n cael eu gosod gan rai awdurdodau lleol.

Rhesymau eraill am fod yn agored i niwed: Nododd yr holl awdurdodau bod pob achos yn cael ei asesu ganddynt ar ei deilyngdod, yn ôl y gofyn cyfreithiol. Mae hyn yn gadael lle i wahaniaethau rhwng ymagweddau awdurdodau nad ydynt yn gysylltiedig ag anghenion neu amgylchiadau unigolion.

Bwriadol ddigartref: Nododd pob awdurdod bod pob achos yn cael ei asesu yn ôl teilyngdod. Mae materion tebyg o anghysondeb posibl mewn ymagwedd ag sydd yn y categori rhesymau eraill am fod yn agored i niwed.

5.2 Golwg gyffredinol ar yr argymhellion

5.2.1 Yn yr adran hon rydym yn nodi ein hargymhellion. Mae'r rhain wedi eu rhannu yn argymhellion ar gyfer y Cynulliad, ar gyfer y Cynulliad a'i bartneriaid, ar gyfer awdurdodau lleol, ac ar gyfer asiantaethau eraill. Mae'n amlwg oddi wrth yr adolygiad bod gwelliannau i weithrediad y ddeddfwriaeth a gwell canlyniadau i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn gofyn am i'r holl bartion ganolbwyntio ar weithio gyda'i gilydd i leddfu digartrefedd a sicrhau bod ymarfer effeithiol yn cael ei feithrin ac yn cael adnoddau cywir.

5.2.2 Yn ystod y broses adolygu, fe wnaethom ddarparu adroddiad i'r Cynulliad ar y materion ar gyfer y Côt Cyfarwyddyd oedd yn codi o'r adolygiad, a sylwadau i'w

bwydo i ail-ddrafftio'r strategaeth ddigartrefedd genedlaethol. Gwelir y rhain yn Atodiadau 8 a 9.

5.2.3 Datblygwyd yr argymhellion isod yng nghyd-destun nifer o ddatblygiadau polisi cyfredol yn ymestyn tu hwnt i ddigartrefedd. Yn gyntaf, argymhellion gan WLGA/Solace sy'n awgrymu y dylid cael pum cynllun allweddol dan y Cynllun Cymunedol tros-fwaol, un ohonynt yn ymdrin â lechyd a Lles Cymdeithasol. Yn ail, adolygu fframwaith y Cytundeb Polisi sy'n ceisio symud tuag at ddangosyddion ar sail canlyniad, a mesuriadau sy'n adlewyrchu'r effaith ar ansawdd bywyd a'r rôl y mae partneriaethau yn eu chwarae wrth ddarparu gwelliannau gwirioneddol i bobl.

5.3 Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru

5.3.1 Dylai'r Cynulliad:

- Ddatblygu cysylltiadau rhwng y Strategaeth Digartrefedd Genedlaethol a strategaethau eraill y Cynulliad, e.e. Strategaethau lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Cymuned a Phlant a Phobl Ifanc, fel bod gan atal a rheoli digartrefedd broffil mwy amlwg a mwy o bwyslais o fewn y Cynulliad;
- Diwygio'r Côt Cyfarwyddyd gan roi ystyriaeth i ganfyddiadau'r adolygiad hwn, fel y'u nodir yn Atodiad 8;
- Diwygio'r Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol gan roi ystyriaeth i ganfyddiadau'r adolygiad hwn, fel y'u nodir yn Atodiad 9;
- Adolygu'r ffyrdd y gall tai, gadael cartref, ac addysg cyflogaeth gael eu hadeiladu i mewn i gwricwlwm yr ysgolion uwchradd ac i waith y gwasanaeth ieuenctid;

- Cydnabod y bydd darparu ymagwedd sy'n rhoi pwyslais ar yr unigolyn (yn hytrach na'r gwasanaeth) ar gyfer y bobl sydd wedi dioddef fwyaf ac â mwyaf o angen cymorth arnynt yn debygol o fod yn ddrud o ran amser ac adnoddau;
- Bod yn ymwybodol o oblygiadau tymor hir y diffyg twf yn y dyraniad cyllideb ar gyfer tai cymdeithasol yn ystod y cyfnod 2003-2006, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae'r dewis o gartrefi yn gyfyngedig. Mae'r stoc tai cymdeithasol ledled Cymru yn lleihau gyda'r nifer o dai a adeiladir gan gymdeithasau tai yn llai na'r nifer o gartrefi cyngor a chymdeithas adeiladu a werthir trwy'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael;
- Dyrannu adnoddau ychwanegol penodol ar gyfer digartrefedd, gan gynnwys atal digartrefedd, fel bod ansawdd y gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cefnogi, a natur y llety yn bodloni anghenion y rhai sy'n cael eu hallgau fwyaf yn y modd gorau;
- Darparu adnoddau ar gyfer llety dros-dro ychwanegol ac annog cynlluniau fel cynlluniau pryddlesu LCC/sector preifat sy'n lleihau'r defnydd o wely a brecwast;
- Asesu a yw'n bosibl ymestyn cyfnod y cyllid a ddarperir i'r sector dim-gwneud-elw (gwirfoddol) fel nad yw cyfyngiadau ariannu tymor byr yn cael effaith niweidiol ar y gwasanaethau;
- Asesu'r manteision a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chynlluniau bond a dewisiadau eraill, fel taliadau arian parod i landlordiaid, ac yn amodol ar ganlyniad, darparu adnoddau ar gyfer cynlluniau bond a/neu ddewisiadau eraill yn ardal pob awdurdod lleol.
- Cefnogi mentrau awdurdodau lleol i annog landlordiaid sector preifat i ddarparu llety i aelwydydd digartref, gan gydnabod cyfyngiadau'r sector preifat wrth gyflawni'r swyddogaeth hon;
- Gweithio gyda chymdeithasau trosglwyddo i sicrhau bod digon o dai ar gael ar gyfer aelwydydd digartref wedi eu trosglwyddo;
- Adolygu casglu ystadegau monitro, esbonio perthnasedd yr ystadegau a gesglir wrth awdurdodau lleol, a chyhoeddi mwy o gyfarwyddyd i gynorthwyo cysondeb yn yr adroddiadau. Dylai'r ystadegau ddal gwybodaeth ar atal digartrefedd, efallai trwy wahaniaethu rhwng ymholiadau, cyflwyniadau ffurfiol a derbyniadau;
- Sicrhau bod polisi derbyn/allgau cenedlaethol cyson, nid yn unig o ran darpariaeth awdurdodau lleol, ond hefyd o ran darparwyr tai cymdeithasol eraill;
- Gweithredu yng nghyswllt awdurdodau anufudd, wedi ei arwain gan adroddiadau ystadegol a chanlyniadau archwiliadau'r Comisiwn Archwilio, gan ddefnyddio'r peirianweithiau sydd ar gael i ymyrryd dan brotocolau y cytunwyd arnynt. Bydd hyn yn cynnwys ail gyhoeddi cyfarwyddyd am rôl aelodau wrth ddod i benderfyniadau ar osod;
- Cyhoeddi nodiadau cynghori cyson ar newidiadau deddfwriaethol, y canlyniadau dymunol, a dulliau ymarfer gorau ar gyfer cyflawni canlyniadau i awdurdodau lleol, cyrff gwirfoddol a darparwyr tai a chefnogaeth eraill;
- Trefnu fforwm cyson yn cynnwys swyddogion y Cynulliad ac ymarferwyr ym maes digartrefedd o

bob rhan o Gymru fel y gellir trafod materion sy'n peri pryder, trafod problemau a rhannu ymarfer effeithiol;

- Comisiynu hyfforddiant i staff awdurdodau lleol, ac eraill, ar agweddau penodol o ddigartrefedd, fel gweithio gyda menywod sydd wedi profi trais yn y cartref, fel bod ymagwedd gyson yn cael ei chymryd gan bob awdurdod a chorff perthnasol yng Nghymru;
- Gwella'r modd y mae gwybodaeth gwerthuso prosiectau ac ymarfer da yn deillio o brosiectau Adran 180 yn cael ei gasglu a'i rannu, trwy gronfa ddata ar wefan y Cynulliad ac efallai rhaglen o seminarau.

5.4 Argymhellion ar gyfer y Cynulliad a'i bartneriaid

5.4.1 Dylai'r Cynulliad:

- Weithio gyda'r WLGA i ddatblygu targed addas ar gyfer atal digartrefedd i'w gynnwys yn y rownd nesaf o Gytundebau Polisi. Gallai targed o'r fath ganolbwyntio ar leihau digartrefedd o'i gymharu â'r prif resymau am ddigartrefedd mewn unrhyw ardal unigol. Gall y diffiniad o atal fod yr un a ddefnyddir gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog: *'gweithgareddau sy'n galluogi aelwyd i aros yn eu cartref presennol, pan fydd hynny'n addas, neu sy'n cynnig dewisiadau i alluogi iddynt symud mewn modd wedi ei gynllunio ac yn amserol a helpu i gynnal byw'n annibynnol;*
- Adolygu dangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer digartrefedd i ystyried cynnwys, er enghraifft, mesur o'r lefel o atal a gyflawnwyd. Gall hyn fod yn gyfran o aelwydydd a gyflwynodd fel rhai digartref pan

wnaeth yr awdurdod ymyrryd i atal digartrefedd rhag digwydd. Dylai'r Cynulliad sicrhau bod hyn yn disgyn o fewn cwmpas adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o fframwaith mesur perfformiad llywodraeth leol Cymru;

- Gweithio gyda Syniad a'r WLGA i sicrhau bod atal ac ymdrin â digartrefedd yn cael sylw ym mheirianweithiau arfaethedig Cynllun Rhagoriaeth Cymru i ddynodi a rhannu ymarfer da profedig ac ymarfer blaengar a newydd, a bod digartrefedd yn cael ei gydnabod fel thema ynddo ei hun;
- Gweithio gyda'r WLGA i ddatblygu dogfen frifio yn cynnwys y negeseuon pwysicaf o'r Côt Cyfarwyddyd a'r Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol i aelodau;
- Gyda chyfraniad y WLGA a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru, datblygu protocolau ar gyfer enwebiadau sengl gorfodol pobl ddigartref i LCC, ac ymgorffori cyfeiriad at hyn a'r angen i LCC weithio i atal ac ymdrin â digartrefedd yn y Côt Rheoleidiol ar gyfer Cymdeithasau Tai;
- Gyda chyfraniad y gwasanaeth Prawf, datblygu protocolau model ar gyfer trefniadau rhyng-awdurdod ar gyfer troseddwyr Atodlen 1;
- Trefnu'n uniongyrchol, neu trwy asiantaeth arall, fel Shelter Cymru, bod gwefan i Gymru'n cael ei datblygu yn cynnwys cronfa ddata o gyfarwyddyd a dogfennau ymarfer da. Gall hyn fod ar ffurf cysylltiadau gyda ffynonellau sy'n bodoli eisoes ar ymarfer da yn bennaf;

- Parhau i weithio gyda chyrff sy'n cynorthwyo pobl ddigartref wrth fonitro ac adrodd ar ddarparu gwasanaethau awdurdod lleol.

5.5 Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol

Yn gyffredinol:

5.5.1 Dylai awdurdodau lleol:

- Weithredu'r argymhellion yng nghyhoeddiad Shelter Cymru **Cyswllt Cyntaf**, a dilyn Llwybr Gwelliant yr WLGA sydd yn yr adroddiad.

Cyngor/atal

5.5.2 Dylai awdurdodau lleol:

- Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu, gweithredu ac adolygu eu strategaethau digartrefedd:
 - o gynnal archwiliadau ar ddarparu cyngor tai yn eu hardaloedd;
 - o nodi'r camau i'w cymryd i lenwi'r bylchau a ddynodwyd;
 - o sicrhau bod gofynion Deddf (Diwygio) Cysylltiadau Hil 2000 a chynllun cydraddoldeb hiliol yr awdurdod ei hun yn cael eu cyflawni;
 - o ystyried a yw tasgau rheoli tai craidd, e.e. casglu rhent, rheoli tenantiaeth, atgyweirio ac ati, yn cyfrannu tuag at neu'n gweithio yn erbyn atal digartrefedd;
 - o datblygu cynllun gweithredu i ddiwygio polisïau rheoli tai a gweithdrefnau er mwyn cynorthwyo i atal digartrefedd;
 - o dynodi ble y gall cysylltu cymorth crwydrol gyda'r rhai sy'n ddigartref

dro ar ôl tro atal digartrefedd eto, a defnyddio'r cyfle a gynigir gan Cefnogi Pobl i roi cefnogaeth o'r fath yn ei le;

- o sicrhau bod peirianweithiau Cynllunio Gweithredu Cefnogi Pobl yn cael eu defnyddio i ymdrin ag anghenion pobl ddigartref o ran cefnogaeth;
- o datblygu ymagweddau tuag at weithio gyda'r sector preifat, gan gynnwys defnyddio taliadau budd-dâl tai eithriadol, i gynnal tenantiaethau;
- o monitro effeithiau polisïau allgau a thenantiaethau rhagarweiniol ar ddigartrefedd yn lleol.

- Sicrhau bod y cyngor tai a roddir yn bodloni anghenion Deddf Digartrefedd 2002, h.y. yn cael ei dargedu at anghenion penodol yr unigolyn yn dilyn asesiad o'r anghenion hynny;
- Cefnogi darparu cyngor tai annibynnol i gynorthwyo i atal, a darparu cymorth i gyrff sy'n profi a herio penderfyniadau a wnaed gan yr awdurdod lleol ar achosion digartrefedd unigol;
- Gweithio tuag at Nod Ansawdd y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol am eu gwasanaeth cyngori tai;
- Rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau cyngor tai i bob asiantaeth, ynghyd â pheirianwaith cyfeirio i atal cymaint o ddigartrefedd ag sy'n bosibl;
- Datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd cyngor tai i atal digartrefedd gyda systemau cofnodi a fydd yn galluogi achosion lle llwyddwyd i atal digartrefedd i gael eu hadnabod;

- Rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau cynghori tai;
- Cymryd camau ymarferol i sicrhau bod gadael cartref a dewisiadau tai yn cael eu trafod fel rhan o Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgolion a/neu ei drafod mewn clybiau ieuencid a chyfleusterau e.e. ymgorffori 'HouseMate' a deunyddiau addysgol eraill a gynhyrchwyd gan Shelter Cymru yn rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol;
- Archwilio rôl cyfryngu'n llawn i atal digartrefedd a chefnogi datblygiad gwasanaethau cyfryngu lleol.

Cyflwyno/asesu/gwneud penderfyniadau/cyfeirio

5.5.3 Dylai awdurdodau lleol:

- Ddynodi cyllideb hyfforddi ar gyfer staff digartrefedd a sicrhau fod ganddynt fynediad digonol at hyfforddiant, gan gynnwys cyfraith achos berthnasol;
- Ystyried trefniadau rhwng awdurdodau ar gyfer darparu gwasanaethau tu allan i oriau swyddfa;
- Sicrhau bod cyfleusterau derbynfa ar gyfer ymgeiswyr yn hawdd eu defnyddio, mewn lleoliadau addas i fod yn hygyrch, a bod pob ymgeisydd yn cael ei drin mewn modd sensitif gyda phreifatrwydd addas;
- Darparu llawlyfr hawdd ei gyrraedd i'r ddeddfwriaeth i asiantaethau sy'n bartneriaid a'r cyhoedd;
- Dilyn y Côt Cyfarwyddyd pan yn derbyn ymgeiswyr o blith y cyn droseddwyr ac ymatal rhag gosod amserlenni mympwyol ar gyfer derbyn ymgeiswyr;

- Sicrhau bod aelodau etholedig yn perfformio rôl addas, e.e. cadw at yr egwyddorion strategol y cytunwyd arnynt a pheidio ymwneud ag achosion unigol;
- Sicrhau bod pob llythyr Adran 184 yn cynnwys rhesymau llawn a chilir am y penderfyniad a wnaed ac yn cael ei ysgrifennu mewn iaith syml.

Sicrhau llety dros-dro/parhaol/cefnogaeth addas a rôl y LCC

5.5.4 Dylai awdurdodau lleol:

- Ddatblygu cynlluniau gosod i ragweld faint o lety dros-dro a pharhaol y bydd arnynt ei angen a defnyddio'r wybodaeth i gytuno ar dargedau gosod gyda'r adran tai a LCC;
- Trwy'r strategaeth ddigartrefedd, dynodi pan fydd prinder llety dros-dro a pharhaol a sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r diffyg yn cael ei fwydo trwodd i'r Strategaeth Tai Leol a pheirianwaith bidio addas;
- Ystyried rhoi mwy o ddewis i aelwydydd digartref o fewn y polisi gosod;
- Gweithio gyda LCC lleol i ddatblygu trefniadau enwebu addas a chael mynediad at lety dros-dro a pharhaol i bobl ddigartref;
- Defnyddio cynlluniau bond, neu gynlluniau eraill, i wella mynediad at y sector preifat ar rent;
- Gwneud y mwyaf o'r defnydd o daliadau tai eithriadol i alluogi mynediad at, a chynnal, tenantiaethau sector preifat ar rent;
- Archwilio llety dros-dro a gosod y safonau ar gyfer ei ansawdd;
- Cynnal cyswllt gydag aelwydydd a leolir tu allan i'r ardal a hysbysu awdurdod allanol am y lleoliad;

- Dynodi trwy'r strategaethau digartrefedd a ydynt yn methu cyflawni eu dyletswyddau digartrefedd statudol oherwydd diffyg llety dros-dro a/neu barhaol a pha mor aml y mae hynny'n digwydd;
- Bod yn ymwybodol o anghenion penodol grwpiau ethnig lleiafrifol, e.e. ar gyfer lletya teuluoedd mwy;
- Datblygu gwell cydweithio gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol, gan dynnu ar gyfarwyddyd ymarfer gorau.

Ariannu/adnoddau

5.5.5 Dylai awdurdodau lleol:

- Adolygu adnoddau ac addasu i'r newid yn y galw am wasanaethau er mwyn atal digartrefedd ac ymdrin ag ef;
- Asesu'r staff sy'n ofynnol i ddatblygu gwasanaethau ataliol, gan gynnwys cyfryngu, gweithio gyda'r sector preifat ac asiantaethau gwirfoddol.

Targedau/ystadegau a monitro

5.5.6 Dylai awdurdodau lleol:

- Fod yn gyson wrth gofnodi gwybodaeth ystadegol, o fewn yr awdurdod a gydag awdurdodau eraill, trwy sicrhau bod diffiniadau a osodir gan y Cynulliad yn cael eu mabwysiadu ac y cedwir atynt.

Perchenogaeth gorfforaethol a chael y defnyddwyr i gyfrannu

5.5.7 Dylai awdurdodau lleol:

- Weithio i godi proffil digartrefedd ar draws yr awdurdod, gan gynnwys gydag aelodau etholedig;
- Sicrhau bod strategaethau digartrefedd yn bwydo i mewn i

gynlluniau a strategaethau uwch, gan gynnwys y Strategaeth Tai Leol a'r Cynllun Cymunedol, fel bod perchenogaeth gorfforaethol ar ddigartrefedd;

- Dynodi a gwneud agendâu a welir fel rhai all wrthdaro yn gydnaws e.e. gellir gweld ailgartrefu cyn droseddwy fel rhywbeth sy'n gwrthdaro yn erbyn y polisi diogelwch cymunedol;
- Datblygu a rhoi cyhoeddusrwydd i safonau gwasanaeth clir ar gyfer digartrefedd ar y cyd gyda defnyddwyr y gwasanaeth.

5.6 Argymhellion ar gyfer asiantaethau eraill

5.6.1 Dylai LCC:

- Gydweithredu gydag awdurdodau sy'n bartneriaid iddynt wrth ddatblygu a chyflawni strategaethau digartrefedd;
- Ystyried secondiad staff rhyngddynt eu hunain ac awdurdodau lleol i gynorthwyo dealltwriaeth ac i wella rôl LCC fel darparwyr tai i bobl ddigartref;
- Sefydlu panel ar y cyd o staff awdurdod lleol a LCC i adolygu polisïau allgau sy'n effeithio ar ymgeiswyr digartref;
- Cytuno ar dargedau gosod ar gyfer ailgartrefu aelwydydd digartref gydag awdurdodau sy'n bartneriaid;
- Datblygu a chytuno ar drefniadau enwebu digonol a mynediad at lety dros-dro a pharhaol i bobl ddigartref.

5.6.2 Dylai gwasanaethau carchar/prawf:

- Gydweithredu gydag awdurdodau sy'n bartneriaid wrth ddatblygu a darparu eu strategaethau digartrefedd;
- Sicrhau bod cyngor ar dai ar gael i bob carcharor ymhell cyn eu dyddiad rhyddhau;
- Hyfforddi staff carchar/prawf i ymdrin â budd-dâl tai a chyswllt gyda landlordiaid. (Gall hyn gael ei ddarparu trwy weithio mewn partneriaeth fel y gwelir yn Wrecsam);
- Datblygu protocolau gydag adrannau digartrefedd ac asiantaethau gwirfoddol priodol i alluogi ymateb effeithiol ac amserol i anghenion tai unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar.

5.6.3 Dylai cyrff gwirfoddol:

- Gydweithredu gydag awdurdodau sy'n bartneriaid iddynt i ddatblygu a chyflawni eu strategaethau digartrefedd;
- Ymestyn mentrau hyfforddi ar y cyd gydag awdurdodau lleol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff ar ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd;
- Dynodi rôl a chyfrifoldebau o ran awdurdodau lleol, gan lunio protocolau i gefnogi'r gweithredu a'r berthynas waith.

5.6.4 Dylai grwpiau iechyd lleol a chyrrff iechyd perthnasol:

- Gydweithredu gydag awdurdodau sy'n bartneriaid wrth ddatblygu a chyflawni eu strategaethau digartrefedd;
- Datblygu protocolau gydag awdurdodau lleol, e.e. ar gyfer

rhyddhau o'r ysbyty, amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth feddygol, ac ati;

- Sicrhau mynediad digonol at wasanaethau iechyd i'r rhai sy'n ddigartref a/neu'n cysgu allan;

5.7 Pynciau i ymchwilio iddynt

- A yw cartrefu cyn-droseddwr fel categori angen sy'n cael blaenoriaeth yn gostwng y gyfradd o ail-droseddu;
- Sut ac i ba raddau y mae gwaith ataliol ar ddigartrefedd yn arbed adnoddau cyhoeddus yn y pendraw;
- Astudiaethau achos i ddadansoddi'r rhesymau am yr amrywiaeth mawr yn y gyfradd o gyflwyniadau a derbyniadau os bydd dadansoddiad ystadegol pellach yn profi bod hyn yn fater sy'n haeddu sylw;
- Dadansoddiad o anawsterau penodol a wynebwyd wrth ymdrin â digartrefedd yng nghefn gwlad, yn arbennig o ran darparu gwasanaethau hygrych.

Crynodeb o'r bennod

5.8 Yn y bennod hon rydym wedi nodi'r argymhellion ar gyfer y Cynulliad, y Cynulliad a'i bartneriaid, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Trafodir pynciau y dylid ymchwilio ymhellach iddynt hefyd.

5.9 Nid ydym yn ailadrodd yr argymhellion penodol yn y crynodeb hwn. Mae llawer yn cyfeirio at berthynas waith ac arferion o fewn a rhwng asiantaethau. Mae rhai yn gofyn am adnoddau ychwanegol a/neu well defnydd o'r adnoddau presennol. Bwriadwyd yr holl argymhellion i gynorthwyo cyrrff i atal digartrefedd, neu, lle na ellir ei atal, i ddarparu'r llety a'r gefnogaeth fwyaf addas.

Atodiad 1: Llyfryddiaeth

Audit Commission (Ionawr 2003) **Homelessness: responding to the new agenda**. Llundain: Audit Commission

Homelessness Task Force (2001) **Homelessness: An action plan for prevention and effective response**. Caeredin. Gweithrediaeth yr Alban

London Borough of Harrow (2003) **Tackling Homelessness: A good practice guide for local authorities**. Llundain: LB Harrow

London Housing Unit (2003) **Homelessness Strategies and Good Practice**, paratowyd ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Llundain

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001) **Cartrefi Gwell i Bobl Cymru**. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (Awst 2001) **Adroddiad y Comisiwn Digartrefedd**. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001) **Adolygiad i Allgau o Dai Cymdeithasol**. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) **Ystadegau Tai Cymru 2002**. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) **Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol a Chynllun Gweithredu**. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) **Côde of Guidance for Local Authorities on Allocation of Accommodation and Homelessness**. Caerdydd: LICC

National Association of Citizens Advice Bureau (Chwefror 2003) **Possession Action: the last resort?** Llundain: NACAB

Shelter (2003) **House Keeping: preventing homelessness through tackling rent arrears in social housing**. Llundain: Shelter

Shelter Cymru (Rhagfyr 2001) **Gwadu eu Hawliau i Bobl Ddigartref**. Abertawe: Shelter Cymru

Shelter Cymru (Mehefin 2002) **Targeddu Digartrefedd**. Abertawe: Shelter Cymru

Shelter Cymru (Mehefin 2003) **Cyswllt Cyntaf**. Abertawe: Shelter Cymru

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2003) **Achieving Positive Outcomes on Homelessness**. Llundain: ODPM

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2003) **Improving Standards in Temporary Accommodation – consultation paper**. Llundain: ODPM

Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru (2002) **Ôl-ddyledion Rhent a Budd-dâl Tai yn y Sector Rhentu Cymdeithasol yng Nghymru**. Caerdydd: Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru

Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru (2002) **Cau'r Bwlch: gweithio gyda'n gilydd i leihau ôl-ddyledion rhent**. Caerdydd: Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru

Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru (Chwefror 2003) **Adroddiad Arolwg Gwasanaeth Digartrefedd Cyngor Sir Ynys Môn**. Caerdydd: Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru

Atodiad 2: Adolygiad o holiadur Digartrefedd i awdurdodau lleol a'r wybodaeth a geisiwyd

Gwybodaeth ofynnol

Anfonwch gopiâu papur o'r canlynol os gwelwch yn dda:

- 1 Polisiâu a gweithdrefnau digartrefedd yn ymwneud â phob cam o gyflwyno i ddyrannu llety parhaol
- 2 Ffurflen gais i'r digartref ac unrhyw brofforma a ddefnyddir i asesu ymgeiswyr
- 3 Polisiâu a gweithdrefnau perthnasol yng nghyswllt sicrhau diogelwch llety dros-dro e.e. archwiliadau iechyd yr amgylchedd at ati
- 4 Gwybodaeth/taflenni i ymgeiswyr digartref neu'r rhai all fod yn ddigartref – eto yn ymdrin â'r wybodaeth a roddwyd i unigolion ar bob cam o'r cyfnod cyn-cyflwyno i ddyrannu llety parhaol, gan gynnwys llythyrau penderfynu
- 5 Safonau gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth digartrefedd (os ar gael)
- 6 Adroddiadau ar unrhyw adolygiadau gwasanaeth (Gwerth Gorau neu arall)
- 7 Adroddiadau i aelodau am ddigartrefedd ers Ebrill 2001
- 8 Canlyniadau unrhyw ymgynghoriad gyda defnyddwyr/siopa cyfrinachol ac ati.
- 9 Cyfeiriadur Adnoddau Digartrefedd (os ar gael)
- 10 Adroddiad digartrefedd CIPFA gan eich awdurdod ar gyfer 2001/02

Holiadur

- 1 Darparwch fanylion y nifer o gyflwyniadau digartrefedd a derbyniadau yn chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol 2002/03

Nifer y cyflwyniadau _____

Nifer y derbyniadau _____

- 2 A fu newidiadau yn y math o aelwyd a gyflwynodd ei hun fel digartref/a gyfeiriwyd atoch fel rhai digartref gan asiantaethau gwirfoddol dros y ddwy flynedd diwethaf? Os felly, beth fu'r newidiadau allweddol?

- 3 Ymwybyddiaeth Gyhoeddus: sut ydych chi'n sicrhau bod pobl all fynd yn ddigartref yn ymwybodol o'u hawliau a'r gwasanaethau digartrefedd yr ydych yn eu darparu?
- 4 Ceisiadau ac Ymholiadau
 - 4a Pa wybodaeth safonol fyddwch chi'n ei darparu i ymgeiswyr pan fyddant yn ymgeisio am gymorth digartrefedd?
 - 4b Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei darparu i ymgeiswyr pan yn eu hysbysu o'ch penderfyniad wedi cyflawni'r ymholiadau?
 - 4c A ydych yn cael unrhyw broblemau cyffredinol wrth gyflawni ymholiadau o fewn 33 diwrnod gwaith? Os felly, rhwch fanylion.
 - 4d Ar ba gyfnod y byddwch chi'n asesu anghenion tai a chefnogaeth tymor hir ymgeisydd?
 - 4e A ydych yn ystyried ceisiadau gan bobl sy'n cael eu bygwth â digartrefedd cyn y dyddiad pan fyddant yn gadael y carchar neu'r lluoedd arfog?
- 5 Digartrefedd
 - 5a Pa dystiolaeth ydych chi'n gofyn amdani gan ymgeisydd i gadarnhau nad oes ganddynt unrhyw hawl i barhau i breswyllo yn eu llety presennol?
 - 5b A yw'ch agwedd yn wahanol os ydynt yn byw gyda theulu neu ffrindiau? Os felly, rhwch fanylion.
- 6 Angen Blaenoriaeth
 - 6a Pa dystiolaeth sy'n ofynnol gennych i gadarnhau bod ymgeisydd yn hawdd ei niweidio oherwydd: henoed, salwch/nam meddyliol, anabledd corfforol?
 - 6b A oes rhesymau arbennig eraill pam y byddech fel arfer yn asesu ymgeisydd fel un hawdd ei niweidio?
 - 6c Pa dystiolaeth sy'n ofynnol gennych fel arfer i asesu person fel un hawdd ei niweidio oherwydd perygl o drais yn y cartref?
 - 6d Ym mha amgylchiadau fydddech chi fel arfer yn asesu person 18-20 fel un hawdd ei niweidio oherwydd perygl o fanteisio arno/arni yn rhywiol neu'n ariannol? A oes unrhyw bobl wedi eu hasesu felly gan eich awdurdod hyd yn hyn?
 - 6e Pa drefniadau sydd gennych yn eu lle gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau nad yw'r rhai sy'n gadael gofal yn mynd/yn aros yn ddigartref?

6f A oes gennych unrhyw gyfyngiad ar yr amser y mae'n rhaid i berson sy'n gadael y carchar neu'r lluoedd arfog ymgeisio i gael ei ystyried mewn angen sy'n cael blaenoriaeth o'i fewn?

6g A oes unrhyw amgylchiadau pryd y byddech yn ystyried rhywun fel person sy'n fwriadol ddigartref wrth adael y carchar neu'r lluoedd arfog?

7 Llety dros-dro

7a A welwyd newidiadau yn y math o lety yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer aelwydydd digartref dros y ddwy flynedd diwethaf? Os felly, beth fu'r newidiadau allweddol?

7b A yw'r math o lety yn amrywio rhwng yr hyn yr ydych yn ei gynnig i ymgeiswyr dan ddyletswydd interim a188 a dan brif ddyletswydd a.193?

7c Pa ffactorau fyddwch chi'n eu hystyried wrth benderfynu ar addasrwydd llety dros-dro?

7d Pa ffurf ar lety dros-dro fyddai'n cael ei gynnig fel arfer i: bobl 16-20, cyn-garcharorion, pobl yn ffoi rhag trais yn y cartref, pobl gyda phroblemau iechyd meddwl?

7e A fyddai'r llety dros-dro yn golygu bod pobl yn y grwpiau hyn yn gorfod rhannu gyda phobl o'r grwpiau eraill ar y rhestr, neu eraill gydag anghenion o ran cefnogaeth?

7f Faint o aelwydydd wnaeth eich awdurdod eu lleoli mewn llety dros-dro tu allan i'r ardal yn ystod 2001/02 a beth oedd y prif resymau am hynny?

7g Pa gymorth wnaethoch chi ei roi iddynt i gael eu llety

7h Pan fydd ymgeiswyr yn cael eu gosod mewn llety dros-dro, pa wybodaeth a roddir iddynt ar eu hawliau o ran ei addasrwydd?

8 Prif ddyletswyddau

8a Ym mha ffyrdd yr ydych yn darparu cymorth i ymgeiswyr sy'n cael eu bygwth â digartrefedd yn fwriadol ac sydd ag angen sy'n cael blaenoriaeth, a'r rhai sy'n ddigartref yn anfwriadol sydd heb fod ag angen sy'n cael blaenoriaeth?

8b Sut y mae darparu anghenion cefnogaeth yn cael ei drin yn y broses o ddyrannu llety dros-dro, neu o ddatrys y prif ddyletswydd yn a.193?

8c A oes unrhyw gyfyngiadau ar gyflawni eich dyletswyddau digartrefedd trwy gydweithrediad LCC?

- 8d A oes unrhyw gyfyngiadau ar gyflawni eich dyletswyddau digartrefedd trwy ddefnyddio llety sector preifat?
- 8e Sut y mae dewisiadau ymgeiswyr digartref yn cael eu hystyried yn y cynigion y maent yn eu derbyn o lety dros-dro a pharhaol?
- 9 Cysylltiad Lleol: pa feini prawf fyddwch chi yn eu defnyddio i benderfynu a oes gan ymgeisydd gysylltiad lleol?
- 10 Adolygu ac Apeliadau
- 10a Sut a phryd y byddwch yn rhoi gwybod i ymgeiswyr am eu hawliau i gael adolygiad ac i apelio i'r Llys Sirol?
- 10b Faint o geisiadau am adolygiad a dderbyniwyd yn ystod 2001/02?
- 10c Faint o benderfyniadau a wrth-drowyd o ganlyniad i adolygiad?
- 10d Faint o apeliadau a wnaed yn ystod 2001/02?
- 10e Faint o benderfyniadau a wrth-drowyd o ganlyniad i apêl?
- 11 Pa broblemau y mae'r awdurdod yn eu cael wrth weithredu'r gyfraith a'r Côt Cyfarwyddyd?

Yn ogystal â materion polisi, gweithdrefnau a staffio sy'n benodol i'r tîm digartrefedd, efallai yr hoffech gyfeirio at faterion adrannol neu gorfforaethol neu ffactorau o'r tu allan i'ch corff.

Byddai o gymorth petai eich ymateb yn cyfeirio at y meysydd gweithredu canlynol, fel sy'n berthnasol:

Cyflwynaid

Cyfeirio

Asesu

Llunio penderfyniadau

Hysbysu

Cyswllt gyda landlordiaid i sicrhau llety, a

Y dewis a natur y llety a gynigir i bobl ddigartref, gan gynnwys llety dros-dro

12 Beth fyddai o gymorth i'ch awdurdod i oresgyn y problemau a restrwyd uchod?
Yn benodol:

12a Beth yn rhagor all eich awdurdod ei wneud?

12b Beth yn rhagor all asiantaethau sy'n bartneriaid ei wneud i'ch cynorthwyo i gyflawni eich dyletswyddau digartrefedd?

12c Beth yn rhagor all Llywodraeth Cynulliad Cymru ei wneud i'ch cynorthwyo wrth gyflawni eich dyletswyddau digartrefedd?

Nodwch pa dri pheth fyddai o fwyaf o gymorth i chi.

i. _____

ii. _____

iii. _____

13 Rhowch enghreifftiau o ymarfer da mewn digartrefedd a ddangosir gan eich awdurdod. Os yw'r ymarfer hwn wedi ei werthuso/asesu yn allanol mewn unrhyw ffordd, nodwch hynny. (Rydym am rannu ymarfer da.)

14 A ddyfarnwyd Buddsoddwr Mewn Pobl i'ch awdurdod ar gyfer yr adran sy'n cynnwys digartrefedd?

Do

Na

15 A oes cyllideb hyfforddi benodol ar gyfer staff sy'n gweithio ar ddigartrefedd?

Oes

Na

16 A oes gan eich awdurdod unrhyw ddyfarniadau ansawdd am ddigartrefedd e.e. Nod Siarter, Nod Ansawdd y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol? Os oes, disgrifiwch a rhowch ddyddiad y dyfarniad

17 Unrhyw sylwadau eraill

Atodiad 3: Cyrff cenedlaethol yr ymgynghorwyd â hwy

AWEMA

Barnardos Cymru

Big Issue Cymru

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymorth i Fenywod Cymru

Defence Housing Executive

Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru

Fforwm Tîm Troseddwyr Ifanc

Lleisiau o Ofal

NACAB Cymru/Wales

Nacro Cymru

NSPCC

Sefydliad Tai Siartredig Cymru

Shelter Cymru

Tîm Plant yn Gyntaf (Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Veterans Task Force

Y Comisiwn Archwilio

Y Gwasanaeth Carchardai

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Atodiad 4: Materion i'w trafod gyda chyrrff cenedlaethol

Deddfwriaeth digartrefedd:

Pa mor dda y mae'r ddeddfwriaeth wedi ei chynllunio?
Barn ar eglurder y ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddyd;
Arwyddocâd newidiadau Mawrth 2001 i ddeddfwriaeth digartrefedd i'r corff;
Ymateb y corff, neu'r rhai a gynrychiolir ganddo, i'r newidiadau deddfwriaethol, os o gwbl;
Pa mor dda y mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu? (Ymateb i gynnwys problemau sy'n codi wrth weithredu, a'r rhesymau amdanynt.)

Syniadau ar sut y gellir gwella'r cyfarwyddyd:

Effaith ar y grŵp client;
Effaith deddfwriaeth digartrefedd ymhlith y grŵp client;
Ymwybyddiaeth o hawliau'r grŵp client perthnasol yn y corff, yn y maes ac ymhlith y grŵp client;
Pa mor dda y mae gweithredu'r ddeddfwriaeth yn arwain at ganlyniadau tai llwyddiannus? (pobl yn cael eu rhoi mewn tai addas ar eu cyfer ac ati).

Cyffredinol:

Meysydd sy'n peri diddordeb neu bryder penodol;
Unrhyw sylwadau ar awdurdodau y mae eu gweithgareddau digartrefedd yn dangos ymarfer da;
Enghreifftiau o feysydd lle mae anawsterau/tensiynau;
Barn ar sut y gellir gwella'r ymarfer yn y dyfodol;
Copïau o unrhyw adroddiadau/ymchwil perthnasol, astudiaethau achos a/neu wybodaeth am fonitro.

Atodiad 5: Cyrff lleol yr ymgynghorwyd â hwy

ALI	Cyrff
Blaenau Gwent	NCH,NASH, Prawf, Gwasanaethau Cymdeithasol
Caerdydd	Cardiff Action for Single Homeless, Big Issue, Wallich Clifford, Dyfrig House, Llamau, Carchar Caerdydd, Somali Progressive Association, BAWSO, Tai Trothwy, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Gwasanaeth Prawf, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, Gwasanaethau Cymdeithasol Caerdydd
Caerffili	Prosiect Ieuentid Caerffili (nawr Kids in Caerphilly Crazy), Gofal, Cymorth Cyffuriau Caerffili, CT United Welsh, Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili, Cymorth i Fenywod Cwm Rhymni, Cymorth i Fenywod Gogledd Gwent, Prawf
Casnewydd	NASH, Caring Hands, Barnardos (Rhisga), Big Issue, Prawf, Gwasanaethau Cymdeithasol
Castell-nedd Port Talbot	DEWIS, YMCA, Caer Las, Cymorth i Fenywod Castell-nedd, Cymorth i Fenywod Port Talbot, Gwasanaethau Cymdeithasol
Ceredigion	Cymorth i Fenywod Aberteifi, Cymorth i Fenywod Abersytwyth, HYPE, Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion, CAB Aberystwyth, Prawf Dyfed Powys, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Gorllewin Cymru
Conwy	CAB Conwy, Prawf, CT Gogledd Cymru, Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy, Prosiect Ieuentid Digartref Conwy (C.T. Clwyd), Shelter Conwy, Prawf
Dinbych	MIND Dinbych, CAIS, NACRO, Ymddiriedolaeth Iechyd Gogledd Ddwyrain Cymru, Cornerstone, Cymorth i Fenywod Glyndŵr, Cymorth i Fenywod Y Rhyl a'r Ardal, Prawf
Gwynedd	GISDA, NACRO, CAIS, Sylfaen, CAB Bangor, Cymorth i Fenywod Bangor a'r Ardal, Cymorth i Fenywod Gwynedd, Gwasanaethau Cymdeithasol
Merthyr Tudful	Cymorth i Fenywod Tarian, MIND Merthyr, Prawf, Gwasanaethau Cymdeithasol
Pen-y-bont ar Ogwr	Caer Las, Gofal, Wallich Clifford, Llamau, Barnardos, Cymorth i Fenywod Pen-y-bont ar Ogwr, Gwasanaethau Cymdeithasol
Sir Gaerfyrddin	Cymorth i Fenywod Llanelli, Cymorth i Fenywod Dyffryn Lliw, Cymorth i Fenywod Sir Gaerfyrddin, Cymorth i Fenywod Cwm Aman, Cymorth i Fenywod Caerfyrddin, Tai Trothwy, CT Hafan, Ymddireidolaeth Iechyd Lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol

ALI	Cyrff
Sir y Fflint	Cymorth i Fenywod Delyn, Cymorth i Fenywod Glannau Dyfrdwy, CT Clwyd Alyn, Gwasanaethau Cymdeithasol y Fflint, Prawf
Sir Fynwy	Stopover, CAB y Fenni, MIND y Fenni, YOT, Cymorth i Fenywod Sir Fynwy, Prawf, NASH
Ynys Môn	Di-gartref Ynys Môn, CAB De Ynys Môn, Cymorth i Fenywod Ynys Môn, GISDA
Abertawe	Prosiect Cyffuriau Abertawe, Barnardos, Prosiect Pobl Ifanc Sengl Ddigartref Abertawe (SYSHP), Carchar Abertawe, NACRO, Cymorth i Fenywod Abertawe, Gwasanaethau Cymdeithasol, Prawf
Bro Morgannwg	Llamau, Tai Trothwy, Prawf, Gwasanaeth Ieuencid Penarth, Ymddiriedolaeth Iechyd Lleol, Cymorth i Fenywod Bro Morgannwg
Powys	Tai Trothwy, Cymorth i Fenywod Sir Faesyfed, Cymorth i Fenywod Brycheiniog, Cyffuriau ac Alcohol Powys, Prawf, Ymddiriedolaeth Iechyd Powys, Gwasanaethau Cymdeithasol
Rhondda Cynon Taf	Adref, Cymorth i Fenywod Rhondda, Cymorth i Fenywod Cwm Cynon, Cymorth i Fenywod Pontypridd, NCH, YMCA Pontypridd, CT Cynon Taf, Gwasanaethau Cymdeithasol
Sir Benfro	PATH, MIND Sir Benfro, Hafal(NSF), Cymorth i Fenywod Hwlfordd, Gwasanaethau Cymdeithasol
Torfaen	NASH, Ymddiriedolaeth Iechyd, Cymorth i Fenywod Torfaen Womens Aid, Gwasanaethau Cymdeithasol, Torfaen Voluntary Alliance, Prawf, Tîm Cyffuriau ac Alcohol
Wrecsam	CAIS, WATCH, WAVO, Prawf, YOT, Cymorth i Fenywod Wrecsam

Atodiad 6: Materion i'w trafod gyda chyrrff lleol

I'n galluogi i ddeall mwy am eich corff rhowch wybodaeth i ni am:

- yr ardal ddaearyddol y mae eich corff yn ei gwasanaethu;
- pa grŵp cleientiaid yr ydych yn gweithio gyda nhw;
- pa wasanaethau yr ydych yn eu darparu;
- faint o staff sydd gennych;
- o ble y daw eich cyllid;
- unrhyw faterion allweddol yng nghyswllt y corff ei hun/cyd-destun.

Cwestiynau penodol:

- A yw digartrefedd yn broblem i nifer sylweddol o'ch cleientiaid?
- A yw eich cleientiaid yn medru cael mynediad at gyngor o ansawdd ar dai yn rhwydd?
- A oes gennych ddealltwriaeth o ddyletswyddau'r awdurdod lleol tuag at bobl ddigartref yn eich grŵp cleientiaid (gan gynnwys cyfarwyddyd statudol), a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu?
- Pa mor dda yr ydych chi'n teimlo y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni'r dyletswyddau hyn?
- A ydych chi neu eich grŵp cleientiaid wedi profi unrhyw anawsterau wrth fynd at yr awdurdod am help oherwydd digartrefedd?
- A allwch chi rannu profiad o achos i ddangos yr uchod heb ddatgelu enwau?
- A yw'r awdurdod fel arfer yn trefnu tai ar gyfer eich cleientiaid digartref cyn gynted ag y maent yn mynd at yr awdurdod, ac os felly pa fath o dai fyddant yn cael ei gynnig yn nodweddiadol?
- A yw'r awdurdod lleol fel arfer yn trefnu mynediad at dai tymor hir i'ch cleientiaid sydd wedi bod yn ddigartref, a pha mor dda y bydd yn bodloni eu hanghenion?
- A oes gennych unrhyw drefniadau cyfeirio neu gysylltu gyda'r awdurdod i helpu eich cleientiaid digartref?
- Sut y mae anghenion eich cleientiaid o ran cefnogaeth yn cael eu diwallu wedi i'ch cleientiaid digartref fynd at yr awdurdod?

- A ydych yn ymwybodol o unrhyw dueddiadau sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau i'ch cleientiaid sy'n ddigartref?
- A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol ar ba mor effeithiol yw gwasanaeth digartrefedd eich awdurdod lleol yn eich ardal, a sut y gellid ei wella?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ar sut y gall y Cynulliad neu gyrff eraill helpu'r awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau tuag at bobl ddigartref, neu unrhyw newidiadau eraill sydd eu hangen i'r ddeddf a'r cyfarwyddyd statudol?

Gwahaniaethwch yn eich sylwadau, os gwelwch yn dda, rhwng yr hyn y gall y Cynulliad, awdurdodau lleol ac asiantaethau sy'n bartneriaid ei wneud i wella ymarfer/ymateb yr awdurdod lleol.

Cyffredinol:

Unrhyw sylwadau eraill gan gynnwys meysydd penodol o ddiddordeb neu sy'n peri pryder;
Unrhyw sylwadau ar awdurdodau y mae eu gweithgareddau ar ddigartrefedd yn enghraifft o ymarfer da;

Unrhyw enghreifftiau o feysydd lle mae tensiynau/anawsterau;

Barn ar sut y gall ymarfer gael ei wella yn y dyfodol;

Copiâu o unrhyw adroddiadau/ymchwil, astudiaethau achos a/neu wybodaeth fonitro berthnasol.

Atodiad 7: Grŵp llywio'r prosiect

Anne Delaney	Comisiwn Archwilio Cymru
Joy Kent	Sefydliad Tai Siartredig Cymru
John Puzey	Shelter Cymru
Phil Roberts	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Mike Harmer	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Geoff Marlow	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Tamlyn Rabey	Llywodraeth Cynulliad Cymru

Atodiad 8: Materion ar gyfer y Côd Cyfarwyddyd yn deillio o'r adolygiad

(Darparwyd y sylwadau hyn ar ffurf nodiadau i'r Cynulliad yn ystod y broses adolygu, i gyfrannu at fersiwn derfynol y Côd Cyfarwyddyd.)

Cefndir

Dynodwyd y materion o:

- ymatebion i'r arolwg awdurdodau lleol (21 allan o 22 wedi eu derbyn ar adeg yr ymateb);
- trafodaethau a gynhaliwyd yn y dyddiau ymchwilio a gynhaliwyd yn Ionawr a Chwefror 2003 (mynychodd yr holl awdurdodau lleol);
- yr arolwg ffôn o gyrff lleol;
- trafodaethau a chyfarfodydd gyda chyrff cenedlaethol, ac ymateb ganddynt.

Materion cyffredinol

Dylai'r Côd:

- bwysleisio bod digartrefedd yn fater corfforaethol a thrwy adrannau tai cyfan, nid cyfrifoldeb y tîm digartrefedd yn unig;
- gynnig cyfarwyddyd clir ar sut y mae digartrefedd yn rhan o agendâu corfforaethol ehangach e.e. Trosedd ac Anhrefn, Deddf Plant ac ati;
- fod yn fwy rhagnodol, i leihau amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol (sy'n sylweddol), ond hefyd i ysgogi gwell partneriaeth rhwng timau digartrefedd ac adrannau/timau/asiantaethau eraill. Ar hyn o bryd mae gormod o bwyslais ar gydweithio gwirfoddol;
- fod yn gliriach ar yr hyn y mae'n rhaid i awdurdodau ei wneud;
- gael ei ysgrifennu mewn iaith gliriach a sicrhau bod unrhyw jargon yn cael ei esbonio'n glir;
- bwysleisio'r angen i edrych ar achosion troseddu, camddefnyddio sylweddau ac ati ac annog awdurdodau i gydnabod y rhan y mae llety a chefnogaeth yn eu chwarae i atal ail-droseddu;
- roi eglurder ar rolau priodol i aelodau etholedig, e.e. glynu at egwyddorion strategol y cytunwyd arnynt a pheidio ymwneud ag achosion unigol.

Cyngor ac atal

Dylai'r Côt:

- ddarparu cyfarwyddyd ychwanegol ar ddarparu a chyflenwi cyngor fel dull o ymyrryd yn gynnar i atal digartrefedd;
- pwysleisio'r angen am ddiwylliant o atal. Rhaid i hyn gael ei hyrwyddo trwy beirianweithiau eraill hefyd, megis cael ei adlewyrchu yn nogfennau strategol eraill y Cynulliad.

Cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth

Dylai'r Côt:

- bwysleisio'r angen i awdurdodau lleol ddarparu taflenni i'r cyhoedd yn nodi sut i gael mynediad at y gwasanaeth, sut y mae'n gweithio a beth allant ddisgwyl ei weld yn digwydd.

Cyflwyniad/asesu/llunio penderfyniadau/cyfeirio

Dylai'r Côt:

- ddarparu cyfarwyddyd ar y defnydd o wasanaethau dehongli gan staff llinell flaen, sut y dylid talu am y rhain a gan bwy;
- rhoi cyfarwyddyd am yr angen i ofod cyfweld fod yn breifat;
- darparu cyfarwyddyd clir a yw pobl sy'n byw mewn hosteli yn ddigartref neu beidio;
- darparu cyfarwyddyd cliriach am y diffiniad o gysylltiad lleol i garcharorion, yr amserlen ar gyfer gwneud ceisiadau am gymorth, a mwy o gyngor ar asesu cyn-droseddwyr;
- cynghori a all asesiadau digartrefedd gan gyrrff eraill, e.e. Cymorth i Fenywod, gael eu derbyn gan y tîm digartrefedd (yn amodol ar i'r Cyngor wneud y penderfyniad statudol) yn hytrach na bod unigolyn/aelwyd yn gorfod ailadrodd manylion eu hamgylchiadau wrth dîm digartrefedd y Cyngor;
- darparu diffiniad cliriach o fod yn agored i niwed, yn arbennig yng nghyswllt iechyd meddwl lle mae angen ystyried yr effaith, nid y diagnosis yn unig;
- bod yn gliriach am y lefel o brawf sy'n ofynnol, e.e. parthed trais yn y cartref neu broblemau iechyd meddwl;

- datgan na ddylai menywod sydd wedi eu cam-drin orfod bod trwy loches i fenywod, nag aros mewn un am gyfnod penodol o amser, cyn cael eu hasesu gan y cyngor;
- pwysleisio a rhoi cyhoeddusrwydd i gyrff gwirfoddol bod amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ddigartrefedd;
- ystyried cyflwyno llythyrau hysbysu digartrefedd safonol a fyddai'n sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n gyson ar draws y wlad. Gall y rhain hefyd gynnwys arweiniad hylaw i'r ddeddfwriaeth, gan esbonio'r dyletswyddau a'r ymrwymïadau sydd gan awdurdod lleol tuag at ymgeiswyr gan ddibynnu ar ba benderfyniad a wneir.

Sicrhau llety dros-dro/parhaol/cefnogaeth addas a rôl LCC

Dylai'r Côd:

- gydnabod yr hyn sy'n digwydd "ar y ddaear", h.y. na all awdurdodau lleol orfodi landlordiaid sector preifat i gymryd pobl ddigartref a bod landlordiaid eisïau arian, nid bondïau;
- ystyried ymestyn cwmpas yr hyn sy'n gynnig addas o lety parhaol o ystyried y niferoedd cyfyngedig o lety sydd ar gael;
- darparu ffyrdd ymarferol o gyflawni'r datganiadau mwyaf uchelgeisiol, e.e. cartrefu rhai 16/17 oed, cyngor ar faterion cyfreithiol, beth i'w wneud os bydd rhywun yn gwrthod cymorth;
- ystyried cwotâu gorfodol ar gyfer darparu llety dros-dro a parhaol gan LCC;
- darparu cyfarwyddyd ar ba wybodaeth sy'n addas i'w ddarparu i LCC gydag enwebiadau fel eu bod yn medru cartrefu'n sensitif/briodol;
- darparu cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar sut i negodi gyda pholisïau allgau LCC ar ddyled ac ymddygiad anghymdeithasol. Mae'r polisïau hyn yn golygu nad yw LCC yn cartrefu llawer o enwebiadau digartref, tra nad oes gan awdurdod lleol ddewis ond gwneud hynny;
- darparu cyfarwyddyd ar ba fath o gytundeb tenantiaeth sy'n addas i gyflawni dyletswyddau digartref;
- darparu mwy o gyfarwyddyd cyffredinol ar gartrefu'r rhai a dderbynnir fel rhai digartref sydd ag ôl-ddyledion blaenorol neu sydd wedi colli tenantiaeth trwy ymddygiad anghymdeithasol;
- darparu cyfarwyddyd ar ochr ymarferol lletya troseddwy'r Atodlen 1, asesu risg a rôl cyrff sy'n bartneriaid wrth weithredu hyn;

- darparu cyfarwyddyd y gall fod yn addas i awdurdodau lleol ddefnyddio eu stoc eu hunain i gartrefu pobl ifanc ddigartref;
- darparu cyfarwyddyd i ymdrin â rôl cefnogaeth mewn llety dros-dro i helpu i atal colli llety dros-dro;
- darparu cyngor ar ymdrin ag ymgeiswyr sy'n colli llety dros-dro dro ar ôl tro oherwydd eu hymddygiad.

Cydweithio

Dylai'r Côt:

- ddarparu cyfarwyddyd cliriach eto am yr angen i gydweithio rhwng staff tai a gwasanaethau cymdeithasol gan roi enghreifftiau ymarferol ac, o bosibl, protocolau model;
- darparu cyfarwyddyd ar yr angen i awdurdodau lleol roi gwybod i gyrff sy'n bartneriaid am eu gwasanaethau/gweithdrefnau/newidiadau ac ati;
- ail-bwysleisio wrth Adrannau Gwasanaethau Plant eu rôl dan Adran 17 o Ddeddf Plant nad yw'r ddeddfwriaeth digartrefedd yn ei disodli;
- egluro a gorfodi cyfarwyddyd ar gael y sector gwirfoddol i gyfrannu at y cynllunio;
- darparu cyfarwyddyd ar weithio gyda chyrrff sy'n bartneriaid.

Rhannu gwybodaeth a sicrhau bod y Côt yn cael ei weithredu

Dylai'r Cynulliad:

- gynnal cronfa ddata o reolwyr gwasanaethau digartrefedd ac anfon gwybodaeth am newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn uniongyrchol atynt, yn ogystal â'r prif swyddog tai, i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon;
- rhannu'r Côt Cyfarwyddyd yn eang i ystod o adrannau awdurdod lleol ac asiantaethau eraill, gan roi dadansoddiad cryno o berthnasedd y Côt i'r gwahanol gyrff;
- rhannu nodiadau ymarfer da ar faterion pwysig;
- hyrwyddo a rhoi adnoddau ar gyfer hyfforddiant ar y Côt.

Atodiad 9: Materion ar gyfer y Strategaeth Digartrefedd Genedlaethol yn deillio o'r adolygiad

(Darparwyd y sylwadau hyn ar ffurf nodiadau i'r Cynulliad yn ystod y broses adolygu, i gyfrannu at fersiwn derfynol y Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol.)

Cefndir

Dynodwyd y materion o:

- ymatebion i'r arolwg awdurdod lleol (21 allan o 22 wedi eu derbyn ar adeg yr ymateb);
- trafodaethau a gynhaliwyd yn y dyddiau ymchwilio a gynhaliwyd yn Ionawr a Chwefror 2003 (mynychodd yr holl awdurdodau lleol);
- yr arolwg ffôn o gyrff lleol (darparwyd adroddiad ar gynnydd);
- trafodaethau a chyfarfodydd gyda chyrff cenedlaethol, ac ymateb ganddynt (darparwyd adroddiad ar gynnydd).

Materion cyffredinol

Fel rhan o'i Strategaeth Ddigartrefedd Genedlaethol, dylai'r Cynulliad:

- geisio codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd, yr hyn y dylai awdurdodau fod yn ei wneud i asesu pobl sy'n cyflwyno fel rhai digartref, a beth yn union sydd ar gael i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r ffyrdd ymarferol o gynyddu ymwybyddiaeth yn cynnwys gwybodaeth ar y rhyngwrwyd am wasanaethau cenedlaethol a lleol, a hyfforddiant ar y cyd rhwng gyrff;
- rhannu ymarfer da, dros y rhyngwrwyd efallai;
- dynodi dulliau o gynyddu ymwybyddiaeth o ddigartrefedd ymhlith swyddogion y Cynulliad ac Aelodau;
- trefnu digwyddiadau ar y cyd gyda a rhwng awdurdodau lleol, a mynychu fforymau lleol;
- trefnu rhwydwaith ymarfer da;
- darparu cyfarwyddyd clir i aelodau etholedig a phrif swyddogion corfforaethol ar ddisgwyliadau'r Cynulliad ar gyfer datblygu gwasanaethau digartrefedd fel blaenoriaeth wleidyddol a chyfrifoldeb corfforaethol;
- cynyddu adnoddau ar gyfer digartrefedd a darparu cyllid penodol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol;
- darparu cyfleoedd cyllido ar gyfer gwasanaethau newydd wrth i anghenion gael eu dynodi. Ni ddylid clymu'r rhain wrth amserlen ymgeisio afrealistig, ac ni ddylent ofyn am arian cyfatebol na ellir darparu ar ei gyfer mewn gwirionedd;
- ystyried darparu cyllid tymor hirach ar gyfer gyrff gwirfoddol i'w galluogi i gynllunio'n fwy effeithiol;
- gosod allan gamau ymarferol i sicrhau bod yr holl asiantaethau yn cyflawni eu hymrwymadau – mae dibynnu ar gydweithrediad gwirfoddol trwy'r amser yn rhy optimistig;
- sicrhau bod newidiadau polisi yn cael eu hariannu'n ddigonol a bod adnoddau ar gyfer mentrau newydd yn cael eu cadw ar eu cyfer;

- darparu cyfarwyddyd ar sut y dylai gwaharddiadau fod yn berthnasol i ymgeiswyr digartref;
- sicrhau bod addysg tai a chyflogaeth yn cael ei osod ym mhynciau craidd cwricwlwm ysgolion uwchradd a bod deunydd addas yn cael ei gynhyrchu ar gyfer athrawon;
- arwain o ran newid syniadau'r cyhoedd am gynlluniau tai â chefnogaeth fel bod y cynlluniau hyn yn cael eu derbyn o fewn y gymuned.

Atal

Fel rhan o'i Strategaeth Digartrefedd, dylai'r Cynulliad:

- ddarparu mwy o gyllid/cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau cyfryngu a chynghori arbenigol i atal digartrefedd;
- dangos symudiad tuag at atal ar lefel genedlaethol;
- darparu grantiau i alluogi darparu gwasanaethau o ansawdd, e.e. cyrraedd y Nod Ansawdd CLS.

Mynediad at dai

Fel rhan o'i Strategaeth Digartrefedd, dylai'r Cynulliad:

- gynyddu'r datblygiadau tai cymdeithasol;
- cyflwyno cymhelliant ar gyfer landlordiaid sector preifat;
- darparu mwy o adnoddau i gynyddu nifer a safon y llety dros-dro ar gyfer grwpiau cleientiaid penodol, e.e. carcharorion;
- darparu anogaeth i awdurdodau/pwysau arnynt i sicrhau cyllid digonol ar gyfer tai o fewn adnoddau'r awdurdodau eu hunain;
- gwerthuso ac archwilio ffyrdd newydd o ddarparu ac ariannu llety i grwpiau o bobl a ychwanegwyd yn ddiweddar at y grwpiau angen sy'n cael blaenoriaeth;
- hwyluso trefniadau cydweithio rhwng awdurdodau lleol wrth ddarparu llety dros-dro;
- tynhau'r ddeddfwriaeth yng nghyswllt landlordiaid preifat parthed gosod rhenti, a safonau iechyd a diogelwch;
- defnyddio arian o Hawl i Brynu ar gyfer prosiectau i adeiladu o'r newydd.

Ailsefydlu, cefnogaeth a mynediad at wasanaethau

Fel rhan o'i Strategaeth Digartrefedd, dylai'r Cynulliad:

- gynyddu'r cyllid/Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer dewisiadau tai â chefnogaeth, gan gynnwys mynediad uniongyrchol/darpariaeth argyfwng, cefnogaeth deithiol a chefnogaeth tenantiaeth.

Cyflawni'r strategaeth

Rhaid i'r Cynulliad weithredu yn erbyn awdurdodau anufudd ac ymwneud anaddas gan aelodau etholedig. Mae'n ofynnol monitro ac archwilio awdurdodau lleol a LCC yn gyson.